Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 7fed Mai, 2019 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH |
| **PWYNT CYSWLLT** | Annes Siôn<br>01286 679490<br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig L. Siencyn | Arweinydd |
| Dafydd Meurig | Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai |
| Gareth Wyn Griffith | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Nia Wyn Jeffreys | Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Cyllid |
| Catrin Wager | Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol |
| Cemlyn Rees Williams | Aelod Cabinet Addysg |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHARFFU | | | |
| 5 | COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 2 EBRILL 2019 | | | 3 - 10 |
| 6 | STRATEGAETH TOILEDAU CYHOEDDUS | Cyng. Catrin Wager | Steffan Jones | 11 - 79 |
| 7 | CYNLLUN Y CYNGOR: CAIS AM ADNODDAU DATBYLGU TECHNOLEG I GEFNOGI FFORDD GWYNEDD | Cyng. Ioan Thomas | Huw Ynyr | 80 - 83 |
| 8 | TREFNIADAU TAL CRWNER | Cyng. Nia Jeffreys | Iwan Evans | 84 - 88 |
| 9 | ADOLYGIAD RHEOLAETHOL<br><br>Mae atodiad ar wahân ar gyfer aelodau'r Pwyllgor yn unig.<br><br>Mae'r atodiad yn eithriedig o dan Baragraff 12 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 - Gwybodaeth ynglŷn ag unigolyn penodol.<br><br>Mae'r atodiad i'r adroddiad yn son am faterion yn ymwneud a chyflogaeth aelodau a staff penodol, eu hamodau gwaith a thrafodaethau ynglŷn â'r materion yma sydd yn eu hanfod yn gyfrinachol | | Dilwyn Williams | 89 - 115 |

## Y CABINET DYDD MAWRTH, 2 EBRILL 2019

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Wyn Griffith, Nia Wyn Jeffreys, Peredur Jenkins, Dilwyn Morgan, W. Gareth Roberts, Gareth Thomas a Ioan Thomas

**Hefyd yn bresennol-**
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Evans Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid), Annes Sion (Swyddog Cefnogi Aelodau)

Eitem 6, 7 ac 8: Garem Jackson (Pennaeth Adran Addysg), Debbie Jones (Swyddog Gwasanaethau Corfforaethol Addysg), Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Ardal Gwynedd)
Eitem 9 a 10: Caren Rees Williams (Prif Cyfrifydd Cyfalaf a Rheolaeth)

### 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant

### 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys

### 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

### 5. COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 12 MAWRTH

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfodydd y Cabinet a gynhaliwyd ar y 12 Mawrth 2019, fel rhai cywir.

## 6. AILSTRWYTHURO CANOLFANNAU IAITH

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Gareth Thomas

**PENDERFYNWYD**

Penderfynwyd i:

i. Weithredu cynllun peilot o strwythur staffio o athro a chymhorthydd gan gynyddu'r gymhareb athro : disgybl mewn un Canolfan Iaith am gyfnod o flwyddyn, gan ei fonitro'n ofalus er mwyn canfod a ydyw yn cael effaith ar ansawdd yr addysg a chyrhaeddiad y plant
ii. Diddymu lwfans CAD i athrawon ymhob Canolfan Iaith, ynghyd ag ymgorffori'r ôl-ofal yn rhan o ddarpariaeth graidd y Canolfannau Iaith, gan ddiddymu'r swydd ôl-ofal sydd yn bodoli ar hyn o bryd.
iii. Er mwyn prynu amser i ystyried canlyniadau'r peilot, cymeradwyo cyllid pontio i gyfarch y bwlch fydd yn parhau i fodoli ar ôl gweithredu ar ii uchod hyd nes y bydd casgliadau'r peilot yn wybyddus.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi y bydd angen penderfynu sut y bydd y Cyngor yn cyfarch yr angen i leihau £96,000 o gyllideb y Canolfannau Iaith. Tynnwyd sylw i'r faith fod gwaith arbennig yn cael ei wneud yn y canolfannau iaith.

Ychwanegwyd fod ymgynghoriad mewnol wedi ei gynnal gyda'r staff, undebau ac mewn amrywiol gyfarfodydd y Cyngor. Nodwyd cefndir y Canolfannau Iaith gan nodi eu bod wedi ei gyllido gan grant gan Fwrdd yr Iaith gydag arian cyfatebol gan y Cyngor. Mynegwyd pan ddiddymwyd Bwrdd yr Iaith fod Grant y Gymraeg mewn Addysg, gan Lywodraeth Cymru wedi cyllido'r Canolfannau. Ychwanegwyd fod Llywodraeth Cymru wedi dod a 11 o'r grantiau addysg o dan un pennawd Grant Gwella Addysg, a oedd yn cynnwys Grant y Gymraeg. Mynegwyd fod y Grant Gwella Addysg ers 2014/15 wedi bod yn derbyn gostyngiad blynyddol, ac wrth ystyried chwyddiant mae'r toriad mewn termau real yn 34%, ond ychwanegwyd fod y Canolfannau Iaith dros y blynyddoedd wedi eu gwarchod yn gyfan gwbl drwy'r holl doriadau. Mynegwyd yn 2018/19 fod 10% o doriad yn y Grant Gwella addysg gan Lywodraeth Cymru a olygai diffyg o £61,000 yng nghyllidebau'r Canolfannau Iaith. Nodwyd fod y Cyngor wedi llwyddo i bontio'r diffyg hwn am eleni.

Tynnwyd sylw at y Cyfnod Sylfaen sydd wedi gweld gostyngiad o 32% ers 2014/15 sydd yn cyfateb a £1.2miliwn neud oddeutu 70 o gymorthyyddion dosbarth. Mynegwyd fod gwaith arbennig o drochi plant yn yr iaith yn digwydd yn y Cyfnod Sylfaen yn ogystal. Mynegwyd er bod y setliad gan Lywodraeth Cymru am eleni yn niwtral ychwanegwyd mewn termau real fod toriad gan fod chwyddiant mewn cyflogau a Phensiynau. O ganlyniad i hyn nodwyd fod angen ail strwythuro er mwyn bod yn gost effeithlon.

Mynegwyd mai ymgynghoriad mewnol sydd wedi ei gynnal, gan ddilyn camau Adnoddau Dynol. Nodwyd restr o fudiadau ac unigolion y maer Aelod Cabinet ac Adran Addysg wedi derbyn gohebiaeth ganddynt mewn perthynas a'r

Canolfannau Iaith sef Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Cylch yr Iaith, Popeth Cymraeg, CYDAG, RHAG, Cynghorau Tref a Chymuned, Canghennau Merched y Wawr ac nifer uchel o unigolion. Tynnwyd sylw at y tri maes pryder oedd wedi codi yn yr ohebiaeth yma sef gwrthwynebu'r newid, newid mewn demograffeg ac ansawdd yr addysg (pe bai newid i'r strwythur).

Nododd y Pennaeth Addysg a'r Swyddog Gwasanaethau Corfforaethol Addysg y sefyllfa gyfredol gan nodi'r strwythur staffio sydd i'w gweld yn y 5 Canolfan Iaith ar draws y sir, sef 4 canolfan gynradd ac un uwchradd gan dynnu sylw at niferoedd y disgyblion sydd yn mynychu'r canolfannau. Ymhelaethwyd ar y broses ymgynghori sydd wedi ei gynnal gan bwysleisio nad proses ymgynghori cyhoeddus a gynhaliwyd ond yn hytrach mai proses fewnol gyda'r staff ac undebau yn sgil y posibilrwydd o newid i'w hamodau gwaith. Nodwyd yr opsiynau yr ymgynghorwyd arnynt gan nodi fod yr adran wedi llunio meini prawf ar gyfer yr opsiynau.

Cafwyd crynodeb o sylwadau'r Undebau a oedd yn nodi'r angen i athrawon fod yn arbenigol ar gyfer trochi iaith yn effeithiol, yn gallu cynllunio gwersi byrlymus wedi eu strwythuro'n ofalus ac yr angen i arwain y ganolfan yn absenoldeb y naill neu'r llall. Ychwanegwyd gofynnodd yr Undeb am eglurdeb ar rai pwyntiau yng nghyd-destun yr ail strwythuro gan awgrymu'r angen i dreialu'r gymhareb athro : cymhorthydd i 16 o blant cyn gwneud unrhyw benderfyniad. Mynegwyd fod Canolfan Iaith Dolgellau, sydd cael ei staffio gydag Athro a Chymhorthydd ar hyn o bryd, wedi anfon eu sylwadau yn unigol gan nodi eu bod yn gweithredu fel Opsiwn 2 er 16 o flynyddoedd ac yn llwyddiannus iawn. Mynegwyd eu bod yn llawn ac ar adegau gyda mwy na'r capasiti ac yn gallu cyflawni gofynion y cwrs gydag Athrawes a Chymhorthydd.

Tynnwyd sylw yn dilyn yr ymgynghroiad ar y pedwar opsiwn fod ymgynghoriad pellach wedi ei gynnal gan ddilyn proses Adnoddau Dynol ar un opsiwn a nodi'r isod:

Opsiwn dan Ystyriaeth

- Pob Canolfan yn parhau'n agored
- Un Arweinydd digyswllt ar gyfer yr holl Ganolfannau Iaith, gan allu addysgu yn unrhyw un o'r Canolfannau Iaith yn ôl yr angen
- Strwythur Staffio o Athro a Chymhorthydd Lefel 4 ymhob Canolfan Iaith
- Darpariaeth ôl-ofal yn dod yn rhan o ddarpariaeth graidd pob Canolfan Iaith.

Cyflwynwyd crynodeb o sylwadau'r undebau ar ran y staff y Canolfannau Iaith ar yr opsiwn dan ystyriaeth gan nodi fod at rai materion addysgol yn cynnwys yr angen i ystyried trefniadau yn ymwneud a nifer o blant a fyddai'n cael eu haddysgu mewn dosbarth. Rhoddwyd sylwadau'r Undebau yn ymwneud a rôl a chyfrifoldebau cyffredinol yr athro a rheolaeth y canolfannau, gan fynegi ystyriaeth taliadau cyfrifoldeb CAD. Yn ychwanegol a hyn yr angen i ystyried yr heriau posib ynglŷn â rôl yr Arweinydd i fod yn gyfrifol am ddarpariaeth Gynradd ac Uwchradd ac unrhyw wahaniaethau oddi mewn y ddau gwricwlwm.

Mynegwyd fod trafodaethau wedi ei gynnal yn y Pwyllgor Iaith, Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ac yn y Cyngor Llawn a nodwyd y prif bryderon a oedd yn

cynnwys pryder am golli athrawon arbenigol, effaith cynyddu'r gymhareb athro : disgybl ar ansawdd yr addysg ynghyd a diffyg tystiolaeth i ddangos na fyddai effaith negyddol ar y ddarpariaeth. Pwysleisiwyd fod tri chynnig a fyddai'n cyfarch y pryderon:

I. Cynnal y sefyllfa bresennol a chyfarch rhywfaint o'r diffyg drwy newid amodau cyflogaeth h.y. diddymu lwfans CAD athrawon, diddymu'r haen arweinyddiaeth o ran amodau cyflogaeth ymhob canolfan, ac ymgorffori ôl-ofal yn rhan o'r ddarpariaeth graidd, gan ddiddymu'r swydd ôl-ofal sydd yn bodoli ar hyn o bryd.
II. Gweithredu peilot o strwythur staffio o athro a chymhorthydd gan gynyddu'r gymhareb athro : disgybl mewn un Canolfan Iaith am gyfnod gan ei fonitro yn ofalus.
III. Gweithredu unrhyw un o'r opsiynau y bu ymgynghori arnynt gan gyfarch y diffyg cyllidol.

Nodwyd na fyddai opsiwn I na II yn cyfarch y diffyg cyllidol yn llawn, ac y byddai angen dod o hyd i'r diffyg yn flynyddol yn benodol os yn mynd am opsiwn I. Gydag opsiwn II nodwyd mai arian pontio am gyfnod y byddai ei angen.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Holwyd sut oedd y gymhareb Athro : Disgybl y Canolfannau Iaith yn cymharu ar gymhareb mewn ysgolion. Mynegwyd ers y toriadau i'r Grant fod y gymhareb yn uwch mewn ysgol, a nodwyd fod Estyn wedi nodi fod ysgolion Gwynedd er y gymhareb uwch wedi cadw safonau dysgu.
- Pwysleisiwyd nad Cyngor Gwynedd sydd yn penderfynu torri ar y grant i'r Canolfannau Iaith ond Llywodraeth Cymru sydd yn torri grantiau. Mynegwyd fod y toriadau yma yn gwneud i'r Cynghorwyr cwestiynu os yw'r Llywodraeth o ddifri am geisio cael Miliwn o Siaradwyr Cymraeg. Ychwanegwyd fod angen pwyso ar y Gweinidog Addysg a'r Gweinidog dros yr Iaith i ddod a'r toriadau i'r grant ysgolion i ben. Mynegwyd fod yr Adran ac yr Aelod Cabinet wedi bod yn lobio ac yn cael sgyrsiau cyson a'r Gweinidogion am y mater ond hyn yma dim sôn am unrhyw arian pellach. Ategwyd ei fod yn dorcalonnus fod y Llywodraeth yn cynnig arian ychwanegol ar un llaw ac yna yn torri grantiau ar y llaw arall.
- Pwysleisiwyd nad yw'r Cabinet yn fodlon cefnogi unrhyw opsiwn sydd yn caniatáu i un o'r Canolfannau Iaith gael eu cau, gan nodi nad ydynt ,yn ogystal, am i'r lefel ansawdd ddisgyn.
- Trafodwyd ôl-ofal gan nodi fod y gwaith ôl-ofal yn amrywio o'r Cynradd i'r Uwchradd. Mynegwyd yn yr Uwchradd fod y gwaith ôl-ofal yn rhan o ddarpariaeth graidd y Ganolfan. Ategwyd fod pryderon wedi codi am y diffyg cyswllt ôl-ofal gyda'r disgyblion o fewn y Canolfannau Cynradd.
- Trafodwyd Canolfan Iaith newydd ym Mangor gan nodi fod arian wedi ei gymeradwyo ar gyfer cais cyfalaf i adeiladu Canolfan newydd ond nid oes arian refeniw er mwyn ei gyllido ar gyfer y dyfodol. Ychwanegwyd fod y cais am ganolfan newydd yn pwysleisio ymrwymiad y Cyngor i'r Canolfannau Iaith.
- Holwyd pam nad oedd yr adran wedi adolygu'r ddarpariaeth ynghynt. Mynegwyd mai'r prif reswm oedd llwyddiant o ran safonau a bod y plant yn rhugl ond nodwyd ei bod wedi dod i'r amlwg y buasai wedi bod yn synhwyrol i'r adran fod wedi edrych ar y Canolfannau Iaith ar hyd y blynyddoedd.

- Holwyd pam fod athrawon yn y Canolfanau Iaith yn cael lwfans CAD yn ychwanegol i'w cyflogau, mynegwyd fod hyn oherwydd ei fod yn ychwanegiad hanesyddol ac ychwanegwyd efallai fod angen edrych ar y mater hwn ymhellach.
- Trafodwyd Opsiwn II gan holi sut y bydda'i adran yn monitro'r effaith. Nodwyd y byddai angen monitro'r Canolfannau fel ysgolion ac yn cael ei drafod yn y cyfarfodydd Herio Perfformiad y Cabinet a fydd yn cael ei drafod yn y Cabinet. Ychwanegwyd ar hyn o bryd nad oes trefn monitro perfformiad pendant yn ei le.
- Trafodwyd opsiwn III gan fynegi fod angen ei ddiystyru er mai hwn yw'r unig opsiwn sydd yn cyfarch y bwlch ariannol. Mynegwyd nad oedd yn ddoeth i newid y gymhareb Athro : Disgybl heb gynllun peilot yn gyntaf.
- Holwyd penderfynu mynd am gynllun peilot faint o arian a fyddai ei angen er mwyn pontio'r bwlch cyllidebol. Mynegwyd y byddai modd i'r Cyngor ddod o hyd i arian er mwyn pontio'r bwlch dros dro ond bydd angen bod yn gwbl glir beth fydd ei strwythur.
- Mynegwyd y byddai modd defnyddio rhai elfennau o opsiwn I yn benodol diddymu'r swydd ôl-ofal gan ymgorffori'r ôl-ofal yn rhan o'r ddarpariaeth graidd y Canolfannau Iaith ac i ddiddymu lwfans CAD I bob Athro. Amcangyfrifwyd y byddai hyn yn arbediad o ryw £45,000 y flwyddyn.
- Trafodwyd cyfuno rhai elfennau Opsiwn I ac II, gan nodi os angen cynllun peilot y bydd angen mesur am gyfnod o flwyddyn ac yna asesu effaith cymhareb athro : disgybl ac os yw yn cael effaith ar ansawdd yr addysg a chyrhaeddiad y plant.

## 7. ADOLYGU CYFANSODDIAD PWYLLGOR CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG ADDYSG GREFYDDOL GWYNEDD

Cyflwynwyd gan Cyng. Gareth Thomas

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd newid aelodaeth Grŵp A yn y cyfansoddiad fel a nodi'r isod:

- Grŵp A - Cristnogaeth - cadw yn 6
  Cynnig gwahodd un cynrychiolydd o'r credoau
  Bwdïaeth, Islam, Hindŵaeth, Iddewiaeth, Siciaeth a'r Dyneiddwyr
- Grŵp B - Cynrychiolaeth Athrawon a Phenaethiaid - cadw yn 5
- Grŵp C - Aelodau Etholedig - cadw yn 7
- Cyfetholedig - Pwyllgor CYSAG i gadw'r hawl i gyfethol aelodau
- 3 pleidiais sydd sef 1 i bob Grŵp - nid oes pleidlais gan yr aelodau Cyfetholedig

Penderfynwyd caniatáu cais y Dyneiddwyr i fod yn rhan o Grŵp A ar bwyllgor CYSAG Gwynedd.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi nad yw'r Cyngor wedi ystyried cyfansoddiad CYSAG ers 1996. Ychwanegwyd fod llythyr y Gweinidog Addysg ym Mai 2018 yn cadarnhau y gellir penodi cynrychiolwyr o systemau cred anghrefyddol i Grŵp A er mwyn sicrhau fod CYSAG yn adlewyrchu creadau'r cymunedau. Mynegwyd fod cais wedi dod gan Ddyneiddwyr Bangor i ymuno fel aelod / aelodau o Grŵp A ar bwyllgor CYSAG Gwynedd.

Mynegwyd wrth ystyried cais Dyneiddwyr i ymuno fel aelod o Grwp A, ei bod yn amserol i roi ystyriaeth i gredoau eraill er mwyn rhoi sylw i amrywiaeth o gredoau ar bwyllgor CYSAG

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Tynnwyd sylw at y ffaith fod y niferoedd o gredoau tu hwnt i Gristnogaeth sydd yn aelodau o CYSAG yn isel iawn, ond mynegwyd fod CYSAG yn adlewyrchu'r sefyllfa ar draws y sir.

## 8. CYCHWYN TRAFODAETH LEOL AR AGOR YSGOL GYNRADD NEWYDD YNG NGHRICIETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Gareth Thomas

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd

a) Cymeradwyo'r hawl i gychwyn trafodaethau lleol er mwyn adnabod opsiynau ar gyfer adeiladu ysgol gynradd newydd yng Nghricieth fel canlyniad i gyflwr gwael adeiladau presennol Ysgol Treferthyr.
b) Cymeradwyo cynnwys Ysgol Llanystumdwy yn y trafodaethau lleol.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod angen cymeradwyo'r hawl i gychwyn trafodaethau lleol er mwyn adnabod opsiynau ar gyfer adeiladau ysgol gynradd newydd yng Nghricieth, ac i gymeradwyo i gynnwys Ysgol Llanystumdwy yn y trafodaethau.

Mynegwyd fod adeilad Ysgol Treferthyr mewn cyflwr gwael ac mae'r arolygon cyflwr wedi adnabod sawl mater o ran diffygion sylweddol i'r adeiladwaith sydd wedi dynodi fod yr ysgol yng nghategori C o ran cyflwr. Ychwanegwyd fod Llywodraeth Cymru bellach wedi cychwyn ail wedd Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band B) a fydd yn cychwyn yn Ebrill 2019. Mynegwyd fod y Cyngor wedi cyflwyno cais yn dilyn cynnal ymarferiad blaenoriaethu gan nodi fod gwella darpariaeth gynradd yng Nghricieth wedi cael ei adnabod yn y cais hwn. Nodwyd fod yr adran wedi dysgu o don gyntaf y Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band

A), sef yn dilyn cael adeiladau newydd i ysgolion fod niferoedd yr ysgol yn dueddol o godi. O ganlyniad i hyn, nodwyd, bydd niferoedd y disgyblion ar gyfer y ceisiadau yn mynd ar niferoedd yn y dalgylch yr ysgol yn hytrach na'r niferoedd yn yr ysgol pan mae'r cais yn cael ei lunio.

Nodwyd fod Ysgol Llanystumdwy gyda nifer o blant y dalgylch Cricieth yn mynychu a nodwyd fod trafodaethau cychwynnol wedi eu cynnal gyda'r Corff Llywodraethol, Staff a Rheini i drafod effaith posib o adeiladu ysgol newydd. O ganlyniad i'r trafodaethau, mynegwyd fod y Llywodraethwyr wedi nodi eu bod yn awyddus i fod yn rhan o'r trafodaethau.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Holwyd os bydd cael ysgolion y dalgylch yn rhan o'r trafodaethau yn ychwanegu at y broses statudol. Nodwyd fod cynnal y trafodaethau gydag Ysgol Llanystumdwy am ychwanegu at y gwaith, gan y bydd angen dilyn Cod Trefniadaeth Ysgolion.
- Diolchwyd i'r Cynghorydd Gareth Thomas am ei waith tra'n aelod Cabinet dros Addysg a diolchwyd i staff yr Adran Addysg

## 9. ARBEDION EFFIETHLONRWYDD PELLACH 2019-20

Cyflwynwyd gan Cyng. Ioan Thomas

### PENDERFYNIAD

Penderfynwyd defnyddio £1,666,560 o'r Gronfa Trawsffurfio er mwyn ad-dalu'r benthyciad a ddefnyddir i gyflawni'r cynllun lampau LED ac i bontio cyfnod cyflawni'r cynllun er mwyn cymryd y cyfan o'r arbediad o £184,500 i ystyriaeth yn 2019/20.

### TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai mater gweddol dechnegol oedd yn cael ei drafod heddiw. Mynegwyd ei fod yn awyddus fod y Cabinet yn cytuno i ddefnyddio £1,666,560 o'r Gronfa Trawsffurfio er mwyn ad-dalu'r benthyciad a ddefnyddir i gyflawni'r cynllun lampau LED ac i bontio cyfnod cyflawni'r cynllun er mwyn cymryd yr arbediad o £184,500 i ystyriaeth yn 2019/20.

Mynegwyd fod Strategaeth Ariannol y Cyngor yn seiliedig ar gyflawni cyfres o arbedion er mwyn cyfyngu'r cynnydd yn y Dreth Cyngor i 5.8%. Ychwanegwyd er mwyn gallu cyfyngu'r cynnydd mae'r Strategaeth yn rhagdybio fod angen darganfod arbedion effeithlonrwydd pellach o £500,000. Mynegwyd fod newid y drefn ar gyfer ad-dalu'r cynllun gosod lampau LED i weddill goleuadau stryd y sir yn un ffordd o ddarganfod arbedion effeithlonrwydd pellach.

Nodwyd mai'r bwriad ar hyn o bryd yw cael benthyciad gan Salix i ariannu'r gwaith gan ad-dalu'r benthyciad o'r arbedion fydd yn cael ei gwireddu. Mynegwyd fod gwahaniaeth rhwng yr arbedion y bydd yn cael eu cyflawni a'r proffil ad-dalu a bydd modd gwireddu £45,900 o'r arbediad flwyddyn nesaf yn sgil y gwahaniaeth yma ond y bydd yn tyfu yn sylweddol ar ôl talu'r benthyciad yn ôl yn

2032/33. Ategwyd fod y Cynllun yn cael ei wireddu dros gyfnod o 3 blynedd ac felly bydd angen pontio'r cyfnod cyflawni i gael yr arbediad yn llawn o 1 Ebrill 2019, ac felly bydd angen £1.39m ar gyfer ad-dalu a £0.28m ar gyfer y cyfnod pontio

## 10. GOSOD RHAGLEN GYFLALAF 2019/20, 2020/21 A 2021/22

Cyflwynwyd gan Cyng. Ioan Thomas

**PENDERFYNIAD**

Gosodwyd y cynlluniau a ddangosir yn Atodiad A yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer y cyfnod tair blynedd 2019/20; 2020/21 a 2021/22.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd ar adroddiad gan nodi fod angen gosod y cynlluniau ar gyfer rhaglen gyfalaf y Cyngor am y tair blynedd nesaf. Mynegwyd fod y Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Asedau ar gyfer y 10 mlynedd nesaf ar 7 Mawrth. Ategwyd, yn arferol, fod y rhaglen gyfalaf yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad ar y gyllideb, ond gan nad oedd y Cyngor wedi mabwysiadu'r Cynllun Asedau nid oedd modd gwneud hynny mewn manylder.

Nodwyd fod ymgynghoriad wedi bod gyda'r adrannau i sefydlu proffil tebygol ar gyfer y cynlluniau unigol sydd yn y Cynllun Asedau ac fe argymhellwyd fod y Cabinet yn cymeradwyo gosod y cynlluniau yn y rhaglen am y tair blynedd nesaf.

Mynegwyd nad yw'r swm ar gyfer 2019/20 yn cyfateb i'r £11.728m sydd weld ei nodi yn yr adroddiad am y gyllideb. Ychwanegwyd mai'r rheswm dros hyn yw nad yw'r cynlluniau yn ddigon aeddfed i'r cychwyn tan 2021/22. O ganlyniad i hyn, nodwyd fod gwaith ail broffilio wedi ei wneud i gyd fynd a'r gwariant a bydd y gyllideb yn cael ei addasu.

## 11. BLAEN RAGLEN CABINET

Cyflwynwyd gan Cyng. Dyfrig Siencyn

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo'r Blaen raglen a gynhwyswyd yn y papurau i'r cyfarfod.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2.50 y.h.

**CADEIRYDD**

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **7 Mai 2019** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Catrin Wager** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Steffan Jones, Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **32402** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Strategaeth Toiledau Cyhoeddus** |

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Bod y Cabinet yn derbyn ac yn mabwysiadu'r Strategaeth Toiledau Cyhoeddus atodol.

### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae rhan 8 o'r Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i lunio a chyhoeddi strategaeth toiledau lleol ar gyfer eu hardal erbyn 31 Mai 2019.

### 3. CYFLWYNIAD

**STRATEGAETH TOILEDAU LLEOL**

Cafodd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 Gydsyniad Brenhinol ar 3 Gorffennaf 2017. Daeth rhan 8 i rym ar y 31ain o Fai 2018. Mae'r Ddeddf yn dod ag ystod o gamau gweithredu ymarferol ynghyd ar gyfer gwella a diogelu iechyd. Mae Rhan 8 y Ddeddf yn cyflwyno gwaith darparu toiledau, a strategaethau toiledau lleol yn benodol.

Nod Rhan 8 yw gwella'r modd y caiff y ddarpariaeth o doiledau sydd ar gael at ddefnydd y cyhoedd ei chynllunio, drwy sicrhau bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn asesu anghenion eu cymuned o ran toiledau, ac yna'n defnyddio dull strategol a thryloyw o ddiwallu'r angen hwnnw yn y modd gorau posibl.

Mae'r broses o ddatblygu'r strategaeth wedi'i gwneud yn bosib i ni ystyried opsiynau ehangach sydd ar gael o ran darparu toiledau i'r cyhoedd. Gallai sut a ddarperir amrywio o doiledau cyhoeddus traddodiadol i atebion newydd. Bwriad hynny yw mynd i'r afael â'r heriau presennol sy'n ymwneud â darparu'r cyfleusterau mewn cymunedau, a hynny gyda lleihad difrifol yng nghyllideb y gwasanaeth.

Mae ymarferiadau ymgynghori wedi digwydd er mwyn llunio'r strategaeth. Mae'r strategaeth yn ymgorffori'r adborth a gafwyd o ymarfer ymgynghori gyda'r cyhoedd, grwpiau nodweddion cydraddoldeb a chynghorau cymuned a thref a gynhaliwyd yn ystod Tachwedd a Rhagfyr 2018. Lluniwyd yr ymgynghoriad i asesu anghenion y trigolion a'r bobl hynny sy'n ymweld neu'n gweithio yng Ngwynedd. Defnyddiwyd yr atebion a gafwyd i gyfarwyddo cynnwys y strategaeth ddrafft. Cynhaliwyd ymgynghoriad pellach ar y Strategaeth Toiledau Lleol drafft.

Cyflwynwyd y Strategaeth Ddrafft ym Mhwyllgor Craffu Cymunedau 7fed Chwefror, 2019. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad gan argymell i'r Aelod Cabinet gyfarch y sylwadau a gyflwynwyd wrth lunio'r Strategaeth Doiledau terfynol.

Roedd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth Ddrafft yn agored rhwng 11 Chwefror 2019 a 1 Mai 2019. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn nid oedd yr ymgynghoriad wedi cau, felly crynhoir yma'r sylwadau a dderbyniwyd hyd yma a darperir gwybodaeth pellach a diweddariad ar yr adroddiad cyn y cyfarfod ac ar unrhyw ymatebion ychwanegol a dderbynnir erbyn y dyddiad cau ac os ydynt ag effaith ar y cyfeiriad a argymhellir.

## 4. CRYNODEB O GANLYNIADAU'R YMGYNGHORIAD AR Y STRATEGAETH DRAFFT

Gofynnwyd i'r atebwyr os oeddent yn Cytuno, Anghytuno gydag amcanion y Strategaeth Toiledau Lleol.
Nododd:

- 97.5% eu bod yn Cytuno gydag amcan 'Darpariaeth o gyfleusterau glân, diogel wedi eu cynnal yn briodol'
- 94.5% eu bod yn Cytuno gydag amcan 'Uchafu'r argaeledd toiledau drwy bartneriaeth gyda'r Cyngor a darpariaeth arall'
- 89.3% eu bod yn Cytuno gydag amcan 'Hysbysu a hyrwyddo gwybodaeth am ddarpariaeth toiledau drwy wefannau a chyfryngau eraill'
- 95.1% eu bod yn Cytuno gydag amcan 'Cyfleusterau sy'n hawdd dod o hyd iddynt gydag arwyddion cyfeirio da ac arwyddion gwybodaeth cyfleusterau unigol'
- 77.9% eu bod yn Cytuno gydag amcan 'Asesu argaeledd a dosbarthiad cyfleusterau yn seiliedig ar alw'
- 68.9% eu bod yn Cytuno gydag amcan 'Darpariaeth addas o fewn y gyllideb sydd ar gael'

Roedd cyfle i nodi unrhyw sylwadau ynglŷn â'r amcanion uchod. Roedd prif sylw yn cyfeirio at bwysigrwydd cadw gymaint o doiledau ar agor â phosib, mewn lleoliadau addas, hynny yn cynnwys lleoliadau gwledig. Nododd atebwyr y bod angen sicrhau bod cyllideb addas ar gyfer cynnal darpariaeth toiledau cyhoeddus.

## 5. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU’R DYFODOL (CYMRU) (2015)

Wrth ddatblygu'r strategaeth hon rhaid i'r Cyngor roi ystyriaeth lawn i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Nod y Ddeddf yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’n gwneud i awdurdodau lleol feddwl mwy am yr hirdymor, cydweithio’n well â phobl a chymunedau ac â’i gilydd, ceisio atal problemau, a gweithredu mewn modd mwy cydgysylltiedig. Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod 'egwyddor datblygiad cynaliadwy' sy'n rhoi gwybod i sefydliadau sut i fynd o'i chwmpas hi i gwrdd â'u dyletswydd o dan y Ddeddf, sy'n golygu bod yn rhaid i Gyngor Gwynedd weithredu mewn modd mwy cynaliadwy.

Mae'r Strategaeth Toiledau Lleol yn ymgorffori'r pum ffordd o weithio mae'n ofynnol i Gyngor Gwynedd eu dilyn i sicrhau ein bod yn datblygu strategaeth gynaliadwy:

- Ystyried pwysigrwydd cydbwyso anghenion byr dymor gyda'r angen hefyd i ddiogelu'r gallu i fodloni anghenion hirdymor;
- Gweithredu mewn modd integredig;
- Cydweithio ag eraill er mwyn dod o hyd i atebion cynaliadwy;
- Cynnwys pobl yn y penderfyniadau fydd yn effeithio arnynt; a
- Gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu.

## 6. DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

Mae gofyn statudol i baratoi ac ystyried canfyddiadau asesiad o effaith o safbwynt cydraddoldeb wrth baratoi’r strategaeth yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 fel y gweithredir yng Nghymru.

Yn gyffredinol mae’r Strategaeth Toiledau Lleol am gael effaith bositif ar nodweddion cydraddoldeb. Bwriad y strategaeth yw ceisio gwella’r modd y caiff y ddarpariaeth o doiledau sydd ar gael at ddefnydd y cyhoedd ei ddarparu. Wrth ddatblygu’r strategaeth, mae’r Cyngor wedi asesu anghenion ei gymuned o ran toiledau, ac wedi defnyddio’r wybodaeth i gynnig 6 amcanion er mwyn ceisio diwallu’r angen hwnnw yn y modd gorau posibl o fewn y gyllideb, a ble yn briodol. Atodir yr asesiad llawn yn Atodiad 5.

## 7. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Nodir y camau allweddol ac amserlen fel y ganlyn:

| Camau Nesaf | Pryd |
|---|---|
| Cabinet - Cyflwyno'r Strategaeth Toiledau Lleol i'r Cabinet am gymeradwyaeth. | 7 Mai 2019 |
| Cyhoeddi - Mae'n ofyn statudol fod y Cyngor yn cyhoeddi ei Strategaeth Toiledau Lleol erbyn 31 Mai 2019. | 31 Mai 2019 |
| Datganiad cynnydd interim - Mae'r Cyngor angen llunio a chyhoeddi 'datganiad cynnydd interim' sy'n egluro'r camau y mae wedi eu cymryd yn unol â'i strategaeth dros y 2 flynedd flaenorol. | Cyn diwedd Mai 2021 |
| Adolygu'r Strategaeth - cyflwyno datganiad cynnydd diwedd cyfnod - cyn pen blwyddyn ar ôl pob etholiad llywodraeth leol arferol. | Tachwedd 2021 |

**Atodiadau**

Atodiad 1 – Strategaeth Toiledau Lleol
Atodiad 2 – Darpariaeth bresennol
Atodiad 3 – Asesiad o angen
Atodiad 4 – Canlyniadau Ymgynghoriad ar y Strategaeth Drafft
Atodiad 5 – Asesiad Cydraddoldeb

**Dogfennau Cefndir:**

"Darparu Toiledau yng Nghymru: Strategaeth Toiledau Lleol, Canllawiau Statudol Awst 2018"

## 8. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

### Y Swyddog Monitro:

Mae’r angen i fabwysiadu Strategaeth Toiledau Cyhoeddus yn drefniant statudol newydd. Mae’r gofynion statudol sydd ynghlwm a pharatoi y Strategaeth wedi eu hamlinellu yn briodol yn yr adroddiad ynghyd â’r camau a gymerwyd i’w cyfarch. Nodi’r hefyd y bydd diweddariad ar ganlyniadau’r broses ymgynghori yn cael ei ddarparu wedi i’r cyfnod llawn gau.

### Y Pennaeth Cyllid:

Deallaf mai proses ydi’r Strategaeth Toiledau Cyhoeddus, er mwyn cyflawni gofyn statudol newydd, ac nid oes unrhyw ymrwymiad ariannol ynghlwm â’r argymhelliad a gyflwynir yma.

### Barn yr Aelod Lleol:

Amherthnasol.

# Cyngor Gwynedd

# Strategaeth Toiledau Lleol

## Mai 2019



## 1. Cefndir

Cytunodd Llywodraeth Cymru i fabwysiadu Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) ym Mai 2017. Daw'r Ddeddf ag ystod o gamau gweithredu ymarferol ynghyd ar gyfer gwella a diogelu iechyd. Mae Rhan 8 y Ddeddf yn cyflwyno gwaith darparu toiledau, a strategaethau toiledau lleol yn benodol. O safbwynt cyfleusterau cyhoeddus, nod cyffredinol y ddeddfwriaeth yw sicrhau bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn asesu anghenion eu cymunedau o ran toiledau ac yna'n defnyddio dull strategol a thryloyw i ddiwallu'r angen hwnnw yn y modd gorau posib.

Nid bwriad Rhan 8 y Ddeddf yw atal awdurdodau lleol rhag gwneud penderfyniadau y mae angen iddynt eu gwneud yn ystod eu gweithgarwch, a allai gynnwys penderfyniadau i gau rhai cyfleusterau toiledau cyhoeddus traddodiadol neu adeilad pan fo hynny'n briodol. Yn hytrach, ei bwriad yw gwella'r modd y caiff darpariaeth ei chynllunio er mwyn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau o'r fath yn cael eu gwneud yng nghyd-destun cyffredinol y gwaith o ddiwallu'r anghenion y mae awdurdodau lleol wedi'u hadnabod mewn cymunedau. Bydd dull strategol hefyd o gymorth i liniaru unrhyw effeithiau negyddol newidiadau i'r ddarpariaeth.

Mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru gyfrifoldeb i:

- Asesu'r angen am ddarpariaeth toiledau yn eu cymunedau;
- Cynllunio i ddiwallu'r anghenion hynny;
- Llunio strategaeth toiledau lleol; a
- Adolygu'r strategaeth, diweddaru a chyhoeddi unrhyw ddiwygiadau.

Bydd Cyngor Gwynedd felly yn unol â'r argymhellion hyn yn mynd ati i fynd i'r afael gydag anghenion y gymuned ac i wella safonau cyfleusterau cyhoeddus sydd dan reolaeth yr awdurdod lleol.

## 2. Cyflwyniad

Ein nod yn y strategaeth hon yw sicrhau ein bod yn parhau i gwrdd ag anghenion pobl Gwynedd er gwaethaf y ffaith fod adnoddau'r Cyngor yn prinhau. Y pwyslais yn y strategaeth hon fydd sicrhau fod gan Wynedd ddarpariaeth ddigonol i'r dyfodol a'n bod yn gallu gweithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid i ddarparu modelau darparu amgen er mwyn llwyddo i gyflawni hyn.

Mae'r strategaeth hefyd yn cael ei pharatoi mewn cyfnod o gyni ariannol ac felly mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i'r cyd-destun hwnnw. Mae darpariaeth cyfleusterau cyhoeddus yn darparu'r seilwaith sydd ei angen i hwyluso mwynhad o ardaloedd yng Ngwynedd gan drigolion ac ymwelwyr. Gallant fod ag effaith sylweddol ar gyfforddusrwydd unigolion a theuluoedd sy'n ymweld â mannau cyhoeddus yn yr ardal a'u canfyddiad o Wynedd fel lle dymunol i ddod i ymweld.

Mae mynediad i gyfleusterau toiled yn bwysig i bob rhan o'r boblogaeth ac nid dim ond i bobl hŷn. Yn aml, bydd diffyg toiledau cyhoeddus yn cael ei roi fel rheswm pam fod pobl hŷn yn mynd yn ynysig yn gymdeithasol a gall hyn wedyn achosi unigrwydd. Er hynny, mae llawer o bobl (yn cynnwys pobl iau, teuluoedd a phobl o bob oedran gydag anabledd neu gyflwr iechyd) angen mynediad i gyfleusterau toiled ac yn aml gall diffyg darpariaeth arwain atynt yn cyfyngu ar eu cyswllt cymdeithasol gydag eraill.

Er bod Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn canolbwyntio ar 'Ddarpariaeth Toiledau', nid yw darpariaeth cyfleusterau cyhoeddus gan awdurdod lleol ar hyn o bryd yn ddyletswydd statudol.

Yn gynyddol mae'r Cyngor yn wynebu heriau i gynnal safonau cynnal a chadw darpariaeth toiledau a glanhau oherwydd yr arian cyfyngedig a'r pwysau ar adnoddau ond serch hynny, Gwynedd yw'r ail uchaf o ran nifer y toiledau gaiff eu cynnal gan gynghorau yng Nghymru.

## 3. Amcanion y strategaeth hon

Nod y strategaeth yw cwrdd ag anghenion trigolion ac ymwelwyr â Gwynedd drwy ddarparu:-

- Darpariaeth o gyfleusterau glân, diogel wedi eu cynnal yn briodol;
- Uchafu'r argaeledd toiledau drwy bartneriaeth gyda'r Cyngor a darpariaeth arall;
- Hysbysu a hyrwyddo gwybodaeth am ddarpariaeth toiledau drwy wefannau a chyfryngau eraill;
- Cyfleusterau sy'n hawdd dod o hyd iddynt gydag arwyddion cyfeirio da ac arwyddion gwybodaeth cyfleusterau unigol;
- Asesu argaeledd a dosbarthiad cyfleusterau yn seiliedig ar alw;
- Darpariaeth addas o fewn y gyllideb sydd ar gael.

## 4. Sut y cafodd y strategaeth ei datblygu?

Mae'r strategaeth yn ymgorffori'r adborth a gafwyd o ymarfer ymgynghori cyhoeddus a gynhaliwyd yn ystod Tachwedd a Rhagfyr 2018. Lluniwyd yr ymgynghoriad i asesu anghenion y trigolion a'r bobl hynny sy'n ymweld neu'n gweithio yng Ngwynedd. Defnyddiwyd yr atebion a gafwyd i gyfarwyddo cynnwys y strategaeth ddrafft.

Mae'r strategaeth hefyd yn cyd-fynd gyda blaenoriaethau a gwasanaethau eraill y Cyngor gan gyfrannu at ein gwledigaeth fel Cyngor i gefnogi pobl Gwynedd i ffynnu ac i fyw bywydau llawn yn eu cymunedau, mewn sir sydd yn un o'r siroedd gorau i fyw ynddi.

Wrth ddatblygu'r strategaeth hon rhaid i'r Cyngor roi ystyriaeth lawn i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Nod y Ddeddf yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gwneud i awdurdodau lleol feddwl mwy am yr hirdymor, cydweithio'n well â phobl a chymunedau ac â'i gilydd, ceisio atal problemau, a gweithredu mewn modd mwy cydgysylltiedig. Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod 'egwyddor datblygiad cynaliadwy' sy'n rhoi gwybod i sefydliadau sut i fynd o'i chwmpas hi i gwrdd â'u dyletswydd o dan y Ddeddf, sy'n golygu bod yn rhaid i Gyngor Gwynedd weithredu mewn modd mwy cynaliadwy.

Mae'r Strategaeth Toiledau Lleol yn ymgorffori'r pum ffordd o weithio mae'n ofynnol i Gyngor Gwynedd eu dilyn i sicrhau ein bod yn datblygu strategaeth gynaliadwy:

- Ystyried pwysigrwydd cydbwyso anghenion byr dymor gyda'r angen hefyd i ddiogelu'r gallu i fodloni anghenion hirdymor;
- Gweithredu mewn modd integredig;
- Cydweithio ag eraill er mwyn dod o hyd i atebion cynaliadwy;
- Cynnwys pobl yn y penderfyniadau fydd yn effeithio arnynt; a
- Gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu.

## 5. Adolygu'r Strategaeth

Bob dwy flynedd bydd Cyngor Gwynedd yn paratoi adroddiad cynnydd interim yn nodi'r camau a gymerwyd yn unol â'i strategaeth gan ddechrau o ddyddiad y strategaeth olaf a gyhoeddwyd. Cyhoeddir adroddiad cynnydd interim cyn pen chwe mis o ddiwedd dyddiad y cyfnod o ddwy flynedd. Felly, yn dilyn cyhoeddiad ym Mai 2019, cynhelir adolygiad cyn diwedd Mai 2021 a'i gyhoeddi cyn diwedd Tachwedd 2021.

## 6. Darpariaeth Cyngor Gwynedd

Mae gan Wynedd gymysgedd o ran darpariaeth toiledau. Ar hyn o bryd, rydym yn darparu 63 o doiledau cyhoeddus traddodiadol a weithredir gan y Cyngor, yn ogystal â 35 o gyfleusterau toiledau cymunedol. Mae rhan fawr o’r ardal hefyd yn rhan o Barc Cenedlaethol Eryri sydd hefyd yn darparu cyfleusterau toiledau.

Yn Atodiad 1 ceir rhestr o'r ddarpariaeth bresennol yng Ngwynedd.

## 7. Beth mae Gwynedd yn ei wneud ar hyn o bryd?

### Cynllun Partneriaethu Cynghorau Cymuned a Thref

Yn dilyn Ymarfer Ymgysylltu Her Gwynedd yn 2016, adolygodd y Cabinet ei benderfyniad i gyflawni'r toriad o £244,000 yn y gwasanaeth drwy wireddu Cynllun Partneriaethu arfaethedig gyda Chynghorau Tref a Chymuned er mwyn cadw mwyafrif toiledau presennol y Sir yn agored i'r dyfodol.

Datblygwyd y cynllun fel trefniant amgen i'r penderfyniad a gymerwyd i gau hyd at 50 o doiledau fel rhan o'r gyfundrefn o doriadau. Ymgynghorwyd gyda'r holl Gynghorau Cymuned a Thref yng Ngwynedd i ganfod os oedd digon o ddiddordeb mewn gweithio mewn partneriaeth gyda ni i gadw'r toiledau yn agored. Mae'r Cynllun Partneriaeth yn gweithio drwy i'r Cynghorau Cymuned a Thref gyfrannu yn flynyddol neu'n dymhorol tuag at gostau rhedeg y toiledau.

Mae hyd at 63 o doiledau bellach wedi cael eu cadw yn agored gyda chymorth Cynghorau Tref a Chymuned ac eraill.

### Gweithio gydag eraill

Lle nad oedd hi'n bosib i'r Cynghorau Cymuned a Thref gyfrannu yn ariannol at gadw'r cyfleusterau yn agored yn eu hardaloedd, mae'r Cyngor wedi ceisio gweithio gydag eraill, h.y. partneriaid trydydd sector, busnesau preifat a grwpiau cymuned lleol i gadw'r ddarpariaeth yn agored yn eu hardaloedd lleol.

Er enghraifft yn Y Friog sefydlwyd grŵp cymunedol lleol ac mae gwaith yn mynd rhagddo, ac mae cymunedau eraill hefyd wedi datgan fod ganddynt ddiddordeb i ddatblygu’r ffordd yma o weithio ymhellach.

Astudiaeth Achos Y Friog

Roedd pentref arfordirol Y Friog yn wynebu colli eu darpariaeth toiled. Fe wnaeth y Cyngor gymryd pob cyfle posib i siarad gyda thrigolion a'r cyngor cymuned am yr her ariannol oedd yn eu hwynebu i gadw'r ddarpariaeth yn agored. Cynhaliwyd cyfarfodydd cyhoeddus i wrando ar bryderon y gymuned ac i gael eu barn.

O ganlyniad, daeth grŵp o drigolion at ei gilydd a ffurfio Ymddiriedolaeth Mwynderau Y Friog. Trwy weithio gyda'r Ymddiriedolaeth cawsom gyfle i ddod o hyd i ateb hirdymor i sicrhau dyfodol y ddarpariaeth o doiled yn y pentref. Datblygwyd cynllun peilot a olygai fod yr Ymddiriedolaeth wedi cymryd cyfrifoldeb am y toiledau. I sicrhau ein bod yn gallu cefnogi'r grŵp i lwyddo gyda'r fenter penderfynwyd y byddai'r Cyngor yn dal i fod yn gyfrifol am yr adeilad yn y tymor byr. Roedd hyn i sicrhau y gallem gefnogi'r grŵp fel eu bod yn ddigon cydnerth i ddarparu'r gwasanaeth.

Mae wedi bod yn brofiad cadarnhaol i'r Cyngor o ran gweithio gydag eraill i gael canlyniad cynaliadwy. O ran cynllunio ar gyfer yr hirdymor, mae'r Cyngor wedi cytuno i drosglwyddo'r asedau ar brydles i'r Ymddiriedolaeth o Chwefror 2019, gyda system barhaus yn ei lle i adolygu.

## Cynllun Grantiau Toiledau Cymunedol

Caiff y Cynllun Grantiau Toiledau Cymunedol ei ariannu a'i reoli gan Gyngor Gwynedd. Mae'r Cynllun yma yn caniatáu i aelodau o'r cyhoedd i ddefnyddio cyfleusterau toiled mewn ystod o sefydliadau lleol cymeradwy yn ystod eu horiau agor. Darperir y cyfleusterau yn rhad ac am ddim a heb unrhyw ddisgwyliad y bydd defnyddwyr yn prynu nwyddau neu wasanaethau pan fyddant yn yr eiddo. Bydd angen i bob eiddo sy'n cymryd rhan i gadw eu toiledau yn ddiogel, glân, hygyrch a gyda digon o nwyddau. Yr uchafswm grant yw £500 y flwyddyn i bob lleoliad. Ar hyn o bryd mae gennym 35 eiddo ar draws Gwynedd sy'n cymryd rhan yn y cynllun ynghyd â rhestr aros.

Rhaid i'r darparwr gwasanaeth arddangos o leiaf un arwydd a ddarperir gan Gyngor Gwynedd ar ei ffenestr(i) neu ddrws (drysau) i ddangos ei fod yn aelod o'r cynllun fel bod y cyhoedd yn gwybod bod ganddynt hawl i ddefnyddio'r toiledau. Rydym wedi cael peth adborth yn dweud nad yw'r cyhoedd yn gyffredinol yn ymwybodol o'r cynllun.

## Gwella Cyfleusterau drwy Arian Grant

Hyd yma rydym wedi llwyddo i ddenu hyd at £300,000 mewn arian grant i ymgymryd â gwaith gwella ar rai cyfleusterau cyhoeddus. Bydd arian o'r Cymorth Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth yn talu am waith gwella mewn tri thoiled cyhoeddus ym Methesda, Y Bala a Beddgelert.

Ymhellach, mae arian hefyd wedi ei sicrhau o'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig i uwchraddio’r cyfleusterau ac i wella effeithlonrwydd ynni yn y toiledau ym Mhenllyn, Caernarfon; Marian y De, Pwllheli; Queen’s, Harlech; y Cei, Abermaw a'r Ganllwyd. Bwriedir ymgymryd â’r gwaith yma yn ystod 2019/20.

Byddwn yn anelu i edrych am ffyrdd o ddenu rhagor o grantiau gan weithio gydag eraill i ddenu arian grant i wella safon a chynaliadwyedd y cyfleusterau.

## “Changing Places”

Nid yw toiledau safonol hygyrch yn cyfarch anghenion pobl anabl i gyd. Mae pobl gydag anableddau dysgu lluosog ynghyd a phobl gydag anableddau corfforol eraill fel anaf i’r asgwrn cefn, dystroffi cyhyrau a sglerosis gwasgaredig yn aml angen cyfarpar ychwanegol a gofod er mwyn iddynt allu defnyddio’r toiledau yn gyffyrddus ac yn ddiogel. Mae’r anghenion yma yn cael ei gyfarch gan doiledau ‘Changing Places’. Yma yng Ngwynedd mae’r ddarpariaeth gyntaf o ‘changing place’ newydd ei agor yn y Stesion Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri yng Nghaernarfon.

## Mapio Lleoliadau

Mae hwn yn rhan bwysig o’n strategaeth fel bod pobl sydd angen mynd i doiled yn gallu cael gwybodaeth yn hawdd am y lleoliad, amseroedd agor, hygyrchedd a'r math o gyfleusterau sydd ar gael.

Toiled
Toilet

Datblygodd Llywodraeth Cymru'r logo yma fel bo trigolion ac ymwelwyr yn gallu ei adnabod yn hawdd ble bynnag y byddant yng Nghymru ac fe argymhellwyd fod awdurdodau lleol yn ymgorffori'r logo fel rhan o'u hymgyrch i godi ymwybyddiaeth am y toiledau gall y cyhoedd eu defnyddio.

Un o ofynion eraill y strategaeth hon yw paratoi set ddata yn ôl manyleb benodol a'i bod ar gael fel data agored ar ein gwefan. Unwaith y byddwn wedi adnabod y toiledau gaiff eu hysbysebu fel rhai sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd yn gyffredinol, bydd y set ddata yn cael ei defnyddio gan system Llywodraeth Cymru a'i huno gyda setiau data awdurdodau lleol eraill i lunio set ddata toiledau cenedlaethol ar gyfer map Lle. Mae Lle yn borth-daear sy'n hyb ar gyfer data a gwybodaeth am amrywiaeth eang o bynciau, ond yn bennaf ynglŷn â'r amgylchedd. Bydd Lle yn cynhyrchu mapiau Cymru gyfan ar y setiau data a ddarparwyd a gellid eu ffurfweddu i ganolbwyntio ar un ai'r darlun cenedlaethol neu ar ardaloedd mwy lleol. Bydd y data ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ac fel gwasanaeth data agored sy'n hygyrch i bawb. Dyma'r ddolen i borth Lle:

http://lle.gov.wales/home

Bydd y Cyngor yn adolygu ac yn diweddaru data Lle Llywodraeth Cymru yn flynyddol i ganiatáu mynediad i'r wybodaeth ddiweddaraf i drigolion ac ymwelwyr.

## 8. Beth wnaethom ni ei ddysgu o gynnal yr Asesiad o Angen?

Cynhaliodd Cyngor Gwynedd ei asesiad o angen er mwyn sicrhau bod cymaint o bobl â phosib yn medru ymgysylltu â'r broses. Cyflawnwyd hyn drwy gydlynu gwybodaeth feintiol sydd yn bodoli'n barod ac fe ymgynghorwyd â chymaint o sefydliadau a budd-ddeiliaid y gwyddys y byddai a buddiant yn narpariaeth toiledau ag oedd yn bosib.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cynnal asesiad o angen drwy:

- Holiadur Toiledau Cyhoeddus:
- Ymgynghoriad "Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi?"
- Grwpiau Nodweddion Cydraddoldeb
- Adborth Cynghorau Cymunedau a Thref
- Proffil Gwynedd
- Asesiad Cydraddoldeb

## Proffil Gwynedd

## Anghenion Poblogaeth

Yn ôl amcangyfrifon Poblogaeth ONS mae poblogaeth Gwynedd yn 123,742. Mae 23,410 o'r boblogaeth o dan 18 oed a 27,971 yn 65 oed neu hŷn. Mae 61,335 o'r boblogaeth yn ddynion a 62,407 yn ferched.

Mae'r ONS hefyd yn darparu rhagolygon poblogaeth. Mae'r rhagolygon yma yn amcangyfrif cynnydd o tua 10,000 o bobl yng Ngwynedd dros yr 20 mlynedd nesa. Ond, nid ydym yn disgwyl i'r cynnydd yma fod yn gyson ar draws grwpiau oedran. Rydym yn disgwyl gweld cynnydd yn y boblogaeth 0-15 oed o 5.6%, gostyngiad o 7.4% yn y boblogaeth 40-64 oed a chynnydd o 59.3% yn y boblogaeth 80 oed a hŷn. Mae hyn yn dangos cynnydd enfawr yn grwpiau mwyaf bregus cymdeithas - pobl ifanc a phobl hŷn.

## Anghenion Iechyd

Mae disgwyliad oes dyn yng Ngwynedd yn 78.8 oed, tra bod disgwyliad oes merched adeg yn 83.1 oed.

Yn ôl ffigyrau Daffodil Llywodraeth Cymru mae gan 17,171 o drigolion Gwynedd 18 oed a drosodd salwch hirdymor cyfyngedig. Mae gan dros 4,500 o drigolion Gwynedd 65 oed a drosodd problemau gyda'u pledren.

Yn ôl elusen crohn's & colitis uk mae gan o leiaf 300,000 o bobl yn y DU Clefyd Crohns neu Colitis Ulcerative, a adnabyddir fel 'Inflamatatory Bowel Disease' (IBD).

Yn ôl ymateb gan Crohn's & Colitis Uk i'r Bil Iechyd Cyhoeddus (Cymru), dywedodd 96% o'r sawl a ymatebodd i arolwg gan Crohn's & Colitis UK y dylai fod dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i greu a chyhoeddi strategaeth toiledau lleol. Dywedodd 40% eu bod yn cefnogi hynny oherwydd eu hangen am fynediad ar frys ac yn rheolaidd i doiledau.

## Holiadur Toiledau Cyhoeddus

Lansiwyd Holiadur Toiledau Cyhoeddus gan y Cyngor er mwyn canfod gwybodaeth a fydd yn eu helpu i adeiladu darlun o anghenion y gymuned, ac i helpu paratoi Strategaeth Toiledau Lleol.

Roedd cyfle i drigolion a sefydliadau gymryd rhan:

- Ar-lein drwy ymweld â gwefan www.gwynedd.llyw.cymru/ymgynghori
- Holiadur papur a oedd ar gael drwy Siop Gwynedd, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden y Cyngor
- Anfon llythyr neu e-bost gydag unrhyw adborth neu sylwadau.

Defnyddiwyd ystod eang o ddulliau i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd i gymryd rhan yn yr arolwg gan gynnwys:


- cyhoeddi datganiad i'r wasg a ddefnyddiwyd fel sail i erthyglau yn y papurau newydd lleol a rhanbarthol (Daily Post, Herald, Bangor Mail, Cambrian News, Y Cyfnod, Chronicle, a nifer o Bapurau Bro'r sir);
- ymgyrch ragweithiol ar y cyfryngau cymdeithasol a oedd yn cynnwys cyfres gyson o negeseuon a hyrwyddwyd drwy gyfrifon Twitter, Facebook y Cyngor a drwy sawl partner;
- cyhoeddi erthygl yn newyddlen 'Rhaeadr' i aelodau etholedig Cyngor Gwynedd
- cylchredeg manylion yr ymgynghoriad i sawl corff, grŵp nodwedd a grŵp anodd eu cyrraedd, ei raeadru i'w haelodau gan gynnwys aelodau:

  - Grŵp Cyswllt y Trydydd Sector yng Ngwynedd;
  - Cynghorau Cymuned a Thref
  - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn;
  - Ffermwyr Ifanc;
  - Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor;
  - Yr Urdd;
  - Age Cymru Gwynedd a Môn;
  - sefydliadau celfyddydol;
  - sefydliadau amgylcheddol
  - Grŵp Craidd Cydraddoldeb Gwynedd
  - Pobl ifanc gan gynnwys pobl ifanc LGBT+ (GISDA),
  - Pobl Anabl - Menter Fachwen
  - Cyngor Pobl Hŷn Gwynedd
  - Cynrychiolwyr sector busnes Gwynedd. e.e. http://www.gwyneddbusnes.net/html/singleton/228/cy-GB

Gweler canlyniadau llawn yr holiadur yn **Atodiad 2**

## Pwy atebodd yr Holiadur Toiledau Cyhoeddus?

Cafwyd 1,202 o ymatebion. Roedd rhan fwyaf o'r atebwyr yn Breswylwyr Gwynedd (67.3%) ac ymwelwyr i Wynedd (19.5%).




Roedd rhan fwyaf o'r atebwyr (47.7%) yng ngrŵp oedran 45-64 oed. Cafwyd llai na 4% o atebion gan grŵp oedran o dan 25. Mae hynny yn isel o gymharu â 21.6% o'r boblogaeth yng Ngwynedd yn o dan 25 oed.

O'r unigolion wnaeth lenwi'r holiadur roedd:

| **Rhyw** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Dynes/Benyw | 755 | 62.8% |
| Dyn/Gwryw | 380 | 31.6% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 34 | 2.8% |
| Heb Ateb | 23 | 1.9% |
| Arall | 10 | 0.8% |
| **Cyfanswm** | **1202** | **100.0%** |

Mae’r tabl isod yn dangos nifer a chanran yr ymatebwyr a nododd eu bod yn ystyried eu hunain yn anabl o dan Adran 6 (1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Dewisodd 100 o unigolion beidio ateb y cwestiwn neu ddewis yr opsiwn ‘gwell gennyf beidio â dweud’. Er nad oes modd gwneud cymhariaeth uniongyrchol, yn ôl Cyfrifiad 2011 mae 9.7% o bobl Gwynedd wedi datgan fod ganddynt gyflwr sy’n “cyfyngu’n sylweddol ar eu gweithgareddau dydd i ddydd” sy’n cymharu gyda 9% o ymatebwyr yr holiadur a nododd eu bod yn ystyried eu hunain yn anabl.

| **A ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl?** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Nac ydw | 994 | 82.7% |
| Ydw | 108 | 9.0% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 82 | 6.8% |
| Heb Ateb | 18 | 1.5% |
| **Cyfanswm** | **1202** | **100.0%** |

## Prif Negeseuon

## Pa mor aml caiff toiledau cyhoeddus eu defnyddio?

Ar gyfer yr holiadur, mae 'toiledau cyhoeddus' yn golygu toiledau cyhoeddus a thoiledau sy'n rhan o gynllun grant toiledau cymunedol e.e. mewn caffis neu siopau. Mae’n amlwg o’r holiadur fod toiledau yn ddarpariaeth bwysig i’r atebwyr yn gyffredinol, gyda 54.4% yn dweud eu bod yn eu defnyddio’n ddyddiol neu’n wythnosol. Er hynny, nododd 8.9% o bobl o dan 25 oed nad ydynt ‘Byth’ yn defnyddio toiledau cyhoeddus o gymharu â 2.3% yn gyffredinol. Hefyd, nododd 13.3% o bobl o dan 25 oed eu bod yn defnyddio’r toiledau yn ‘Ddyddiol’ o gymharu â 17.3% yn gyffredinol.

## Ydi'r oriau agor yn addas?

Dywedodd 70.6% fod yr oriau agor y ddarpariaeth yn addas, ond roedd negeseuon clir o’r sylwadau fod darpariaeth dymhorol yn amhoblogaidd yn enwedig mewn lleoliadau gwledig. Roedd nifer o’r sylwadau yn cyfeirio at yr angen i ymestyn oriau agor, gan nodi fod nifer yn cau llawer rhy gynnar gyda'r nos neu heb agor ddigon cynnar yn y bore.

Roedd 38% o bobl sydd wedi datgan bod ganddynt anabledd o dan adran 6 (1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nad yw oriau agor toiledau cyhoeddus yn addas iddynt, o gymharu â 26% yn gyffredinol.

## Ydi'r cyfleusterau yn addas ar gyfer newid plant?

Nododd 73.6% o ymatebwyr nad yw'r cyfleusterau yn addas ar gyfer newid plant. Nododd nifer o'r sylwadau nad oedd digon o unedau newid ar gael, a bod y rhai sydd yn bodoli eisoes angen eu moderneiddio.

## Ydi'r cyfleusterau yn hygyrch?

Roedd 16.7% o bobl sydd wedi datgan bod ganddynt anabledd o dan adran 6 (1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nad yw'r cyfleusterau yn hygyrch iddynt, o gymharu â 6.7% yn gyffredinol.

## A oedd yna unrhyw nodwedd cydraddoldeb yn effeithio'n benodol ar ba mor addas yw'r toiledau?

Gweler o'r tabl isod mai'r 3 prif nodwedd cydraddoldeb sy'n effeithio ar ba mor addas yw'r toiledau yw  Anabledd, Oed, a Rhyw.


| | **Nifer o atebion** | **%** |
|---|---|---|
| Anabledd | 124 | 10.3% |
| Oed | 119 | 9.9% |
| Rhyw | 77 | 6.4% |
| Beichiogrwydd/Mamolaeth | 22 | 1.8% |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | 9 | 0.7% |
| Trawsrywiol | 8 | 0.7% |
| Crefydd | 7 | 0.6% |
| Hil | 3 | 0.2% |

*Roedd modd dewis mwy nag un ateb

Derbyniwyd sylwadau nad yw'r cyfleusterau yn addas i drigolion gydag anableddau, a chyflyrau meddygol penodol e.e. cyflwr bowel/pledren.

## Beth ydi safon y cyfleusterau sydd ar gael?

Yn gyffredinol, nododd 44.6% sgôr o 3 ar gyfer safon y cyfleusterau. Roedd 29.4% yn nodi sgôr o 4 neu 5, sef Gwael/Gwael iawn.




## Beth sy'n dda am y ddarpariaeth toiledau cyhoeddus?

Roedd 26.5% o sylwadau yn nodi fod argaeledd y cyfleusterau yn dda, a 9.9% yn nodi eu bod mewn lleoliadau da.  Roedd nifer o'r sylwadau yn nodi fod y toiledau yn hanfodol i wahanol bobl:

- Trigolion Gwynedd (6.6%),
- Ymwelwyr (4.6%),
- Teuluoedd a phlant (3.0%)
- sydd â chyflwr iechyd penodol (2.1%)
- henoed (1.3%)

Gweler sylwadau llawn yn Atodiad 2

## Beth ellir ei wella o ran y ddarpariaeth toiledau cyhoeddus?

Y prif sylw o ran beth ellir ei wella o ran y ddarpariaeth oedd hylendid y cyfleusterau. Roedd 24.1% o'r sylwadau  yn nodi bod angen sicrhau cyflenwad o nwyddau ymolchi addas ac angen gwella neu foderneiddio cyfleusterau a'u goleuo'n well.

Roedd 16.1% o'r sylwadau yn nodi'r angen i gynyddu neu amddiffyn nifer y toiledau cyhoeddus sy'n agored. Roedd 12.5% o'r sylwadau yn nodi bod angen adolygu cyfnodau neu oriau agor a chau.

Gweler sylwadau llawn yn Atodiad 2

## Ydi pobl yn ymwybodol o unrhyw fusnesau lleol sydd yn rhan o'r cynllun grant toiledau cymunedol?

Yng Ngwynedd, mae 35 o fusnesau a sefydliadau lleol yn rhan o gynllun toiledau cymunedol. Golygai hyn y gallai unrhyw un o'r cyhoedd ddefnyddio'u cyfleusterau. Nododd 76.9% o atebwyr nad oeddynt yn ymwybodol o unrhyw fusnesau lleol sydd yn rhan o'r cynllun.

| | **Nifer** | **%** |
|---|---|---|
| Heb Ateb | 38 | 3.2% |
| Nac ydw | 925 | 77.9% |
| Ydw | 239 | 19<br>.9% |
| **Cyfanswm** | **1202** | **100.0%** |

## Pa mor hawdd ydi darganfod toiled cyhoeddus pan mae angen?

Nododd 36.5% fod hi'n 'Anodd' neu'n 'Anodd iawn' darganfod toiled cyhoeddus, a dim ond 19.7% a nododd ei bod yn 'Hawdd' neu'n 'Hawdd iawn'. Roedd gweddill yr atebion yn 'Ddim yn hawdd nac yn anodd' neu heb ateb y cwestiwn.

Nododd 78.5% o atebwyr hoffent ddarganfod ble mae'r toiledau cyhoeddus agosaf drwy ddefnydd o arwyddion.

## Ymgynghoriad "Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi?"

Cynhaliwyd ymgynghoriad "Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi?" gan Gyngor Gwynedd yn ystod Hydref 2018. Pwrpas yr ymgynghoriad oedd egluro'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor i bobl a sefydliadau Gwynedd; Yn ogystal â chynnig cyfle i bobl a sefydliadau Gwynedd i ddweud eu dweud ar pa wasanaethau mae'r Cyngor yn eu darparu sydd fwyaf pwysig iddynt.

Ymgynghorwyd â dros 2,400, ac yn gyffredinol dros y sir, nid oedd toiledau cyhoeddus ddim yn flaenoriaeth uchel (safle 44 allan o 59). Er hynny, roedd toiledau cyhoeddus yn safle 11 (o 59) gyda phobl dros 65 oed, a safle 25 (o 59) gyda phobl gydag anableddau.

Roedd ardal Tywyn yn cynnwys ‘Toiledau cyhoeddus’ (safle 5), yn eu deng blaenoriaeth uchaf. Mae ‘Toiledau Cyhoeddus’ yn cael eu gosod yn uwch o lawer (20 safle neu fwy) na chanlyniadau Gwynedd yn ei gyfanrwydd.

O safbwynt y 10 gwasanaeth a osodwyd isaf o’r 59, gweler ambell i wahaniaeth ym mhob ardal lleol o gymharu â Gwynedd gyfan. Roedd ardal Bangor, Caernarfon a Dyffryn Nantlle yn gosod ‘Toiledau cyhoeddus’ yn ymysg y 10 isaf.

Roedd toiledau cyhoeddus yn safle 51 gan grŵp oedran o dan 25 o gymharu â’r ymatebion yn eu cyfanrwydd. I’r gwrthwyneb, roeddent yn safle 11 gan yr ymatebwyr dros 65 oed, sydd yn llawer iawn uwch (20 safle neu uwch) o ran pwysigrwydd na’r ymatebion yn eu cyfanrwydd.

## Grŵp Hunan Adfocatiaeth

Nododd y grŵp bod angen edrych ar eu hôl ac nid oeddent eisiau gorfod talu i’w defnyddio er yn gwybod y byddai’n helpu efo’r costau.

## Cyngor Pobl Hŷn Gwynedd

Mae toiledau cyhoeddus yn un o’r gwasanaethau pwysicaf i’r grŵp yma. Nododd y grŵp fod angen digon o doiledau mewn mannau cyhoeddus er mwyn galluogi pobl hŷn i fynd allan a theithio â hyder.

## Grŵp Craidd Cydraddoldeb

Ymgynghorwyd â Grŵp Craidd Cydraddoldeb sy’n cynrychioli’r grwpiau canlynol:

- Grŵp Ffoaduriaid;
- Cytûn;
- Grŵp Mynediad Meirionnydd;
- Cyngor Pobl Hŷn;
- Men’s Sheds Caernarfon;
- Hunaniaith;
- Bangor Indians and Friends Association;
- Unique Transgender Network;
- Council of Sign Sight Sound;
- Gwasanaeth Eiriolaeth Annibynnol Gogledd Cymru;
- Canolfan Cymorth Dioddefwyr;
- Canolfan Islamaidd Bangor

Roedd y Grŵp yn gweld toiledau cyhoeddus yn hynod bwysig i bobl hŷn, teuluoedd ifanc a phobl anabl. Roedd y grŵp yn ffafrio grant i fusnesau lleol ond bod angen hysbysebu mwy arnynt ac ehangu’r nifer a fyddai’n caniatáu gwell cyfleusterau a lle newid mwy addas i bobl gydag anghenion ychwanegol. Roedd y Grŵp yn nodi ei fod yn iawn i bobl dalu am ddefnyddio’r cyfleusterau.

### Grŵp LGBT+ GISDA

Ymgynghorwyd â Grŵp LGBT+ GISDA. Nododd rhai bod angen i’r Cyngor ddarparu toiledau ‘gender neutral’ a bod y cyfleusterau ar hyn o bryd yn anaddas, yn fudr ac yn cau yn rhy gynnar.

### Cynghorau Tref a Chymuned

Drwy weithio mewn partneriaeth gyda Chynghorau Tref a Chymuned, mae’r Cyngor yn derbyn gwybodaeth am anghenion eu cymunedau. Mae’r Cyngor wedi derbyn sylwadau fod cyfleusterau mewn rhai o’r cymunedau mewn cyflwr gwael, a bod angen eu huwchraddio. Mae’r sylwadau eraill yn nodi fod angen ymestyn oriau agor, a bod y ddarpariaeth ar gael drwy’r flwyddyn.

### Twristiaeth

Yn yr Holiadur Toiledau Cyhoeddus, nododd sefydliadau twristiaeth fod toiledau’n hanfodol ar gyfer ymwelwyr, a bod angen iddynt fod ar agor drwy’r flwyddyn. Mae’r sector twristiaeth yn un bwysig iawn i Wynedd. Dangosodd yr adroddiad STEAM bod dros 7.25 miliwn o dwristiaid wedi ymweld â Gwynedd yn 2017, nifer sydd wedi cynyddu yn flynyddol ers 2012.

## 9. Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Rhaid i ni gydnabod nad oes unrhyw atebion sydyn a bod mesurau cyni yn golygu bydd y Cyngor yn parhau i wynebu pwysau ariannol ond mae'r Cyngor yn ymrwymo i'r isod i liniaru'r bylchau rhwng y ddarpariaeth toiledau sydd ar gael a'r angen a nodwyd:

### Darpariaeth o gyfleusterau glân, diogel wedi eu cynnal yn briodol

Bydd y Cyngor yn adolygu ei waith glanhau a safonau yn gyfnodol i sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf effeithlon ac effeithiol o fewn yr adnoddau a ddyrannwyd gan hefyd adolygu oriau agor cyfleusterau mewn lleoliadau allweddol. Yn ogystal, bydd yn cynnal archwiliad o'r cyfleusterau newid i fabanod sydd ar gael ac yn ymdrechu i gynyddu argaeledd ble fo hynny'n

bosib ac yn ymarferol. Fe fydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda'r Heddlu, Diogelwch Cymunedol a thrigolion, grwpiau cymunedol ac eraill i sicrhau bod y cyfleusterau mor ddiogel â phosib.

## Uchafu argaeledd toiledau drwy bartneriaeth a darpariaeth arall

Parhau i weithio gyda chymunedau i gynnal y cynllun partneriaeth cyfredol a pharhau i weithio gyda busnesau lleol i hyrwyddo defnyddio eu cyfleusterau toiled yn well dan y Cynllun Grant Cymunedol yn enwedig mewn ardaloedd ble y gall fod bwlch mewn darpariaeth. Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- Gwefan a chyfryngau cymdeithasol
- Gwell arwyddion i'r busnesau fydd yn cynnwys y logo a bennwyd gan Lywodraeth Cymru
- Rhestr o’r eiddo ar safleoedd twristiaeth.

## Hysbysu a hyrwyddo gwybodaeth am ddarpariaeth toiledau drwy wefannau a chyfryngau eraill

Mae mapio lleoliadau yn rhan bwysig o’n Strategaeth. Rydym eisiau i'r bobl hynny sydd am ymweld â'r toiled i fedru cael mynediad hawdd i wybodaeth am y lleoliad, amseroedd agor, hygyrchedd a'r math o gyfleusterau sydd ar gael. Croesawn yn gynnes benderfyniad Llywodraeth Cymru i greu, gyda chefnogaeth awdurdodau lleol, map ar-lein o'r holl gyfleusterau toiled presennol sydd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio yng Nghymru. Bydd y map yma nid yn unig yn helpu pobl i ddod o hyd i doiledau lleol ond hefyd yn ei gwneud hi'n haws i gynllunio ar gyfer teithiau pellach. Bydd y Cyngor yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i sicrhau fod yr holl doiledau yng Ngwynedd wedi eu cynnwys yn y map cenedlaethol hwn.

Byddwn hefyd yn darparu dolen uniongyrchol i'r map cenedlaethol ar ein gwefan, pan fydd ar gael. Y ddolen i borth Lle, ble gellir gweld y map yw: http://lle.gov.wales/home?lang=cy

Byddwn yn adolygu'r cyfleusterau sydd wedi eu cynnwys yn rheolaidd o leiaf bob dwy flynedd, yn unol â'n hadroddiadau cynnydd a'r cyfnodau adolygu Strategaeth, fel y manylir isod. Os ydym yn clywed am newidiadau i argaeledd cyfleusterau, fel rhai'n cau neu newid amser agor, neu yn wir fusnesau newydd ble caniateir defnyddio'r cyfleusterau, byddwn yn diweddaru'r wybodaeth yn amserol yn hytrach nag aros tan y dyddiad adolygu.

## Cyfleusterau sy'n hawdd dod o hyd iddynt gydag arwyddion cyfeiro da ac arwyddion gwybodaeth cyfleusterau unigol

Bydd sticer y logo toiled yn cael ei arddangos ar y busnesau hynny sydd ar hyn o bryd yn gweithredu dan y cynllun grant cymunedol ac ar adeiladau Cyngor perthnasol sydd wedi eu mapio. Yn ogystal, rhoddir ystyriaeth i wella'r pyst arwyddion i gyfeirio'r cyhoedd i'r toiledau sydd ar gael mewn lleoliadau allweddol fel hybiau trafnidiaeth yn y Sir.

## Asesu argaeledd a dosbarthiad cyfleusterau yn seiliedig ar alw

Yn ddelfrydol, dylid trefnu dosbarthiad adnoddau a chyfleusterau yng Ngwynedd i ymdrin yn effeithiol â phroffil y galw. Gall adolygiad cyfnodol o'r Strategaeth ganolbwyntio ar broffil y galw i nodi newidiadau a allai uchafu effeithiolrwydd y gwasanaeth a ddarperir.

## Darpariaeth gynaliadwy o fewn y gyllideb sydd ar gael

Mae’r Cyngor wedi ymrwymo i gynaliadwyedd drwy ei gynllun rheoli carbon ac o fewn ei weithrediadau sy'n cynnwys darpariaeth cyfleusterau toiledau. Trwy'r arian grant y derbyniwyd hyd yma rydym wedi sicrhau a byddwn yn parhau i sicrhau y rhoddir ystyriaeth i faterion amgylcheddol wrth wella neu ailwampio cyfleusterau, er enghraifft y cyfleusterau diweddar a ailwampiwyd oedd pan gafodd y goleuadau eu gwella yn y cyfleusterau hyn drwy osod goleuadau LED.

## 10. Adolygu, Adrodd a Diwygio

Mae’r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal adolygiadau rheolaidd o'r Strategaeth leol a darparu adroddiadau cynnydd. Dylid gwneud y rhain bob dwy flynedd, ac eithrio pan fo etholiadau awdurdodau lleol ac ar yr adegau hynny dylid cynnal adolygiad cyn pen blwyddyn o'r etholiad gan un ai ail-ddrafftio'r Strategaeth neu ddarparu adroddiad cynnydd interim.

Yn y tabl isod, nodir yr amserlen ar gyfer y gwaith adolygu a fwriedir a'r cylch adrodd:

| | |
|---|---|
| Adolygiad statudol ac adroddiad cynnydd interim am y cyfnod 30ain Mai 2019 i'r 30ain Mai 2021. | Mehefin i Awst 2021 |
| Sicrhau cymeradwyaeth y Cabinet | Hydref a Thachwedd 2021 |
| Cyhoeddi'r adroddiad cynnydd interim ar ein gwefan | 30ain Tachwedd 2021 |
| Adolygu cyn pen blwyddyn o etholiadau llywodraeth leol (5ed Mai 2022). | Erbyn 4ydd Mai 2023 |
| Os oes newidiadau i'r Strategaeth, ail-gyhoeddi'r ddogfen lawn a gymeradwywyd. | Erbyn 3ydd Tachwedd 2023 |
| Os nad oes newidiadau i'r Strategaeth, paratoi adroddiad cynnydd interim am 22ain Tachwedd 2022 i'r 22ain Tachwedd 2024. | Rhagfyr 2024 i Ebrill 2025 |
| Sicrhau cymeradwyaeth y Cabinet | Ebrill / Mai 2025 |
| Cyhoeddi'r adroddiad cynnydd interim ar ein gwefan | Erbyn 22ain Mai 2025 |
| Ailadrodd y broses o adolygu a llunio datganiadau cynnydd interim bob dwy flynedd neu cyn pen blwyddyn i etholiadau awdurdodau lleol | |

## 11. Camau Nesaf

Ydym wedi ymgynghori ar y strategaeth ac wedi diweddaru'r cynnwys o ran y cynnydd a wnaed gyda mapio cenedlaethol ar gyfleusterau toiledau lleol. Ydym hefyd wedi ymgorffori'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau a'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus i gyfarwyddo'r cynnwys terfynol.

**Awduron:** Amanda Murray **–** Rheolwr Prosiect, Priffyrdd a Bwrdeistrefol
Bethan Roberts - Cydlynydd Cynghorau Cymuned a Grwpiau Cymunedol


Toiledau Parc
Toiledau Gwynedd
Gwynedd
Amlwch
Anglesey
ANGLESEY
Benllech
Llangefni
Menai Bridge
Beaumaris
Rhosneigr
Holy Island
Llandudno
Conwy
Colwyn Bay
Abergele
Bangor
Bethesda
Caernarfon
Caernarfon Bay
Llanberis
Snowdon
1085m
Llanrwst
Llanfair Talhaiarn
Betws-y-Coed
Pentrefoelas
Llanaelhaearn
Blaenau Ffestiniog
Porthmadog
Nefyn
Llan Ffestiniog
Llyn Celyn
Y Bala
Criccieth
Pwllheli
Trawsfynydd
SNOWDONIA
Lleyn
Harlech
Abersoch
Llyn Tegid
Dolgellau
Barmouth
Cadair Idris
892m
Mallwyd
Afon Dyfi
Tywyn
Machynlleth
CARDIGAN BAY/
BAE CEREDIGION
Afon Conwy
A55
A5
A470
A487
A499
A497
A4085
A4086
A498
A496
A494
A493
A489
A4212
A4080
A545
A5025
A548
A544
A543

# Rhestr Toiledau Cyngor Gwynedd / List of Gwynedd Council Toilets

| Tref neu Bentref / Town or Village | Lleoliad / Location |
|---|---|
| **Ardal ARFON Area** | |
| Bangor | Glanrafon |
| Bangor | Tanyfynwent |
| Bangor | Y Pier |
| Bethesda | Stryd Fawr |
| Caernarfon | Allt y Castell |
| Caernarfon | Empire |
| Caernarfon | Penllyn |
| Dinas Dinlle | Marine |
| Llanberis | Ger y Llyn |
| Llanberis | Maes Padarn |
| Llanberis | Y Glyn |
| Y Felinheli | |
| **Ardal DWYFOR Area** | |
| Aberdaron | Traeth |
| Abersoch (Llanengan) | Ger y bont |
| Abersoch (Llanengan) | Golff |
| Abersoch (Llanengan) | Machroes |
| Mynytho (Llanengan) | |
| Beddgelert | |
| Criccieth | Esplanade |
| Criccieth | Maes Parcio |
| Llanbedrog | Traeth |
| Llanystumdwy | |
| Morfa Bychan (Porthmadog) | Traeth |
| Borth y Gest (Porthmadog) | Maes Parcio |

| | |
|---|---|
| Porthmadog | Y Parc |
| Morfa Nefyn (Nefyn) | Cae Coch |
| Morfa Nefyn (Nefyn) | Traeth |
| Nefyn | Cefn Twr |
| Nefyn | Lon Gam |
| Pwllheli | South Beach |
| Pwllheli | Stryd Penlan |
| Pwllheli | Y Maes |
| **Ardal MEIRIONNYDD Area** | |
| Aberdyfi | Neuadd Dyfi |
| Aberdyfi | Y Cei |
| Abergynolwyn (Llanfihangel) | |
| Abermaw | Llys Cambrian |
| Abermaw | Promenad y Gogledd |
| Abermaw | Y Cei |
| Bala | Plase |
| Bala | Y Grin |
| Blaenau Ffestiniog | Diffwys |
| Bryncrug | |
| Corris Isaf | |
| Dinas Mawddwy | |
| Dolgellau | Maes Parcio'r Marian |
| Talybont (Dyffryn Ardurdwy) | Pentre |
| Fairbourne (Arthog) | Ffordd yr Orsaf |
| Fairbourne (Arthog) | Penrhyn Drive South |
| Ganllwyd | |
| Harlech | Bron y Graig |
| Harlech | Min y Don |
| Harlech | Queen's |
| Llanbedr | |
| Llandanwg (Llanfair) | |
| Llwyngwril (Llangelynin) | |

| | |
|---|---|
| Maentwrog | Newydd |
| Pennal | |
| Penrhyndeudraeth | Maes Parcio |
| Trawsfynydd | |
| Tywyn | Maes Adloniant |
| Tywyn | Sinema |

**Cynllun Grant Toiledau Cymunedol / Community Toilet Grant Scheme**

| CYFEIRIAD SAFLE SITE LOCATION | NIFER | AMSER AGOR OPENING HOURS | CYFLEUSTERAU FACILITIES | NEWID BABI BABY CHANGING | ANABL DISABLED |
|---|---|---|---|---|---|
| **ARFON** | | | | | |
| **Caffi Caban**, Caban Cyf., Brynrefail, Caernarfon LL55 3NR | **1** | 9:00 -16:00 Dyddiol/daily | Dynion, Merched Ladies and Gents | Oes/yes | Oes/Yes |
| Caffi EB (Menter Fachwen), High Street, Deiniolen LL55 3NF | **2** | 9:00 – 16:00 Llun - Gwener Mon - Fri | Unisex | | Oes/Yes |
| **Caffi Caban y Cwm** (Menter Fachwen), London House, Cwm y Glo, Caernarfon LL55 4DT. | **3** | 9:00 – 17:00 Llun - Gwener Mon - Fri | Unisex | | Oes/Yes |
| **Caffi'r Hen Felin**, Abergwyngregyn, LL33 0LP | **4** | 9:00 – 17:00 Dyddiol / daily | unisex | Oes/Yes | Oes/Yes |
| **Padarn Hotel**, Stryd Fawr, Llanberis, Gwynedd, LL554SU | **5** | 7:00 – 23:00 Dyddiol daily | Dynion, Merched Ladies and Gents | Oes/yes | Oes/Yes |
| **Inigo Jones & Co. Ltd.**, Groeslon LL54 7UE. | **6** | 9:00 -17:00 Llun –Sad Mon - Sat | Dynion, Merched Ladies and Gents | Oes/yes | Oes/Yes |
| **Palas Print**, 10 Stryd y Plas, Caernarfon LL55 1RR | **7** | 9:30 – 18:00 Llun – Gwe Mon - Fri 9:00 -17:30 Sad/Sat | unisex | Oes/Yes | Oes/Yes |
| **Y Ganolfan**, Ffordd yr Orsaf, Talysarn, Caernarfon, Gwynedd, LL54 6HL | **8** | 7:30 – 21:30 Dyddiol / daily | Dynion, Merched Ladies and Gents | Oes/yes | Oes/Yes |
| **Y Banc**, 39Haeol y Dwr, Penygroes, Gwynedd LL54 6LW | **9** | 9:00 – 16:30 Llun – sad Mon - Sat | unisex | Oes/yes | Oes/Yes |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Te a Cofi (GISDA),** 22-23 Y Maes, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2NA | **10** | 9:00 – 16:00<br>Llun –Sad<br>Mon - Sat | unisex | Oes/Yes | Oes/Yes |
| **Povey Garage**, Ffordd Llanllyfni Penygroes Gwynedd, LL54 6DA | **11** | 9:00 – 18:00<br>Llun – Gwe<br>Mon – Fri<br>9:00 – 13:30<br>Sad - Sat | Dynion, Merched<br>Ladies and Gents | | |
| **DWYFOR** | | | | | |
| **Cadwaladers,** The Iris, Criccieth, Gwynedd, LL52 0AP | **12** | Agored/Open<br>9:00 pob dydd/every day<br>Cau closed<br>17:00<br>Gaeaf/Winter<br>19:00<br>Gwanwyn / Spring<br>22:00 Haf/ Sum | Dynion, Merched<br>Ladies and Gents | Oes/Yes | Oes/Yes |
| **Garej Clynnog**, Clynnog, Caernarfon LL54 5PF. | **13** | 7:00 – 21:00<br>Llun – Gwe<br>Mon – Fri<br>8:00 – 20:00<br>Sad – sul<br>Sat - Sun | Dynion, Merched<br>Ladies and Gents | | Oes / Yes |
| **Glyn y Weddw Arms**, Llanbedrog, Pwllheli LL53 7TH<br>01758 740212 | **14** | 12:00 – 21:00<br>Gaeaf / Winter<br>12:00 -23:00<br>Haf / Summer | Dynion, Merched<br>Ladies and Gents | Oes/yes | Oes/Yes |
| **Gwesty Ty Newydd**, Aberdaron, Pwllheli LL53 8BE | **15** | 8:00 – 22:00<br>Dyddiol - Daily | Dynion, Merched<br>Ladies and Gents | Oes/yes | Oes/Yes |
| **Lion Hotel**, Tudweiliog, Pwllheli LL53 8ND | **16** | 2:00 – 14:00 a and 6:00 – 23:00 Gaeaf / Winter<br>11:00 – 23:00<br>Haf / summer | Dynion, Merched<br>Ladies and Gents | Oes/yes | Oes/Yes |
| **The Sun Inn**, Llanengan, Pwllheli LL53 7LG | **17** | 10:00 -23:00<br>Dyddiol / Daily | Dynion, Merched<br>Ladies and Gents | Oes/yes | Oes/Yes |
| **Neuadd Gymuned** Garndolbenmaen, | **18** | 9:00 -18:00<br>Llun – Sad | Dynion, Merched<br>Ladies and Gents | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Garndolbenmaen LL51 9TX | | Mon - Sat | | | |
| **Canolfan Menter Congl** Meinciau, Botwnog, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8RA | **19** | 9:00 – 17:00 Llun – Sul Mon - Sat | Dynion, Merched Ladies and Gents | Oes/yes | Oes/Yes |
| **Caffi'r Tyddyn**, Canolfan arddio Tyddyn Sachau, Y Ffor, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6UB | **20** | 9:30 – 16:30 Llun – Sad Mon – Sat 10:00 -15:30 Sul / Sun | Dynion, Merched Ladies and Gents | Oes/yes | Oes/Yes |
| **Station Inn**, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9HT. 01766 512929 | **21** | 11:00 – 23:00 Dyddiol / Daily | Dynion, Merched Ladies and Gents | | |
| **Y Tŵr**, Trefor, Caernarfon, Gwynedd, LL54 5LH, 01286 660436 | **22** | 8:30 – 02:00 Dyddiol / Daily | Dynion, Merched Ladies and Gents | Oes/yes | Oes/Yes |
| **Ffestiniog Railway**, Harbour station, Porthmadog, 01766 516031 | **23** | 9:00 23:00 Dyddiol / daily | Dynion, Merched Ladies and Gents | Oes/yes | Oes/Yes |

| MEIRIONNYDD | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Café at Dyffryn Ardudwy & Talybont Village Hall**. Dyffryn Ardudwy Near Barmouth, LL44 2BG. | **24** | 9:00 – 16:00 Dyddiol / Daily | Dynion, Merched Ladies and Gents | Oes/yes | Oes/Yes |
| **Corris Craft Centre**, Corris, SY20 9RF | **25** | 10:00 -17:00 Haf / Summer 10:00 – 16:30 Gaeaf / Winter | Dynion, Merched Ladies and Gents | Oes/yes | Oes/Yes |
| **The Bryntirion Inn**, Llandderfel, Bala, LL23 7RA | **26** | 11:00 – 23:00 Dyddiol / Daily | Dynion, Merched Ladies and Gents | | |
| **Railway Inn**, Abergynolwyn, Tywyn LL36 9YW | **27** | 12:00 – 12:00 Hanner nos Mid night | Dynion, Merched | Oes/yes | Oes/Yes |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Dyddiol / Daily | Ladies and Gents | | |
| **Royal Ship Hotel**, Queens Square, Dolgellau LL40 1AR | **28** | 8:00 – 12:00 Hanner nos Midnight Dyddiol /Daily | Dynion, Merched Ladies and Gents | Oes/yes | Oes/Yes |
| **Peniarth Arms,** Bryncrug, Tywyn, Gwynedd LL36 9PH. | **29** | 12:00 – 0:30 Dyddiol / Daily | Dynion, Merched Ladies and Gents | Oes/yes | Oes/Yes |
| **Pieces for Places,** Caersalem Chapel, High Street, Abermaw, Barmouth, Gwynedd LL42 1DS, | **30** | 9:30 – 18:00 Llun – Sad Mon –Sat 10:00 16:00 Sul / Sun | unisex | Oes/Yes | Oes/Yes |
| **Plas Coch Hotel**, 52 – 54 Stryd Fawr / High Street, Bala. Gwynedd. LL23 7AB | **31** | 9:00 – 23:00 Dyddiol / daily | Dynion, Merched Ladies and Gents | | |
| **Y Badell Aur,** 35 Stryd Fawr, Bala, Gwynedd LL23 7AF | **32** | 8:00 20:00 Dyddiol / Daily | Dynion, Merched Ladies and Gents | | |
| **Gwesty Pengwern** Cymunedol, Llan Ffestiniog, Gwynedd LL41 4PB | **33** | Llun – Iau / Mon – Thur 6:00 12:00 Hanner nos Midnight Gwen / Fri 17:30 – 12:00 Hanner nos. Midnight Sad – Sul / Sat – Sun 12:00 – 12:00 Hanner nos | Dynion, Merched Ladies and Gents | Oes/Yes | |
| **Meirion Mill**, Dinas Mawddwy, Gwynedd SY20 9LS | **34** | Llun – Sad Mon – Sat 10:00 – 17:00 Sul / Sun 10:30 – 17:00yh Mawrth i Tachwedd. March to November | Dynion, Merched Ladies and Gents | Oes/yes | Oes/Yes |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Llun – Sad / Mon Sat 10:00 – 16:30 Sul 10:30 – 16:30 Rhagfyr a Chwefror. December to February Ionawr ar gau January closed | | | |
| **Min y Mor,** Marine Promenade, Abermaw, Gwynedd, LL42 1HW | **35** | 12:00 – 23:00 Llun- Sul Mon - Sun | Dynion, Merched Ladies and Gents | Oes/yes | |

**Toiledau Cyhoeddus sydd yn eiddo i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**
**Public Conveniences that is the property of Snowdonia National Park**

* Mae angen goriad RADAR i agor y toiledau cyhoeddus hygyrch hyn.
A RADAR key is required to open these accessible toilets.

| Lleoliad/ Location | Hygyrch? Accessible | Cyfeirnod Grid Grid Reference |
|---|---|---|
| Dôl Idris | Ydi / Yes | SH 732 115 |
| Llanfihangel y Pennant (Tymhorol) | Ydi / Yes | SH 675 085 |
| Llangywer | Ydi / Yes | SH 905 325 |
| Morfa Dyffryn (Tymhorol) | Ydi / Yes | SH 628 614 |
| Morfa Mawddach (Tymhorol) | Ydi / Yes | SH 572 224 |
| Nant Peris* (Tymhorol) | Ydi / Yes | SH 605 585 |
| Penmaenpool | Ydi / Yes | SH 695 185 |
| Pont Bethania | Ydi / Yes | SH 627 507 |
| Rhyd Ddu* | Ydi / Yes | SH 565 525 |
| Saith Groesffordd | Ydi / Yes | SH 746 213 |
| Ty Nant | Ydi / Yes | SH 995 444 |
| Canolfan Wardeiniaid Llyn Tegid | Ydi / Yes | SH 923 357 |
| Canolfan Wardeiniaid Ogwen | Ydi / Yes | SH 648 603 |
| Canolfan Wardeiniaid Pen y Pass | Ydi / Yes | SH 647 556 |
| Pencadlys A.P.C.E., Penrhyndeudraeth | Ydi / Yes | SH 615 395 |
| Plas Tan y Bwlch | Ydi / Yes | SH 657 407 |
| Cae Garnedd | Ydi / Yes | SH 845 403 |

**Darpariaeth 'Changing Places' Facility**

Changing Places

Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri • Ffestiniog & Welsh Highland Railways
Gorsaf Gaernarfon • Caernarfon Station
Ffordd St Helen's • St Helen's Road
Caernarfon
Gwynedd

LL55 2PF

**Atodiad 3**

**Asesiad o Angen**

**Ionawr 2019**



## Canlyniadau Holiadur Toiledau Cyhoeddus

**Methodoleg**

Lansiwyd Holiadur Toiledau Cyhoeddus gan y Cyngor er mwyn canfod gwybodaeth a fydd yn eu helpu i adeiladu darlun o anghenion y gymuned, ac i helpu paratoi Strategaeth Toiledau Lleol. Roedd cyfle i drigolion a sefydliadau gymryd rhan mewn drwy:

- Ar-lein drwy ymweld â gwefan www.gwynedd.llyw.cymru
- Holiadur papur a oedd ar gael drwy Siop Gwynedd, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden y Cyngor
- Anfon llythyr neu e-bost gydag unrhyw adborth neu sylwadau

Roedd yr holiadur ar gael ar ein gwefan yn www.gwynedd.llyw.cymru/ToiledauCyhoeddus o'r 6ed o Dachwedd hyd yr 17eg o Ragfyr 2018. Defnyddiwyd ystod eang o ddulliau i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd i gymryd rhan yn yr arolwg gan gynnwys, cyhoeddi datganiad i'r wasg ar y 13eg o Dachwedd ac ymgyrch ragweithiol ar y cyfryngau cymdeithasol. Yn ychwanegol, cylchredeg manylion yr ymgynghoriad i sawl corff, grŵp nodwedd a grŵp anodd eu cyrraedd. Ar ddiwedd y cyfnod, roeddem wedi derbyn cyfanswm o 1,202 o atebion drwy ein ffurflen ateb.

**Trosolwg o'r ymatebwyr i'r Holiadur Toiledau Cyhoeddus**

Fe cafwyd 1,202 o ymatebwyr i'r Holiadur Toiledau Cyhoeddus.

| Rhyw | Nifer | % |
|---|---|---|
| Dynes / Benyw | 755 | 62.8% |
| Dyn / Gwryw | 380 | 31.6% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 34 | 2.8% |
| Heb Ateb | 23 | 1.9% |
| Arall | 10 | 0.8% |
| **Cyfanswm** | **1202** | **100.0%** |

| Grŵp oedran | Nifer | % |
|---|---|---|
| 15 oed neu iau | 5 | 0.4% |
| 16 - 24 oed | 40 | 3.3% |
| 25 - 44 oed | 345 | 28.7% |
| 45 - 64 oed | 573 | 47.7% |
| 65 - 84 oed | 216 | 18.0% |

| | | |
|---|---|---|
| 85+ oed | 6 | 0.5% |
| Heb Ateb | 17 | 1.4% |
| **Cyfanswm** | **1202** | **100.0%** |

| A ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl? | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Nac ydw | 994 | 82.7% |
| Ydw | 108 | 9.0% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 82 | 6.8% |
| Heb Ateb | 18 | 1.5% |
| **Cyfanswm** | **1202** | **100.0%** |

| Cenedligrwydd neu hunaniaeth genedlaethol | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cymro / Cymraes | 541 | 45.0% |
| Sais / Saesnes | 311 | 25.9% |
| Prydeinwr / Prydeines | 260 | 21.6% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 44 | 3.7% |
| Albanwr / Albanes | 7 | 0.6% |
| Gwyddel(es) o Ogledd Iwerddon | 2 | 0.2% |
| Arall | 22 | 1.8% |
| Heb Ateb | 15 | 1.2% |
| **Cyfanswm** | **1202** | **100.0%** |

| Hil | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Gwyn | 1078 | 89.7% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 76 | 6.3% |
| Heb Ateb | 26 | 2.2% |
| Arall | 16 | 1.3% |
| Cymysg / sawl grŵp ethnig | 4 | 0.3% |
| Sipsiwn / teithiwr Gwyddelig | 1 | 0.1% |
| Asiaidd | 1 | 0.1% |
| **Cyfanswm** | **1202** | **100.0%** |

| Rhywioldeb | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Hetrorywiol / Strêt | 966 | 80.4% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 144 | 12.0% |
| Heb Ateb | 40 | 3.3% |
| Arall | 21 | 1.7% |
| Dyn hoyw | 14 | 1.2% |
| Deurywiol (bisexual) | 12 | 1.0% |
| Dynes hoyw / lesbian | 5 | 0.4% |


| | | |
|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **1202** | **100.0%** |

| **Ydi eich hunaniaeth rhywedd wedi newid ers eich genedigaeth?** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Nac ydi | 1057 | 87.94% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 93 | 7.74% |
| Heb Ateb | 46 | 3.83% |
| Ydi | 6 | 0.50% |
| **Cyfanswm** | **1202** | **100.00%** |

**Canlyniadau'r holiadur**

1.Ydych chi'n ateb yr holiadur yma fel:


| | **Nifer o atebion** | **%** |
|---|---|---|
| Preswylydd yng Ngwynedd | 809 | 67.3% |
| Ymwelydd i Wynedd | 234 | 19.5% |
| Rhywun sydd yn gweithio yng Ngwynedd | 39 | 3.3% |
| Person busnes lleol yng Ngwynedd | 33 | 2.7% |
| Aelod etholedig lleol | 20 | 1.7% |
| Cynrychiolydd Cyngor Tref neu Chymuned | 9 | 0.7% |
| Cynrychiolydd grŵp neu sefydliad lleol | 7 | 0.6% |
| Arall | 31 | 2.6% |
| Heb Ateb | 20 | 1.7% |
| **Cyfanswm** | **1202** | **100.0%** |



2. Pa mor aml ydych yn defnyddio toiledau cyhoeddus?
(Mae 'toiledau cyhoeddus' yn golygu toiledau cyhoeddus ac toiledau sy'n rhan o cynllun grant toiledau cymunedol e.e. mewn caffis neu siopau.)


| | **Nifer o atebion** | **%** |
|---|---|---|
| Wythnosol | 446 | 37.1% |
| Achlysurol | 338 | 28.1% |
| Dyddiol | 208 | 17.3% |
| Misol | 160 | 13.3% |
| Byth | 28 | 2.3% |
| Heb Ateb | 22 | 1.8% |
| **Cyfanswm** | **1202** | **100.0%** |

Nododd 8.9% o bobl o dan 25 oed nad ydynt ‘Byth’ yn defnyddio toiledau cyhoeddus o gymharu a 2.3% yn gyffredinol. Hefyd, nododd 13.3% o bobl o dan 25 oed eu bod yn defnyddio’r toiledau yn ‘Ddyddiol’ o gymharu a 17.3% yn gyffredinol.



3. Ydi'r oriau agor yn addas i chi?

| | Nifer o atebion | % |
|---|---|---|
| Nac ydi | 317 | 26.4% |
| Ydi | 849 | 70.6% |
| Heb Ateb | 36 | 3.0% |
| **Cyfanswm** | **1202** | **100.0%** |




Roedd 38% o bobl sydd wedi datgan bod ganddynt anabledd o dan adran 6 (1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nad yw'r oriau agor toiledau cyhoeddus yn addas iddynt, o gymharu a 26% yn gyffredinol.


| **Nodwch Pam** | **Nifer** |
|---|---|
| Angen ymestyn oriau agor. Maent wedi cau llawer rhy gynner gyda'r nos neu heb agor ddigon cynner yn y bore | 169 |
| Angen eu hagor drwy'r flwyddyn, nid tymhorol. Nifer yn cau yn ystod y Gaeaf | 62 |
| Anodd ffeindio rhai sydd ar agor, prin eu bod ar agor. Nifer o doiledau y sir wedi cau | 45 |
| Angen i'w hagor 24 awr | 35 |
| Angen eu hagor yn ystod oriau teithio e.e. amseroedd teithio cludiant cyhoeddus | 17 |
| Ddim yn ymwybodol o'r oriau agor/ Oriau agor yn amrywio / angen cysondeb | 14 |
| Rhai wedi'u cloi / toiledau anabl wedi cloi | 10 |
| Angen mwy o doiledau/ mewn ardaloedd gwledig / dim toiledau ar gael | 7 |
| Arall | 6 |

| | |
|---|---|
| Angen ystyried rhai sydd â cyflwr iechyd / anableddau | 6 |
| Gorfod defnyddio toiledau mewn busnesau, gorfod prynu rhywbeth i ddefnyddio'u toiledau / rheiny weithiau ddim ar agor ac felly dim darpariaeth ar gael | 6 |
| Angen eu goleuo'n well, gwella glendid a darpariaeth ymolch e.e. papur toiled | 5 |
| Angen ystyried y bosibilrwydd o ymddygiad gwrthgymdeithasol wrth ystyried oriau agor | 4 |
| Codi ffi i'w defnyddio yn anghyfleus o ran cael newid/ ystyried system talu modern | 4 |
| Darpariaeth hanfodol | 1 |

4. Ydi'r cyfleusterau yn addas ar gyfer newid plant?

| | **Nifer o atebion** | **%** |
|---|---|---|
| Nac ydi | 351 | 73.6% |
| Ydi | 98 | 20.5% |
| Heb Ateb | 28 | 5.9% |
| **Cyfanswm** | **477** | **100.0%** |

Nododd 725 o bobl nad oedd y cwestiwn yn berthnasol iddynt. Noder nad yw’r graff yn cynnwys atebion ‘Ddim yn berthnasol’.





| **Os ddim, nodwch pam:** | **Nifer** |
|---|---|
| Dim digon o unedau newid ar gael | 152 |
| Hylendid gwael unedau newid | 93 |
| Unedau newid sydd yn bodoli eisoes angen ei moderneiddio / gwella | 25 |

| | |
|---|---|
| Dim digon o le i newid plant | 18 |
| Angen darparu cyfleusterau newid plant mewn toiledau dynion a merched | 12 |
| Ddim yn gwybod | 9 |
| Adeiladau yn aml rhy oer i newid plant | 8 |
| Unedau newid ddim yn hygyrch i bawb | 7 |
| Cyfleusterau ddim yn addas e.e. dim preifatrwydd | 7 |
| Sicrhau bod y cyfleusterau yn saff i'r cyhoedd | 6 |
| Angen sicrhau cyflenwad o nwyddau ymolchi a dŵr poeth | 3 |
| Dim digon o doiledau cyhoeddus yn agored yn gyffredinol | 2 |
| Ddim yn fodlon talu am gyfleusterau newid plant | 2 |
| Angen gwella'r cyfleusterau ymolchi sydd gyda'r unedau newid | 2 |
| **Cyfanswm** | **346** |

5. Ydi'r cyfleusterau yn hygyrch i chi?

| | **Nifer o atebion** | **%** |
|---|---|---|
| Nac ydi | 80 | 6.7% |
| Ydi | 1079 | 89.8% |
| Heb Ateb | 43 | 3.6% |
| **Cyfanswm** | **1202** | **100.0%** |




Roedd 16.7% o bobl sydd wedi datgan bod ganddynt anabledd o dan adran 6 (1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nad yw’r cyfleusterau yn hygyrch iddynt, o gymharu a 6.7% yn gyffredinol.

| Os ddim, nodwch pam: | Nifer |
|---|---|
| Cyfleusterau ddim yn hygyrch i drigolion gyda anableddau | 13 |
| Ddim yn gwybod | 12 |
| Cyfleusterau yn aml ar gau | 11 |
| Dim digon o ddarpariaeth yn y Sir | 11 |
| Oriau agor a cau anaddas yn gwneud yn anhygyrch | 7 |
| Cyfleusterau ddim yn cael ei darparu heb ffi | 5 |
| Cyfleusterau ddim mewn lleoliadau addas | 5 |
| Cyfleusterau ddim yn addas i rieni gyda plant | 3 |
| Cyfleusterau ddim yn addas i rheini gyda nam golwg | 3 |
| Cyfleusterau ddim yn hygyrch oherwydd diffyg mannau parcio | 1 |
| **Cyfanswm** | **71** |

6. Oes yna unrhyw nodwedd cydraddoldeb sy'n effeithio'n benodol ar pa mor addas yw'r toiledau i chi?

| | Nifer o atebion | % |
|---|---|---|
| Anabledd | 124 | 10.3% |
| Oed | 119 | 9.9% |
| Rhyw | 77 | 6.4% |
| Beichiogrwydd / Mamolaeth | 22 | 1.8% |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | 9 | 0.7% |
| Trawsrywiol | 8 | 0.7% |
| Crefydd | 7 | 0.6% |
| Hil | 3 | 0.2% |


*Roedd modd dewis mwy nag un ateb

| Os oes, nodwch pam: | Nifer | % |
|---|---|---|
| Cyfleusterau ddim yn addas i drigolion sydd angen mynd i'r toiled yn aml | 32 | 19.0% |
| Cyfleusterau ddim yn addas i drigolion gyda anableddau | 27 | 16.1% |
| Nid yw maint a math y cyfleusterau ddim yn addas e.e. Ciwbicl rhy gul i allu symud, grisiau yn anaddas i rai sydd a trafferthion symudedd, diffyg biniau/cyfleuster iechydol, diffyg bachyn ar gyfer ffon gerdded, | 23 | 13.7% |
| Cyfleusterau ddim yn addas i drigolion sydd â cyflwr meddygol penodol e.e. bowel/pledren | 22 | 13.1% |
| Ddim yn berthnasol | 17 | 10.1% |
| Teimlo’n anghyffyrddus gyda rhannu toiledau gyda phobl o ryw wahanol | 17 | 10.1% |
| Dim darpariaeth addas o fannau newid | 10 | 6.0% |
| Dylai unrhyw un allu defnyddio unrhyw doilet | 7 | 4.2% |
| Cyfleusterau ddim yn addas i drigolion sydd â nam golwg / golwg gwael | 4 | 2.4% |

| | | |
|---|---|---|
| Angen preifatrwydd | 3 | 1.8% |
| Arall | 2 | 1.2% |
| Cyfleusterau ble mae angen talu ffi ddim yn addas | 2 | 1.2% |
| Diffyg darpariaeth toiledau "gender neutral" | 2 | 1.2% |
| **Cyfanswm** | **143** | **100.0%** |

7. O'ch profiad chi, beth ydi safon y cyfleusterau sydd ar gael?

| | Nifer o atebion | % |
|---|---|---|
| 1 - Da iawn | 68 | 5.7% |
| 2 | 211 | 17.6% |
| 3 | 536 | 44.6% |
| 4 | 245 | 20.4% |
| 5 - Gwael iawn | 112 | 9.3% |
| Heb Ateb | 30 | 2.5% |
| **Cyfanswm** | **1202** | **100.0%** |



8. Beth sy'n dda am y ddarpariaeth toiledau cyhoeddus?

| **Be sy'n dda?** | **Nifer** | **%** |
|---|---|---|
| Argaeledd y cyfleusterau | 236 | 26.5% |
| Cyfleusterau glân | 152 | 17.1% |
| Lleoliad da | 88 | 9.9% |
| Hygyrch / Hawdd i'w darganfod / Cyfleus | 61 | 6.9% |
| Hanfodol i drigolion Gwynedd | 59 | 6.6% |
| Cyfleusterau wedi'i cynnal yn dda | 44 | 4.9% |
| Hanfodol i ymwelwyr | 41 | 4.6% |
| Cyflenwad teg o nwyddau ymolchi e.e. sebon / papur toiled | 35 | 3.9% |
| Bodlon efo'r tymhorau neu oriau agor / cau presennol | 33 | 3.7% |
| Rhad ac am ddim | 29 | 3.3% |
| Hanfodol i deuluoedd gyda plant | 27 | 3.0% |
| Digon o doiledau cyhoeddus ar agored | 21 | 2.4% |
| Hanfodol i bobl sydd â cyflwr iechyd penodol | 19 | 2.1% |
| Hanfodol i'r henoed | 12 | 1.3% |
| Addasrwydd cyfleusterau i'r henoed / pobl anabl | 9 | 1.0% |
| Parcio cyfleus o amgylch y cyfleusterau | 6 | 0.7% |
| Hawdd i'w defnyddio | 6 | 0.7% |
| Ddim yn gwybod | 6 | 0.7% |
| Awyrgylch saff | 5 | 0.6% |
| **Cyfanswm** | **889** | **100.0%** |


9. Beth gellir ei wella o ran y ddarpariaeth toiledau cyhoeddus?

| **Be ellir ei wella?** | **Nifer** | **%** |
|---|---|---|
| Hylendid y cyfleusterau | 307 | 21.1% |
| Cynyddu / amddiffyn nifer Toiledau Cyhoeddus sydd yn agored | 226 | 15.6% |
| Angen gwella / moderneiddio cyfleusterau e.e. mannau golchi | 192 | 13.2% |
| Adolygu cyfnodau / oriau agor a chau | 175 | 12.0% |
| Sicrhau cyflenwad o nwyddau ymolchi addas e.e. sebon / papur toiled | 91 | 6.3% |
| Gwella / sicrhau safon yr offer sydd yn y cyfleusterau e.e. peiriannau sychu. clo drysau | 77 | 5.3% |
| Angen i'r cyfleusterau gael ei goleuo'n well | 55 | 3.8% |
| Darparu Toiledau Cyhoeddus am ddim trwy'r Sir | 49 | 3.4% |
| Dim byd | 39 | 2.7% |
| Digon parod i dalu ffi am ddefnyddio Toiledau Cyhoeddus, neu ffyrdd amgen o ddenu arian | 36 | 2.5% |

| | | |
|---|---|---|
| Gwneud yn haws i ddarganfod toiledau e.e. arwyddion / ‘Ap’ ayb | 33 | 2.3% |
| Angen mwy o gyfleusterau sydd yn addas ar gyfer newid plant | 32 | 2.2% |
| Sicrhau fod pob safle yn saff i'r cyhoedd | 28 | 1.9% |
| Gwella addasrwydd darpariaeth i bobl sydd gyda chyflwr iechyd / anabledd | 26 | 1.8% |
| Sicrhau bod y cyfleusterau yn hygyrch i bawb | 24 | 1.7% |
| Angen hybu / ehangu cynllun toiledau busnesau lleol | 21 | 1.4% |
| Mwy o finiau tu mewn / o amgylch y toiledau | 13 | 0.9% |
| Gwresogi'r adeiladau Toiledau Cyhoeddus | 8 | 0.6% |
| Sicrhau llefydd parcio o amgylch Toiledau Cyhoeddus | 6 | 0.4% |
| Datblygu cyfleusterau ‘gender neutral’ | 3 | 0.2% |
| Trosglwyddo mwy o gyfleusterau i reolaeth y gymuned | 3 | 0.2% |
| Gwybodaeth gyswllt ar gael os oes problemau gyda'r ddarpariaeth | 2 | 0.1% |
| Darparu cawodydd | 2 | 0.1% |
| Darparu ystafelloedd newid | 2 | 0.1% |
| Arall | 2 | 0.1% |
| Darpariaeth system CCTV i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol | 1 | 0.1% |
| **Cyfanswm** | **1453** | **100.0%** |


10. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw fusnesau lleol sydd yn rhan o'r cynllun grant toiledau cymunedol?

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Heb Ateb | 38 | 3.2% |
| Nac ydw | 925 | 77.9% |
| Ydw | 239 | 19.9% |
| **Cyfanswm** | **1202** | **100.0%** |




11. Pa mor hawdd ydi ffeindio toiled cyhoeddus pan mae angen?

| | **Nifer** | **%** |
|---|---|---|
| Anodd | 363 | 30.2% |
| Anodd iawn | 76 | 6.3% |
| Ddim yn hawdd nac yn anodd | 501 | 41.7% |
| Hawdd | 196 | 16.3% |
| Hawdd iawn | 41 | 3.4% |
| Heb Ateb | 25 | 2.1% |
| **Cyfanswm** | **1202** | **100.0%** |




12. Pa ffordd hoffech chi darganfod/ ffeindio allan lle mae'r toiledau cyhoeddus agosaf?

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ap rhyngweithiol | 399 | 33.2% |
| Gwefan Cyngor Gwynedd | 290 | 24.1% |
| Map rhyngweithiol | 327 | 27.2% |
| Arwyddion | 943 | 78.5% |
| Arall | 82 | 6.4% |

*Roedd modd dewis mwy nag un ateb

| Arall | Nifer |
|---|---|
| Gofyn i eraill e.e. pobl leol, mewn siopau | 21 |
| Google/ Google Maps | 9 |
| Arall | 27 |
| Mapiau Papur / Hysbysfyrddau/ Gorsafoedd Bws | 11 |
| Cyfryngau Cymdeithasol/Gwefannau Allanol | 6 |

**Proffil Gwynedd -** Linc i ffynonellau data:

**Anghenion Poblogaeth**

amcangyfrifon Poblogaeth ONS - Stats Wales

rhagolygon poblogaeth - Stats Wales

**Anghenion Iechyd**

disgwyliad oes - Stats Wales

Daffodil - Llywodraeth Cymru

Ymateb Crohn's & Colitis Uk i Bil Iechyd Cymru

[Crohn's & colitis uk](#) Gwefan yr elusen

**Ymgynghoriad "Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi?"**
[Canlyniadau Ymgynghoriad](#) - Cyngor Gwynedd

**Twristiaeth**
Mae'r sector twristiaeth yn un bwysig iawn i Gwynedd. Mae'r adroddiad STEAM yn dangos bod dros 7.25 miliwn o dwristiaid wedi ymweld a Gwynedd yn 2017, nifer sydd wedi cynyddu yn flynyddol ers 2012. Mae twristiaid yn treulio 3 diwrnod y flwyddyn yn Ngwynedd ar gyfartaledd. Mae rhan o Barc Cenedlaethol Eryri wedi ei leoli yng Ngwynedd gan gynnwys Yr Wyddfa. Mae ardal Arfordir Llŷn wedi ei nodi fel Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae Cestyll Brenin Edward yn Caernarfon a Harlech, a muriau tref Caernarfon wedi eu dynodi fel Safleoedd Treftadaeth y Byd gan UNESCO. Mae nifer o draethau fflag glas yn Ngwynedd gan gynnwys

- Abermaw
- Abersoch
- Cricieth
- Dinas Dinlle
- Morfa Bychan
- Pwllheli
- Tywyn

(Cadw Cymru'n Daclus 2017)



Mae atyniadau poblogaidd eraill yn cynnwys Zip World yn Bethesda a Gelli Gyffwrdd ger Y Felinheli.

**Atodiad 4**

**Canlyniadau Ymgynghoriad Strategaeth Toiledau Lleol Drafft**

**Ebrill 2019**



## Canlyniadau Ymgynghoriad Strategaeth Toiledau Lleol Drafft

**Methodoleg**

Lansiwyd Holiadur Strategaeth Toiledau Lleol Drafft gan y Cyngor er mwyn canfod gwybodaeth a fydd yn eu helpu i lunio'r fersiwn derfynol o'r strategaeth.

Roedd yr holiadur Strategaeth-Toiledau-Lleol-Drafft ar gael ar ein gwefan yn o'r 11 Chwefror hyd at yr 1af o Fai 2019. Roedd cyfle iddynt dweud eu dweud wrth anfon llythyr neu e-bost gydag unrhyw adborth neu sylwadau, neu cwblhau copi holiadur papur. Defnyddiwyd ystod eang o ddulliau i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd i gymryd rhan yn yr arolwg gan gynnwys, cyhoeddi datganiad i'r wasg ar y 20ed o Chwefror ac ymgyrch ragweithiol ar y cyfryngau cymdeithasol.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad ar canfyddiadau hwn nid oedd yr ymgynghoriad wedi cau. Hyd at 18 Ebrill, roeddem wedi derbyn cyfanswm o 122 o atebion drwy ein ffurflen ateb. Adroddir ar lafar yng nghyfarfod Y Cabinet ar unrhyw sylwadau ychwanegol a dderbynnir erbyn y dyddiad cau.

**Trosolwg o'r ymatebwyr i'r Holiadur Strategaeth Toiledau Lleol Drafft**

Fe cafwyd 122 o ymatebwyr i'r Holiadur.

| **Rhyw** | **Nifer** | **%** |
|---|---|---|
| Dynes / Benyw | 74 | 60.7% |
| Dyn / Gwryw | 43 | 35.2% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 3 | 2.5% |
| Heb Ateb | 1 | 0.8% |
| Arall | 1 | 0.8% |
| **Cyfanswm** | **122** | **100%** |

| **Grŵp oedran** | **Nifer** | **%** |
|---|---|---|
| 16 - 24 oed | 1 | 0.8% |
| 25 - 44 oed | 37 | 30.3% |
| 45 - 64 oed | 56 | 45.9% |
| 65 - 84 oed | 28 | 23.0% |
| **Cyfanswm** | **122** | **100%** |

| A ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl? | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Nac ydw | 87 | 71.3% |
| Ydw | 23 | 8.2% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 10 | 18.9% |
| Heb ateb | 2 | 1.6% |
| **Cyfanswm** | **122** | **100%** |

| Cenedligrwydd neu hunaniaeth genedlaethol | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cymro / Cymraes | 53 | 43.4% |
| Sais / Saesnes | 30 | 24.6% |
| Prydeinwr / Prydeines | 29 | 23.8% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 6 | 4.9% |
| Albanwr / Albanes | 1 | 0.8% |
| Arall | 3 | 2.5% |
| **Cyfanswm** | **122** | **100%** |

| Hil | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Gwyn | 108 | 88.5% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 12 | 9.8% |
| Arall | 1 | 0.8% |
| Heb ateb | 1 | 0.8% |
| **Cyfanswm** | **122** | **100.0%** |


| Rhywioldeb | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Hetrorywiol / Strêt | 98 | 80.3% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 16 | 13.1% |
| Arall | 3 | 2.5% |
| Dyn hoyw | 2 | 1.6% |
| Deurywiol (bisexual) | 1 | 0.8% |
| Dynes hoyw / lesbian | 1 | 0.8% |
| Heb ateb | 1 | 0.8% |
| **Cyfanswm** | **122** | **100.0%** |

| Ydi eich hunaniaeth rhywedd wedi newid ers eich genedigaeth? | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Nac ydi | 108 | 88.5% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 11 | 9.0% |
| Ydi | 1 | 0.8% |
| Heb ateb | 2 | 1.6% |
| **Cyfanswm** | **122** | **100.00%** |

**Canlyniadau'r holiadur**

1.Ydych chi'n ateb yr holiadur yma fel:

| | Nifer o atebion | % |
|---|---|---|
| Preswylydd yng Ngwynedd | 88 | 72.13% |
| Ymwelydd i Wynedd | 25 | 20.49% |
| Rhywun sydd yn gweithio yng Ngwynedd | 2 | 1.64% |
| Person busnes lleol yng Ngwynedd | 2 | 1.64% |
| Aelod etholedig lleol | 3 | 2.46% |
| Arall | 2 | 1.64% |
| **Cyfanswm** | **122** | **100.0%** |



2. Nodwch isod os ydych yn cytuno neu yn anghytuno gyda’r amcanion y strategaeth.

**2.1 Darpariaeth o gyfleusterau glân, diogel wedi eu cynnal yn briodol**

| | Nifer o atebion | % |
|---|---|---|
| Cytuno | 119 | 97.5% |
| Anghytuno | 3 | 2.5% |
| **Cyfanswm** | **122** | **100.0%** |

**2.2 Uchafu'r argaeledd toiledau drwy bartneriaeth gyda'r Cyngor a darpariaeth arall**

| | Nifer o atebion | % |
|---|---|---|
| Cytuno | 115 | 94.26% |
| Anghytuno | 5 | 4.10% |
| Ddim yn gwybod | 2 | 1.64% |
| **Cyfanswm** | **122** | **100.0%** |

**2.3 Hysbysu a hyrwyddo gwybodaeth am ddarpariaeth toiledau drwy wefannau a chyfryngau eraill**

| | Nifer o atebion | % |
|---|---|---|
| Cytuno | 109 | 89.34% |
| Anghytuno | 5 | 4.10% |
| Ddim yn gwybod | 8 | 6.56% |
| **Cyfanswm** | **122** | **100.0%** |

**2.4 Cyfleusterau sy'n hawdd dod o hyd iddynt gydag arwyddion cyfeirio da ac arwyddion gwybodaeth cyfleusterau unigol**

| | Nifer o atebion | % |
|---|---|---|
| Cytuno | 116 | 95.08% |
| Anghytuno | 3 | 2.46% |
| Ddim yn gwybod | 3 | 2.46% |
| **Cyfanswm** | **122** | **100.0%** |

**2.5 Asesu argaeledd a dosbarthiad cyfleusterau yn seiliedig ar alw**

| | Nifer o atebion | % |
|---|---|---|
| Cytuno | 95 | 77.87% |
| Anghytuno | 17 | 13.93% |
| Ddim yn gwybod | 10 | 8.20% |
| **Cyfanswm** | **122** | **100.0%** |

**2.6 Darpariaeth addas o fewn y gyllideb sydd ar gael**

| | Nifer o atebion | % |
|---|---|---|
| Cytuno | 84 | 68.85% |
| Anghytuno | 23 | 18.85% |
| Ddim yn gwybod | 15 | 12.30% |
| **Cyfanswm** | **122** | **100.0%** |

**2.7 Nodwch os oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r amcanion uchod**

| Sylwadau ynglŷn â'r amcanion uchod | Nifer |
|---|---|
| Bwysig cadw gymaint o doiledau ar agor â phosib, mewn lleoliadau addas - dim rhy bell o'u gilydd, ac mewn lleoliadau gwledig, enwedig i rai y mae teithio yn ran o'u gwaith | 11 |
| Sicrhau bod darpariaeth ar gael drwy'r flwyddyn i bobl lleol a thwristiaid, does dim digon ar hyn o bryd | 8 |
| Bodlon i'r cyhoedd gyfrannu at y gost / drysau codi ffi / cyfleoedd eraill i godi incwm e.e. safleoedd ar gyfer carafán neu gartref teithio | 7 |
| Diffyg darpariaeth yn gallu effeithio twristiaeth | 6 |
| Cynyddu'r gyllideb/ sicrhau bod arian ar gael ar gyfer y ddarpariaeth, | 5 |
| Angen sicrhau darpariaeth toiledau hygyrch, rhai 'Changing Places', darpariaeth toiledau hygyrch yn brin/ wedi cloi | 5 |
| Angen blaenoriaethu toiledau | 4 |
| Arall | 4 |
| Anghyfleus chwilio am newid arian / Dylai toiledau fod am ddim i'w defnyddio | 3 |
| Grwpiau cymunedol a cynlluniau partneriaethu yn ffordd dda o gynnal darpariaeth | 3 |
| Sicrhau darpariaeth o gyfleusterau glân, diogel wedi eu cynnal yn briodol | 2 |
| Hanfodol cael darpariaeth yn agos i draethau mawr | 2 |
| Ni ddylid torri ar wasanaethau, o ystyried bod rhai yn talu premiwm 50% o dreth cyngor ar ail-gartrefi. Risg y bydd perchnogion yn newid eu ail gartrefi mewn i fusnesau | 2 |
| Angen sicrhau darpariaeth cyfleusterau hygyrch a newid babanod | 2 |
| Darpariaeth ddim yn lân mewn rhai lleoliadau | 1 |
| Tynnu arwyddion os mae'r toiledau wedi cau | 1 |

**Atodiad 5**

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd warchodedig).

## 1 Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

| |
|---|
| Strategaeth Toiledau Lleol |

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

**Strategaeth Toiledau Lleol**

Cafodd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 Gydsyniad Brenhinol ar 3 Gorffennaf 2017. Mae'r Ddeddf yn dod ag ystod o gamau gweithredu ymarferol ynghyd ar gyfer gwella a diogelu iechyd. Mae Rhan 8 y Ddeddf yn cyflwyno gwaith darparu toiledau, a strategaethau toiledau lleol yn benodol.

Nod Rhan 8 yw gwella'r modd y caiff y ddarpariaeth o doiledau sydd ar gael at ddefnydd y cyhoedd ei chynllunio, drwy sicrhau bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn asesu anghenion eu cymuned o ran toiledau, ac yna'n defnyddio dull strategol a thryloyw o ddiwallu'r angen hwnnw yn y modd gorau posibl.

Bwriedir y broses o ddatblygu'r strategaeth ei gwneud yn bosib i ni ystyried opsiynau ehangach sydd ar gael o ran darparu toiledau i'r cyhoedd, a mynd i'r afael â'r heriau presennol sy'n ymwneud â darparu'r cyfleusterau mewn cymunedau, a hynny gyda lleihad difrifol yng nghyllideb y gwasanaeth.

Wrth ddatblygu Strategaeth Toiledau Lleol ar gyfer Gwynedd, rydym yn ystyried yr effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr a'r gymuned ehangach. Mae'n debygol y bydd y strategaeth yn cael fwy o effaith ar rhai nodweddion gwarchodedig nac eraill, ond hyderwn ein

| |
|---|
| bod wedi rhoi ystyriaeth i hynny, a cheisio lliniaru effaith negyddol yn ein amcanion. |

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

| |
|---|
| Amanda Murray – Rheolwr Prosiect, Priffyrdd a Bwrdeistrefol |

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

| |
|---|
| Tachwedd 2018 - Cychwyn<br>Ebrill 2019 – Asesiad cyfredol |

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

| |
|---|
| Swyddogion Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol<br>Y Cyhoedd<br>Grwpiau gyda nodweddion gwarchodedig<br>Cynghorau Cymuned a Thref<br>Sefydliadau Trydydd Sector perthnasol<br>Sefydliadau Twristiaeth<br>Pwyllgor Craffu Cymunedau |

### 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda phobl hefo nodweddion gwarchodedig?

| |
|---|
| Fel rhan o Ymgynghoriad "Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi?" a Holiadur Toiledau Cyhoeddus ymgysylltwyd â:<br><br>Grŵp Hunan Adfocatiaeth<br>Cyngor Pobl Hŷn Gwynedd<br>Grŵp Craidd Cydraddoldeb sy'n cynrychioli'r grwpiau canlynol:<br>• Grŵp Ffoaduriaid;<br>• Cytûn;<br>• Grŵp Mynediad Meirionnydd;<br>• Cyngor Pobl Hŷn;<br>• Men's Sheds Caernarfon; |

- Hunaniaith;
- Bangor Indians and Friends Association;
- Unique Transgender Network;
- Council of Sign Sight Sound;
- Gwasanaeth Eiriolaeth Annibynnol Gogledd Cymru;
- Canolfan Cymorth Dioddefwyr;
- Canolfan Islamaidd Bangor

Grŵp LGBT+ GISDA

## 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

**Anabledd**

Roedd 38% o bobl sydd wedi datgan bod ganddynt anabledd o dan adran 6 (1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nad yw'r oriau agor toiledau cyhoeddus yn addas iddynt, o gymharu â 26% yn gyffredinol.

Roedd 16.7% o bobl sydd wedi datgan bod ganddynt anabledd o dan adran 6 (1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nad yw'r cyfleusterau yn hygyrch iddynt, o gymharu â 6.7% yn gyffredinol

Prif sylwadau o ran anabledd oedd:
Cyfleusterau ddim yn addas i drigolion sydd angen mynd i'r toiled yn aml.
Cyfleusterau ddim yn addas i drigolion gydag anableddau
Cyfleusterau ddim yn addas i drigolion sydd â chyflwr meddygol penodol e.e. bowel/pledren

**Oedran**

Yn holiadur Toiledau Cyhoeddus, nododd 8.9% o bobl o dan 25 oed nad ydynt 'Byth' yn defnyddio toiledau cyhoeddus o gymharu â 2.3% yn gyffredinol. Hefyd, nododd 13.3% o bobl o dan 25 oed eu bod yn defnyddio'r toiledau yn 'Ddyddiol' o gymharu â 17.3% yn gyffredinol.

Cyngor Pobl Hŷn Gwynedd
Mae Toiledau cyhoeddus yn un o wasanaethau mwyaf pwysig i'r grŵp yma. Nodwyd gan y grŵp fod angen digon o doiledau mewn mannau cyhoeddus er mwyn galluogi pobl hŷn i fynd allan a theithio â hyder.

**Beichiogrwydd a Mamolaeth**

Yn holiadur Toiledau Cyhoeddus, nododd 78% o ymatebwyr (gan eithrio'r rhai a oedd heb ateb ac wedi nodi nad oedd y cwestiwn yn berthnasol) nad yw cyfleusterau yn addas ar gyfer newid plant.

Mae'r asesiad o angen wedi adnabod nad oes gan nifer o doiledau cyhoeddus cyfleusterau newid babanod. Noder fod y rhaid sydd gyda chyfleusterau yn aml iawn yn fudr ac anaddas, yn o gystal â bod y tymheredd yn oer iawn ar gyfer newid babanod. Mae eraill yn nodi nad oes digon o le, enwedig wrth ystyried bod nifer fawr gyda phramiau. Hoffai eraill fwy o breifatrwydd wrth newid babanod, yn hytrach na mewn golwg defnyddwyr eraill.

**Cyfeiriadedd Rhywiol, Ailbennu Rhywedd**
Ymgynghorwyd â Grŵp LGBT+ GISDA. Nododd rhai bod angen i'r Cyngor ddarparu toiledau 'gender neutral' a bod y cyfleusterau ar hyn o bryd yn anaddas, yn fudr ac yn cau yn rhy gynnar.

**Crefydd neu Gred (neu ddiffyg Cred)**
Er nad oedd canlyniadau Holiadur Toiledau Cyhoeddus yn amlygu y byddai unrhyw effaith ar y nodwedd yma, mae'n werth nodi ein bod wedi ystyried bod rhai crefydd buasai defnyddio cyfleusterau amgen preifat yn gyfyngedig wrth ddefnyddio rhai sefydliadau (e.e. tafarnau) gall fod yn erbyn rhai crefydd neu gred.

## 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

**Anabledd**
Mae elusennau a mudiadau sy'n cynrychioli pobl anabl o'r farn bod toriadau i gyfleusterau cyhoeddus yn cael effaith niweidiol iawn o safbwynt y byddent yn cael eu rhwystro neu'n ofnus o fentro o'u cartrefi oherwydd diffyg cyfleusterau ar gael yn y gymuned. Gall rhai anhwylderau neu amhariadau wneud yr effaith yn waeth.

Yn ôl elusen crohn's & colitis uk mae gan o leiaf 300,000 o bobl yn y DU Clefyd Crohns neu Colitis Ulcerative, a adnabyddir fel 'Inflamatatory Bowel Disease' (IBD).

**Oedran**
Papur "Help the Aged": Ddim Unlle i fynd: Darpariaeth Cyfleusterau Cyhoeddus ym Mhrydain (Mai 2007) yn amlygu'r gost gymdeithasol i bobl hyn ar y lleihad mewn cyfleusterau cyhoeddus:

12% o bobl hyn (1.2 miliwn) yn teimlo yn gaeth i'w cartref, mae 13% o bobl hyn (1.26 miliwn) ddim yn mynd allan mwy nag unwaith yr wythnos ac o gwmpas 100,000 byth yn mynd allan.

Mae ei thystiolaeth yn awgrymu bod y diffyg mewn cyfleusterau cyhoeddus yn ffactor cyfrannol sylweddol i'r unigedd o bobl hyn, gyda mwy na hanner o bobl hyn yn teimlo bod diffyg cyfleusterau cyhoeddus lleol yn nadu iddynt fynd allan mor aml a dymunent.

## 2.5 Oes yna unrhyw flychau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Nid oes gwybodaeth benodol i Wynedd neu lefel daearyddol is am gyflyrau iechyd megis Crohns a Colitis, na am tueddiadau na galw ymwelwyr.

**3) Adnabod yr Effaith**

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar y nodweddion hyn? Mae croeso i chwi ychwanegu nodweddion eraill os ydych chi'n dymuno.**

| **Nodweddion** | **Sut fath o effaith? *** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Positif / negyddol / dim | Dim effaith |
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif / negyddol / dim | Dim effaith |
| **Anabledd** | Positif / negyddol / dim | Positif<br>Fel rhan o'r Strategaeth Toiledau Lleol, bydd y Cyngor yn:<br><br>Cynnal adolygiad o drefniadau glanhau, oriau agor, sy'n rhan o amcan o ddarpariaeth gyfleusterau glan, diogel a gynhelir yn briodol. Bydd hyn yn ymateb i bryderon safon glendid ac oriau agor anaddas.<br><br>Byddwn yn gweithio ar uchafu'r dewis o ddarpariaeth toiledau a'u hyrwyddo fel rhan o amcan 'Uchafu'r argaeledd toiledau drwy bartneriaeth gyda'r Cyngor a darpariaeth arall'.<br><br>Byddwn yn hysbysu lleoliadau a chyfleusterau sydd ar gael yn y toiledau yn amcan 'Hysbysebu a hyrwyddo gwybodaeth am ddarpariaeth toiledau drwy wefannau a chyfryngau eraill'.<br><br>Mae toiledau hygyrch newydd 'Changing Places' ar agor yng Ngorsaf Rheilffordd Eryri yng Nghaernarfon. Mae'r toiledau yn cynnwys, offer arbennig megis Hoist, cyfleusterau addas a lle ar gyfer newid person anabl. Am fwy o wybodaeth am doiledau 'Changing Places' ewch i:<br>http://www.changing-places.org/ |
| **Rhyw** | Positif / negyddol / dim | Nid ydym wedi adnabod unrhyw effaith ar hyn o bryd, oherwydd na fydd unrhyw newidiadau mawr yn cael ei gwneud i'r asedau sy'n bodoli.<br><br>Roedd rhai sylwadau yn Holiadur Toiledau Cyhoeddus yn nodi y byddai rhai yn gallu teimlo'n anghyffyrddus gyda |

| | | |
|---|---|---|
| | | rhannu toiledau gyda phobl o ryw wahanol. |
| **Oedran** | Positif / negyddol / dim | Fel rhan o'r Strategaeth Toiledau Lleol, bydd y Cyngor yn:<br><br>gweithio ar uchafu'r dewis o ddarpariaeth toiledau a'u hyrwyddo yn amcan 'Uchafu'r argaeledd toiledau drwy bartneriaeth gyda'r Cyngor a darpariaeth arall'.<br><br>Byddwn yn hysbysu lleoliadau a chyfleusterau sydd ar gael yn y toiledau yn amcan 'Hysbysu a hyrwyddo gwybodaeth am ddarpariaeth toiledau drwy wefannau a chyfryngau eraill'.<br><br>Bydd amcan 'Cyfleusterau sy'n hawdd dod o hyd iddynt gydag arwyddion cyfeirio da ac arwyddion gwybodaeth cyfleusterau unigol' yn rhoi ystyriaeth i sut allwn wella arwyddion a chyfeirio pobl tuag at y toiledau a'u gwneud yn haws i ddarganfod. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Positif / negyddol / dim | Nid ydym wedi adnabod unrhyw effaith ar hyn o bryd, oherwydd na fydd unrhyw newidiadau mawr yn cael ei gwneud i'r asedau sy'n bodoli. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Positif / negyddol / dim | Gyda rhai crefydd buasai defnyddio cyfleusterau amgen preifat yn gyfyngedig wrth ddefnyddio rhai sefydliadau (e.e. tafarnau) gall fod yn erbyn rhai crefydd neu gred. Er mwyn diwallu'r angen yma bydd y Strategaeth Toiledau Lleol yn:<br><br>Parhau i weithio gyda Chynghorau Cymuned a Thref a grwpiau a sefydliadau er mwyn sicrhau dewis eang o ddarpariaeth a chadw cynifer o doiledau cyhoeddus traddodiadol ar agor yn amcan 'Uchafu'r argaeledd toiledau drwy bartneriaeth gyda'r Cyngor a darpariaeth arall'. |
| **Ailbennu rhywedd** | Positif / negyddol / dim | Nid ydym wedi adnabod unrhyw effaith ar hyn o bryd, oherwydd na fydd unrhyw newidiadau mawr yn cael ei gwneud i'r asedau sy'n bodoli.<br><br>Mae'r Cyngor wrth gwrs yn cefnogi person trawsryweddol i ddefnyddio'r toiled y mae'n teimlo'r mwyaf cyffyrddus yn ei ddefnyddio, yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Positif / negyddol / dim | Mae rhieni a gwarcheidwad o fabanod a phlant ifanc angen gallu defnyddio cyfleusterau addas mewn cyfleusterau cyhoeddus merched a dynion wrth ymweld â mannau cyhoeddus ac yn aml ar fyr rybudd.<br><br>Mewn ymateb i bryder fod prinder o ran cyfleusterau a'u bod yn safon glanweithdra yn isel, bydd y Cyngor yn cynnal adolygiad o drefniadau glanhau, a chynnal awdit o'r nifer o fannau newid babanod yn amcan 'Darpariaeth o |

| | | |
|---|---|---|
| | | gyfleusterau glân, diogel wedi eu cynnal yn briodol'. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Positif / negyddol / dim | Dim effaith |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | A yw'n cael effaith?* | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Nac ydi | Nac ydi |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Oherwydd yr amcanion:<br>• Hysbysu a hyrwyddo gwybodaeth am ddarpariaeth toiledau drwy wefannau a chyfryngau eraill.<br>• Cyfleusterau sy'n hawdd dod o hyd iddynt gydag arwyddion cyfeirio da ac arwyddion gwybodaeth cyfleusterau unigol; |
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi | Mae'r amcan hyrwyddo yn cefnogi a meithrin perthnasau da wrth hysbysu yn well y cyfleusterau a'i lleoliadau ac oriau agor i alluogi pobl hyn fod yn fwy hyderus o fynd allan. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**4) Dadansoddi'r canlyniadau**

**4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Yn gyffredinol mae'r Strategaeth Toiledau Lleol am gael effaith bositif ar nodweddion cydraddoldeb a nodwyd yn rhan 3.1.<br><br>Bwriad y strategaeth yw ceisio gwella'r modd y caiff y ddarpariaeth o doiledau sydd ar gael at ddefnydd y cyhoedd ei ddarparu. Wrth ddatblygu'r strategaeth, mae'r Cyngor wedi asesu anghenion eu cymuned o ran toiledau, ac wedi defnyddio'r wybodaeth i gynnig 6 amcanion er mwyn ceisio diwallu'r angen hwnnw yn y modd gorau posibl o fewn y gyllideb, a ble mae'n briodol. |

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Na |

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |

**4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

| |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

| |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

**5) Monitro**

5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Fel rhan o'r Strategaeth bydd y Cyngor yn llunio ac yn cyhoeddi 'datganiad cynnydd interim' sy'n egluro'r camau y mae wedi eu cymryd yn unol â'i strategaeth.

Bydd y Cyngor yn adolygu'r strategaeth ac yn llunio datganiad cynnydd diwedd cyfnod cyn pen blwyddyn ar ôl pob etholiad llywodraeth leol arferol.

**ADRODDIAD I'R CABINET**
7 Mai 2019

| | |
|---|---|
| Aelod Cabinet: | Y Cynghorydd Ioan Thomas |
| Teitl: | **Cynllun y Cyngor - cais am adnoddau datblygu Technoleg i gefnogi Ffordd Gwynedd** |
| Pwrpas: | Prosiectau Cynllun y Cyngor 2018–2023:<br>Cais am gefnogaeth ariannol i ymdopi a chynnydd sylweddol yn y nifer o brosiectau datblygu systemau cyfrifiadurol yn deillio o ymarferiadau Ffordd Gwynedd, sydd i fod i wella gwasanaethau a gyflenwir i drigolion Gwynedd ac yn rhan o flaenoriaeth rhif 7 y Cyngor i "sicrhau fod y Cyngor cyfan yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud". |
| Swyddog Cyswllt: | Huw Ynyr, Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid |

## 1. Y penderfyniad a geisir

Gofynnir i'r Cabinet i gefnogi cais am £341,046 (tua £113,000 y flwyddyn am dair blynedd) o'r Gronfa Trawsffurfio i gwrdd â chynnydd sylweddol mewn galw i ddatblygu systemau cyfrifiadurol i wella gwasanaethau ar draws y Cyngor yn sgil darganfyddiadau ymarferion Ffordd Gwynedd.

## 2. Cefndir

Mae'r Uned Ddatblygu oddi fewn y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth yn datblygu systemau cyfrifiadurol ar gyfer holl wasanaethau'r Cyngor. Rhaid blaenoriaethu'r adnoddau datblygu a gwneir hynny ar sail rhestr o anghenion sydd wedi eu hadnabod yn dilyn ymarferion dadansoddi i sicrhau datblygiadau o safon uchel sy'n gwneud gwahaniaeth. Mae'r galw am gynnyrch yr uned yma'n hanesyddol uchel, ond yn ddiweddar, oherwydd llwyddiant ymarferion Ffordd Gwynedd, mae'r galw'n llawer uwch na'r gallu i gyflenwi.

Mae trefn blaenoriaethu a phanel blaenoriaethu yn eu lle, ond mae oedi cyn gellid gweithredu ar nifer o geisiadau clodwiw oherwydd gofynion gwaith anorfod a blaenoriaeth i ddatblygiadau eraill. Rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2018, datblygwyd 46% o'r ceisiadau a dderbyniwyd, gyda 54% yn cael eu gwrthod neu dal heb gael eu gwireddu. Ers Ebrill 2018, mae'r darlun wedi gwaethygu, gyda 26% o'r ceisiadau'n cael eu datblygu, tra bod dim adnodd i roi sylw i'r 74% arall.

Disgwylir i'r patrwm yma barhau, wrth i ymarferion Ffordd Gwynedd ddwysau a llwyddiannau prosiectau eraill ysgogi mwy o ddefnydd o dechnoleg, gyda golwg ar wella gwasanaethau'r Cyngor.

**3. Faint o arian ychwanegol fydd ei angen a pham na ellir cyflawni gyda'r adnoddau presennol sydd o fewn yr Adran?**

Gofynnwn am gefnogaeth i greu 3 swydd dechnegol newydd a hyn dros gyfnod a 3 blynedd. Byddai'r swyddi hyn i gyd ar raddfa S3 (28-31). Byddwn yn cychwyn drwy gyflwyno 2 ddatblygwr ac un swyddog isadeiledd ond byddwn hefyd yn cychwyn trefn o godi ffi am unrhyw ddarpariaeth newydd, fydd yn ei dro yn ein galluogi i hunan gyllido'r aelod ychwanegol yn y tîm isadeiledd. Fodd bynnag, mae angen yr adnodd yma'n syth gan bod y nifer helaeth o ddatblygiadau newydd sydd eisoes wedi digwydd yn rhoi straen aruthrol ar y tîm yma i gyflawni unrhyw ddarpariaeth newydd.

Erbyn yr ail flwyddyn, fe fydd y swydd isadeiledd a ychwanegwyd yn parhau, ond yn cael ei gyllido o gyfraniadau cwsmeriaid, sef adrannau'r Cyngor. Byddwn yn trosglwyddo'r arian ychwanegol i gyflogi 3ydd datblygwr, gan gynyddu ein capasiti i gefnogi'r Cyngor i wella gwasanaethau trwy gyflwyno technoleg i gefnogi darganfyddiadau ymarferion Ffordd Gwynedd.

Felly, wrth ariannu'r cyfanswm dros gyfnod o 3 blynedd o'r Gronfa Trawsffurfio, £341,046 fyddai cyfanswm y buddsoddiad.

**4. Beth yn union yr ydych am ei wneud gyda'r arian ychwanegol yr ydych yn ceisio amdano (hynny yw ar beth mae o am gael ei wario)?**

Byddai cyflwyno 3 swydd datblygwr yn cynyddu ein gallu i ymateb i geisiadau datblygu'n sylweddol, ond nid yn llwyr. Byddwn yn parhau i flaenoriaethu prosiectau, ond byddai'r buddsoddiad ychwanegol yn golygu cynnydd sylweddol ychwanegol i wireddu amcanion ymarferion Ffordd Gwynedd, yn hytrach na bod diffyg adnodd TG yn llesteirio'r cynnydd.

Er ein bod yn amlygu straen penodol ar y drefn datblygu, mae'r systemau sy'n cael eu datblygu wedi eu hadeiladu ar yr isadeiledd TG, sy'n cael eu sefydlu gan yr uned sy'n cefnogi'r rhwydwaith a'r gweinyddwyr ("servers"). Byddai cynnydd yn yr hyn sy'n cael ei ddatblygu yn golygu pwysau ychwanegol ar yr uned yma, ac mae'n angenrheidiol ein bod yn cynyddu capasiti yn yr ardal yma er mwyn cynnal y cynnydd fydd yn deillio o ychwanegu mwy o ddatrysiadau drwy ddefnydd o dechnoleg. Byddwn yn ariannu'r flwyddyn gyntaf gyda'r arian ychwanegol, ond wedyn yn tynnu cyfran bychan o gyfraniadau cytunedig o adrannau fydd yn elwa o'r datblygiadau newydd er mwyn cyllido'r swydd.

Yn y gorffennol, mae'r Gwasanaeth TG wedi hysbysebu am ddatblygwyr dros dro neu ddatblygwyr dan hyfforddiant. Yn anffodus, oherwydd grym y farchnad gyflogaeth, nid ydym yn gallu cadw gafael ar yr unigolion hyn, gan eu bod yn ei weld fel cyfle am brofiad cyn symud am gyfleoedd gwell. Yn ogystal â cholli'r unigolion hyn ar ôl cyfnod, bu ymdrech sylweddol a buddsoddiad o hyfforddi technegol yn mynd yn ofer.

Felly, er gofynnir am gefnogaeth dros gyfnod o 3 blynedd, byddwn yn trefnu cyflogaeth barhaol, gan ragdybio bydd opsiynau amgen i gynnal y staff newydd erbyn blwyddyn 4 (ffynhonnell adnoddau ychwanegol, neu drosiant staff – sy'n anochel yn y maes). Byddwn hefyd yn diogelu ein buddsoddiad drwy gryfhau'r cytundeb cyflogaeth i hawlio unrhyw fuddsoddiad hyfforddi yn ôl pe byddai'r aelod newydd o staff yn gadael yn fuan.

**5. Beth mae'r buddsoddiad ychwanegol yn debygol o'i gyflawni a'r gwahaniaeth y mae'n debygol o'i wneud?**

Mae nifer cynyddol o ymarferion Ffordd Gwynedd yn adnabod bod angen defnydd o dechnoleg i wella gwasanaethau'r Cyngor. Gall rhain fod ar ffurf sawl datrysiad, naill ai defnydd gwell o dechnoleg sy'n bodoli'n barod, neu'r angen i deilwra datrysiad penodol ar gyfer y gwasanaeth.

Yn aml, oherwydd natur Ffordd Gwynedd a'r egwyddor o roi pobl Gwynedd yn ganolog, mae'r datrysiadau'n unigryw ac angen eu teilwra'n bwrpasol, yn unol â darganfyddiadau'r ymarferion, gan arwain at greu systemau cyfrifiadurol newydd.

Byddai'r buddsoddiad ychwanegol gofynnir amdano yma'n golygu bod y Gwasanaeth TG yn gallu gwrthdroi'r tueddiad negyddol presennol o fethu ymateb i geisiadau am systemau newydd.

**6. Pa dystiolaeth sydd gennym sy'n awgrymu neu gadarnhau fod y camau y bwriedir eu cymryd yr opsiwn gorau er mwyn ymateb i'r mater dan sylw?**

Mae rhwystredigaeth gynyddol yn cael ei arddangos yn holiaduron barn cwsmeriaid y Gwasanaeth TG ar gyfer y gwaith datblygu sy'n cael ei gyflawni.

Nid y safon sydd dan sylw, na chywirdeb y systemau yn erbyn yr anghenion, yn hytrach yr amser mae'n cymryd i gais fynd ymlaen i gael ei ddatblygu, os o gwbl mewn rhai amgylchiadau.

Mae'r rhaglen waith a'r rhestr aros hefyd yn dystiolaeth o'r angen, ac yn adlewyrchu'r hyn mae'r Gwasanaeth TG yn clywed gan ei cwsmeriaid.

Yn fwy aml na pheidio, does yna ddim system parod yn bodoli ar gyfer diwallu'r anghenion a ddaw o ymarferion Ffordd Gwynedd. Felly, yr unig ffordd i ymateb yn bositif i'r darganfyddiadau yw drwy ddarparu datrysiad penodol. Er mwyn cwrdd â'r cynnydd hyn, mae angen cryfhau nifer yr adnoddau.

## 7. Casgliad

Byddai'r ariannu 3 swydd dechnegol newydd o'r Gronfa Trawsffurfio yn cryfhau gallu'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth i ymateb i anghenion gwasanaethau ar draws y Cyngor yn sgil darganfyddiadau ymarferion Ffordd Gwynedd.

Byddai'r adnoddau ychwanegol yn galluogi'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth i ddatblygu a llwyfanu systemau cyfrifiadurol yn amserol pryd daw ceisiadau penodol i law wedi ymarferion Ffordd Gwynedd.

Byddai hyn yn cynorthwyo i wella gwasanaethau ar draws y Cyngor drwy gyflwyno systemau cyfrifiadurol penodol ac addas i bwrpas.

## 8. Camau nesaf

Byddai penderfyniad cadarnhaol yn ein galluogi i fynd i'r farchnad gyflogaeth i hysbysebu'r swyddi gan ddenu adnoddau ychwaengol oddi fewn y misoedd nesaf.

---

**Barn yr Aelod Lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Swyddog Monitro**:
Mae'r adroddiad yn rhoi esboniad priodol o'r hyn sydd yn cael ei geisio, yr amcanion a deilliannau sydd i'w disgwyl.

**Swyddog Cyllid Statudol**:
Bydd nifer o geisiadau haeddiannol yn deillio o Gynllun y Cyngor yn cystadlu am adnoddau prin o'r Gronfa Trawsffurfio. Mater i aelodau'r Cabinet fydd blaenoriaethu'r ceisiadau sy'n gwneud gwahaniaeth wrth ddyrannu adnoddau o'r Gronfa. Cadarnhaf fod darpariaeth ddigonol i ariannu'r cynlluniau sydd wedi'u cyflwyno i'r Cabinet, a bod arian pellach ar gael o'r Gronfa ar gyfer rhai prosiectau fydd yn cyrraedd cyfarfodydd dilynol o'r Cabinet am gymeradwyaeth.

Eitem 8

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **7 Mai 2019** |
| **Aelod Cabinet:** | **Cynghorydd Nia Jeffreys** |
| **Swyddog:** | **Iwan Evans – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol** |
| **Awdur** | **Siôn Huws – Uwch Gyfreithiwr** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Trefniadau Tâl Crwner** |

**Testun: Trefniadau Tâl Crwner**

## 1. Yr Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad:

(1) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, mewn ymgynghoriad â Phennaeth yr Adran Gyllid, i gytuno ar drefniadau i dalu cyflog i'r Uwch Grwner, a ffi i'r Crwner Cynorthwyol

## 2. Y rheswm pam mae angen penderfyniad:

2.1 Awdurdodwyd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol gan yr Aelod Cabinet i gytuno ar drefniadau cyflog newydd gyda'r Uwch Grwner ar sail Cylchlythyrau 61 a 62 JNC. Yn dilyn trafodaethau gyda'r Uwch Grwner, cytunwyd ar ddull sy'n wahanol i rai agweddau sydd wedi'u gosod yn y Cylchlythyrau.

## 3. Cefndir Cyffredinol

3.1 Mae Cymru a Lloegr wedi'u rhannu i ardaloedd crwner, gyda'r awdurdodau lleol perthnasol yn ariannu'r gwasanaethau unigol. Mae gan bob ardal un Uwch Grwner ac o leiaf un Crwner Cynorthwyol, sy'n ymdrin ag achosion pan nad yw'r Uwch Grwner ar gael, neu ar adegau eraill gyda chytundeb yr Uwch Grwner. Er bod pob Crwner yn cael ei benodi a'i dalu gan awdurdodau lleol, nid yw'r Crwner yn Swyddog Llywodraeth Leol, ond mae'n dal ei swydd o dan y Goron.

3.2 Mae Ardal Crwner Gogledd Orllewin Cymru yn cynnwys Gwynedd a Môn, ac ariennir y gwasanaeth ar y cyd â Chyngor Ynys Môn. Fodd bynnag, Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod arweiniol. Gwasanaethir yr ardal hon gan Uwch Grwner rhan-amser, Dewi Pritchard Jones, ac un Crwner Cynorthwyol (swydd wag ar hyn o bryd).

**4. Trefniadau Tâl - Ystyriaethau Perthnasol**

4.1 Mae Deddf y Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 yn darparu bod gan uwch grwneriaid hawl i gyflog, tra telir ffi i grwneriaid cynorthwyol. Mae gan Uwch Grwneriaid hawl i bensiwn llywodraeth leol hefyd. Er bod y rhain yn fater i bob Uwch Grwner a Chrwner Cynorthwyol gytuno gyda'i awdurdod lleol perthnasol, yn ymarferol, mae graddfeydd tâl wedi cael eu negodi gan Gyd-bwyllgor Negodi (JNC) y Gymdeithas Llywodraeth Leol. Mae'r JNC yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Gymdeithas Llywodraeth Leol ar yr ochr reoli ac o'r Gymdeithas Crwneriaid.

4.2 Gan fod Deddf 2009 wedi dod â newidiadau mawr i strwythur y gwasanaeth crwner, roedd angen sail newydd ar gyfer talu'r uwch grwneriaid ynghyd â'r crwneriaid cynorthwyol. Yn dilyn trafodaethau hirfaith, cyhoeddwyd canllaw tâl newydd yng Nghylchlythyrau 61 a 62, a oedd yn disodli Cylchlythyr 51, sef sail y trefniadau cyfredol. Mae'r canllaw newydd yn datgan:

Uwch Grwneriaid Rhan-amser

- Cyflog sylfaenol o £20,000 (gan gynnwys gwaith 'y tu allan i oriau' statudol)
- Taliadau ar gyfer bob diwrnod a weithir - cyfradd ddyddiol rhwng £440 a £500, yn ddibynnol ar gymhlethdod yr ardal
- Rhoddir cap ar enillion ar lefel uwch grwner llawn-amser mewn ardal yr un mor gymhleth (£117,000 - £130,000)
- Diddymir y lwfans pensiwn cyfredol o 5.5%
- Diddymu'r ychwanegiad ardal (*'county loading'*)

Crwneriaid Cynorthwyol

- Tâl am y gwaith a wneir
- Cyfradd ddyddiol rhwng £375 a £454, yn ddibynnol ar gymhlethdod yr ardal
- Dwy raddfa, yn dibynnu ar gymhlethdod yr achosion

Tâl Cwest Hir (tâl am gwestau sy'n para mwy na diwrnod)

- Diddymwyd

**5. Canlyniad y trafodaethau gyda'r Uwch Grwner**

5.1 Mae Cylchlythyr 62 yn datgan bod lefel y tâl i'w bennu yn lleol, yn unol â chymhlethdod ardal y crwner, ac mae'n nodi ffactorau i gynnal y fath asesiad. Y ffactorau a nodir yn y Cylchlythyr yw carchardai neu ddalfeydd gwladol eraill, unedau iechyd meddwl, ac ysbytai â meysydd arbenigedd a chymhlethdod yn natur y baich achosion.

5.2 Nid yw'r ffactorau hyn yn bresennol yn ardal Gogledd Orllewin Cymru. Felly, ystyrir i'r ardal fod ym mhegwn isaf y raddfa, lle mai £440 fyddai'r gyfradd ddyddiol addas. Fodd bynnag, mae'r ardal yn cynnwys porthladd rhyngwladol yng Nghaergybi. Ystyriwn fod hyn yn gyfwerth â ffactor lleol neilltuol y dylid ei gymryd i ystyriaeth. O gofio ei faint cymharol, credwn fod cyfradd ddyddiol o £452 yn briodol.

5.3 Yn dilyn trafodaethau gyda'r Uwch Grwner, daethpwyd i gytundeb a fyddai'n golygu y byddai'r sail y'i telir arni yn wahanol i'r dull a osodwyd yn y Cylchlythyr. Y dull a gymerwyd oedd asesu nifer tebygol y dyddiau y disgwylir i'r Uwch Grwner weithio bob blwyddyn, a throsi hynny i ffigwr blynyddol a fydd hefyd yn cynnwys yr elfen cyflog sylfaenol o £20,000. Byddai'r dull hwn yn gofyn am adolygiad cyfnodol i wirio ei fod yn adlewyrchu lefel yr achosion yn gywir.

5.4 Er mwyn hysbysu'r swydd ochr reolaethol mewn trafodaethau tâl cenedlaethol, cynhaliodd y CLIL arolwg o'r awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am dâl crwneriaid. Dengys y canlyniadau, o'r saith awdurdod gyda chrwner rhan-amser a ymatebodd, bod pedwar wedi dewis dilyn y dull penodol hwn. Mae CLIL o'r farn mai dyma'r dull rhesymol, yn amodol ar yr angen am adolygiad cyfnodol.

<u>Elfen Tâl Sefydlog</u>

5.5 Mae'r cyflog sefydlog o £20,000 yn cynnwys yr angen i fod ar gael bob amser, er gwaethaf y ffaith fod y swydd yn rhan-amser mewn egwyddor, ac mae'n cynnwys gwaith y tu allan i oriau statudol yn ogystal â gwyliau blynyddol a thâl salwch

<u>Elfen Cyfradd Ddyddiol</u>

5.6 Mae cyfartaledd y llwyth achosion yn ardal Gogledd Orllewin Cymru yn parhau i aros yr un fath ar oddeutu 1,000. Dyma hanner nifer yr achosion a gydnabyddir yn gyffredinol fel y trothwy ar gyfer penodi crwner llawn-amser.

5.7 Os mai nifer y dyddiau gwaith (h.y. wedi tynnu penwythnosau, gwyliau banc a hawl i wyliau blynyddol) a ddisgwylir gan Uwch Grwner llawn-amser yw 220 diwrnod y flwyddyn, yna disgwylir i Grwner, yn yr ardal hon, ymroi hanner y

dyddiau hynny, h.y. 110 diwrnod, i fusnes y Crwner. Byddai hyn gyfwerth â 2.5 diwrnod yr wythnos.

Byddai hyn yn arwain at y cyfrifiad a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Ffigwr cyfradd ddyddiol o 110 diwrnod ar £452 wedi'i drosi | £49,720 |
| Elfen Tâl Sefydlog | £20,000 |
| Cyfanswm | **£69,720** |

5.8 Byddai'r dull hwn yn darparu uchafrif ar wariant ar sail asesiad realistig o lwyth gwaith y Crwner. Ar y llaw arall, ni fyddai talu cyfradd ddyddiol ar sail y gwaith a ymgymerir (fel yr argymhellir yn y Cylchlythyrau) yn rhoi unrhyw sicrwydd neu reolaeth ariannol ar wahân i gap cyffredinol, sef £119,600 yn yr achos hwn.

5.9 Cynhelir adolygiad blynyddol o'r sefyllfa i ystyried a yw'r trefniadau'n adlewyrchu lefel y llwyth achosion yn gywir. Bydd unrhyw newidiadau ar sail y fath dystiolaeth yn seiliedig ar foddhad gofynion rheolaeth ofalus arian cyhoeddus.

5.10 Mae Cylchlythyr 63, a gyhoeddwyd ar 28 Tachwedd 2018, yn gosod cyfraddau diwygiedig a fydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2019 ac ar 1 Ebrill 2020. Cynyddir y cyfraddau yn unol â'r darpariaethau hyn.

Ôl-daliadau

5.11 Gan fod y Cylchlythyr wedi bod mewn lle am gryn amser, ystyrir yn rhesymol y byddai ôl-daliadau yn cael eu hymestyn i 1 Ebrill 2018.

**6. Y Crwner Cynorthwyol**

6.1 O dan y Ddeddf, mae gan Grwner Cynorthwyol hawl i ffioedd, gyda'r swm i'w gytuno o dro i dro gan y Crwner Cynorthwyol a'r awdurdod perthnasol. Bydd ein dull arfaethedig fel a ganlyn:

6.2 Ar y sail y dylai fod cydberthynas rhwng tâl Uwch Grwner a'r gyfradd ddyddiol ar gyfer Crwneriaid Cynorthwyol sy'n gweithio yn yr un ardal, mae'r un dull yn cael ei ddefnyddio ar gyfer asesiad o ffactorau lleol sy'n effeithio ar gymhlethdod. O ganlyniad, £390 fydd y gyfradd ddyddiol ar gyfer y Crwner Cynorthwyol.

6.3 Bydd uchafswm nifer o ddyddiau blynyddol y bydd y Crwner Cynorthwyol yn gweithio yn absenoldeb yr Uwch Grwner yn cael ei gytuno gyda'r Uwch Grwner. Bydd hyn yn seiliedig ar yr angen i weithio yn absenoldeb yr Uwch Grwner a'r llwyth achosion a ragwelir. Os yw'r Uwch Grwner yn credu yr eir uwchben y ffigwr hwn mewn unrhyw flwyddyn, bydd yn hysbysu'r awdurdod lleol cyn gynted ag y bo

modd. Rhaid cytuno ymlaen llaw gyda'r awdurdod lleol ar unrhyw gynnydd yn nifer y dyddiau uwchben yr uchafswm.

6.4 Pan nad yw'r Uwch Grwner ar gael, byddai'r Crwner Cynorthwyol yn gyfrifol am weithio y tu allan i oriau a bydd yn cael ei dalu/ei thalu ar yr un gyfradd. Er nad oes darpariaeth ar ei gyfer yn y cylchlythyrau, teimlir y dylid cael cydnabyddiaeth o'r angen i'r Crwner Cynorthwyol fod ar gael bob amser ar yr adegau hyn. I'r perwyl hwn, gellir ychwanegu lwfans ar alwad i drefniant tâl y Crwner Cynorthwyol. Bydd y rhain ar sail trefniadau cyfredol Cyngor Gwynedd i fod 'ar alwad'. Byddant yn cael eu cytuno ar gyfer bod ar alwad ar gyfnodau pan fydd yr Uwch Grwner ar wyliau blynyddol swyddogol. Os bydd angen eu galw allan, bydd hyn ar y cyfraddau sydd wedi'u cynnwys yn y Cylchlythyr.

**7. Barn Cyngor Sir Ynys Môn**

7.1 Trafodwyd y cynlluniau gyda Chyngor Sir Ynys Môn ar lefel swyddog, ac nid oedd ganddynt unrhyw wrthwynebiad. Byddwn yn parhau i gyfathrebu gyda'r awdurdod wrth i'r cynlluniau symud yn eu blaenau.

**8. Unrhyw ymgynghoriadau a wnaed cyn gwneud Penderfyniad:**

Swyddog Monitro -

Paratowyd yr adroddiad gan y Gwasanaethau Cyfreithiol.

Pennaeth Cyllid –

Tra mae costau eraill ynghlwm â cwestau marwolaethau yn gallu bod yn sylweddol ac anodd i’w amcangyfrif yn flynyddol, cadarnhaf fod cyllideb briodol mewn lle ar gyfer talu cyflog y Crwner a’r Crwner Cynorthwyol (gyda Chyngor Ynys Môn yn cyfrannu 36.9%). Rwy’n cefnogi’r argymhelliad gerbron, a’r egwyddor o dalu ffi blynyddol, yn hytrach na ffi dyddiol, ac i adolygu hynny ar ôl cyfnod addas.

**Dogfennau Cefndir**

JNC – for Coroners Cylchlythyrau 61 a 62

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod y Cabinet**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **7 Mai 2019** |
| **Adroddiad gan:** | **Dilwyn Williams, Prif Weithredwr** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Adolygiad Rheolaethol** |

**Penderfyniad a geisir**

(a) Yn amodol i (b) isod, cytuno gydag asesiad y Prif Weithredwr fod y strwythur rheolaethol a ddangosir yn Atodiadau 1 i 10 yn addas i bwrpas.

(b) Cytuno i leihau'r nifer uwch swyddi o fewn y Cyngor o 40 i 36 fel y nodir yng nghymalau 61-64 yr adroddiad gan arbed rhwng £297,000 a £313,000 yn flynyddol gan nodi drwy wneud hynny, y byddwn yn dod a chyfanswm yr arbedion mewn costau uwch reolaethol a wireddwyd ers 2014 i dros £1m;

(c) Gan nodi'r gofynion ym mharagraff 95 o'r adroddiad, cytuno i ymgorffori Ymgynghoriaeth Gwynedd o fewn yr Adran Amgylchedd ac i greu Adran Tai ac Eiddo newydd er mwyn ein galluogi i roi mwy o ffocws ar gyflawni ein Strategaeth Tai.

(ch) Nodi'r man newidiadau pellach y bwriedir eu gweithredu fel y'u hamlinellir yng nghymalau 76-88 yr adroddiad.

(d) Dirprywo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanethau Cyfreithiol addasu Cynllun Dirprwyo'r Cyngor i adlewyrchu'r newidiadau wrth iddynt ddod yn weithredol.

**Cefndir**

1. Yn mis Mai'r llynedd, fe benderfynodd y Cabinet gomisiynu adolygiad o haenau rheolaethol o fewn y Cyngor er mwyn sicrhau fod ein trefniadau rheolaethol yn addas at bwrpas.

2. Roedd hyn yn deillio o gwestiwn oedd yn cael ei ofyn i mi ynglŷn â'r potensial, yn wyneb yr hinsawdd ariannol bresennol, i leihau'r nifer rheolwyr sydd gennym.

3. Mae'n hanfodol ein bod yn cadw llygad barhaus er mwyn sicrhau nad oes gennym ormod o reolwyr, yn enwedig felly ar adeg pan rydym yn wynebu hinsawdd ariannol heriol. Ar y llaw arall, rhaid hefyd bod yn fyw i'r ffaith ein

bod yn hollol ddibynnol ar reolwyr da i arwain ein staff drwy'r sefyllfa anodd yr ydym yn ei wynebu.

4. Er mai swyddogaeth y Prif Weithredwr yw cyflwyno adroddiad i'r Cabinet ar y strwythur staffio sydd ei angen i gyflawni'r swyddogaethau y mae disgwyl i'r Cyngor eu cyflawni, mater i'r Cabinet wedyn yw derbyn ei argymhellion neu beidio.

5. Fel rhan o'r broses o lunio adroddiad o'r fath, bu i mi gynnal sesiynau gyda Phenaethiaid Adran, er mwyn herio'r trefniadau presennol. Er mwyn sicrhau fod aelodau'n cael cyfle i glywed y gwahanol ddadleuon, a chael cyfle eu hunain i herio a gofyn unrhyw gwestiynau sy'n eu taro ar adrannau unigol, fe wahoddwyd yr aelodau Cabinet a Chadeiryddion ac Is Gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu i'r sesiynau herio hynny.

6. Cyn cynnal unrhyw adolygiad mae gofyn i ni fod yn glir ynglŷn â'r egwyddorion fydd yn gosod sylfaen ar gyfer yr adolygiad hwnnw.

7. Mae ein strwythur rheolaethol presennol wedi esblygu o'r hyn a roddwyd yn ei le yn 1996. Mae'n gyfuniad o syniadau Penaethiaid o strwythur addas a phwy sydd gennym i gyflawni rolau penodol.

8. Mae yna gryfder i'r drefn yma wrth gwrs gan ein bod yn adeiladu strwythur o gwmpas y deunydd crai sydd gennym.

9. Fodd bynnag, mae Rhaglen Ffordd Gwynedd wedi amlygu'r angen i fod yn gliriach ynglŷn â rolau swyddi penodol o fewn y sefydliad, a hynny'n seiliedig ar egwyddorion Ffordd Gwynedd, gan sicrhau fod holl strwythur y Cyngor yn gyson gyda'r egwyddorion hynny.

10. Mae Ffordd Gwynedd wedi amlygu rôl gyda phwyslais gwahanol ac aeddfetach ar gyfer ein rheolwyr - sef un o arwain yn hytrach na "chadw rheolaeth". Yn wir, mae yna ddiwrnod cyfan o'r cwrs datblygu Ffordd Gwynedd i reolwyr yn canolbwyntio ar yr elfen yma.


11. Yn sgil hyn, 'rydym wedi llunio swydd-ddisgrifiad generic newydd ar gyfer rheolwyr sy'n amlygu'r hyn y byddai gweithredu mewn modd sy'n gyson a Ffordd Gwynedd yn ei olygu iddynt. Rhoddir copi o'r swydd ddisgrifiad honno yn Atodiad A.

12. Ychydig iawn o'r swydd ddisgrifiad yma sy'n ymwneud a "chadw rheolaeth " a gellir gweld fod y prif ffocws yn ymwneud ag arwain, grymuso ac arfogi yn ogystal â chyflawni.

13. O ddilyn egwyddorion Ffordd Gwynedd, mae timau gwasanaeth a'u rheolwyr felly yn gyfrifol am gyflawni'r hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd a dim ond un swyddogaeth arall sydd yna wedyn, sef Pennaeth Adran sy'n arwain grŵp o reolwyr gwasanaeth. Rhoddir copi o'r swydd ddisgrifiad honno yn Atodiad B.

14. Tra gellir crynhoi holl weithgaredd gweithwyr y Cyngor felly i 3 swyddogaeth sylfaenol (Aelod Staff ; Rheolwr; Pennaeth Adran), mae gennym 5 math o swydd. Yma a thraw, mae gennym hefyd Arweinyddion Tîm (sy'n gyfrifol am gynorthwyo Rheolwr i gyflawni ei swyddogaeth); a Phennaeth Cynorthwyol (sy'n gyfrifol am gynorthwyo Pennaeth i gyflawni ei swyddogaeth).

15. Dangosir hyn yn y darlun isod.




16. Uwchben hyn wrth gwrs mae yna swydd Prif Weithredwr a 2 Gyfarwyddwr Cynorthwyol sydd i bob pwrpas yn ymddwyn fel Prif Weithredwyr cynorthwyol (hynny yw cynorthwyo'r Prif Weithredwr i gyflawni ei rôl ef neu hi).

**Sefydlu'r llinell sylfaen**

17. Wrth i mi weld y darluniau cychwynnol o strwythurau adrannol, daeth yn amlwg i mi fod y nifer swyddi oedd yn dwyn y teitl "rheolwr" wedi esblygu dros amser, fel bod gennym unigolion oedd yn cael eu galw yn rheolwyr ond nad oeddent yn arddel y swydd ddisgrifad a nodir yn Atodiad A.

18. Ar ben hynny roedd gennym res o "Uwch Reolwyr" lle nad oedd yn hollol glir a oeddent yn arddel rôl rheolwr fel y'i nodir yn Atodiad A, neu'r rôl

Pennaeth Cynorthwyol (sef cynorthwyo'r Pennaeth i arddel y rôl a nodir yn Atodiad B).

19. Roedd y darluniau cychwynnol a gefais yn dangos fod gennym strwythur yn y Cyngor oedd yn edrych fel a ganlyn –




20. O'r uchod fe welir roedd gennym 235 o swyddi gyda'r gair "rheolwr" yn eu teitl - ac felly doedd yna ddim rhyfedd fod yna rai yn meddwl fod gennym ormod o reolwyr.


21. Mewn gwirionedd, nid oedd nifer o rhain yn arddel rôl "rheolwr" (fel y'i diffinnir yn y swydd ddisgrifiad generic rydym wedi datblygu). 'Roedd y teitl "rheolwr" wedi'i roi i'r swyddi yma'n aml am eu bod yn gyfrifol am system, neu brosiect, neu rywbeth arall, yn hytrach nag **arwain** tîm o bobl i ddarparu gwasanaeth penodol fel y nodir yn y swydd ddisgrifiad.

22. Drwy wneud y gwaith herio felly 'rydym bellach wedi newid teitlau nifer o swyddi i wneud yn glir nad rheolwyr yn unol â'r diffiniad newydd yw'r swyddi hynny. Yn sgil hynny, 'rydym wedi sefydlu'r darluniau adrannol diwygiedig sydd yn ymddangos yn Atodiadau 1 i 10.

23. Hon yw'r gwir sefyllfa bresennol.

24. Mae'r darluniau yma hefyd yn gwahaniaethu rhwng yr "uwch reolwyr" hynny sy'n arddel rôl "rheolwr" a'r rhai sy'n arddel rôl Pennaeth Cynorthwyol.

25. Golyga hynny bod y darlun wedi newid fel y dangosir isod.-




26. Dylid nodi mai ychydig iawn o reolwyr "llawn amser" sydd gennym yng Nghyngor Gwynedd - hynny yw, unigolion sydd ddim ond yn gwneud gwaith "rheoli". Yn y mwyafrif llethol o achosion, yn ogystal ag arwain y tîm yn unol â gofynion generig swydd ddisgrifiad rheolwr, maent hefyd yn cyflawni gwaith penodol o fewn y tîm.

27. Mewn unrhyw strwythur mae angen i ni hefyd sicrhau cyfleoedd digonol i'n staff gorau ddatblygu a chael dyrchafiad. Heb y cyfleoedd hynny o fewn Cyngor Gwynedd, byddem yn gweld ein staff gorau yn symud i gynghorau eraill (fyddai'n falch o'u cael). Hynny yw, tydi lleihau'r nifer swyddi rheolwyr ddim bob tro yn beth da - yn enwedig os ydynt yn cyflawni swyddogaethau penodol hefyd o fewn y tîm.

28. Ystyriaeth bellach yng nghyd-destun Ffordd Gwynedd yw'r disgwyliad i reolwyr fod yn y gwaith ac yn fyw i'r hyn sydd yn digwydd yno. Os yw'r swyddogaeth rheolwr yn cael ei gyflawni ar lefel rhy uchel, yna mae'r gallu i reoli'n effeithiol yn cael ei wanio, a hynny'n llesteirio ein gallu i weithredu yn unol ag egwyddorion Ffordd Gwynedd.

29. Mae yna enghreifftiau lle mae hynny wedi digwydd eisoes o fewn y Cyngor. Yn fy marn i, mewn ambell le, bu llesteiriad yn ein gallu i gyflawni'r gwasanaeth gorau i drigolion oherwydd diffyg dealltwriaeth go iawn gan ein rheolwyr o beth sydd yn mynd ymlaen o fewn eu gwasanaeth.

**Casgliadau o ran addasrwydd ein strwythur rheolwyr.**

30. Fel cam cyntaf, yn amlwg rydym nawr yn gliriach ynglyn a phwy yn union sy'n arddel rôl rheolwr a phwy sydd ddim. Fel nodwyd yng nghymal 25

uchod, drwy fod yn gliriach ynglyn a hynny , rydym hefyd yn glir mai 111 o reolwyr sydd gennym o fewn y Cyngor, yn hytrach na'r 205 o bobl oedd yn cael eu galw'n 'reolwyr' yn flaenorol.

31. Wrth gwrs, bod yn glir ynglyn â swyddogaethau sydd wedi arwain at y lleihad yma, nid lleihau'r nifer staff. Mae'r unigolion nad ydynt bellach yn cael eu dynodi'n rheolwyr yn parhau i wneud gwaith allweddol a phwysig i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd.

32. Felly , o edrych ar y darluniau diwygiedig sydd yn Atodiad 1 i 10, ar y cyfan, o gofio bod y Cyngor yn fusnes sy'n gwario £430m y flwyddyn, a chan ystyried y swyddogaethau gwahanol y mae pob rheolwr yn ei arwain, 'rwyf o'r farn fod y strwythur o 111 o reolwyr yn addas ac yn briodol ac nad oes achos dros orfodi lleihad pellach ar adrannau.

33. Yn fy marn i, byddai'r niwed allasai godi o wneud hynny yn fwy na'r budd ariannol y byddai modd ei gyflawni drwy weithredu felly.

34. Wrth drafod hynny gydag aelodau'r Fforwm Craffu, 'roeddent i weld yn cytuno gyda'r asesiad hynny.

35. Yn union fel ag y maent wedi bod yn ei wneud dros y blynyddoedd a fu, bydd Penaethiaid Adran yn parhau i adolygu'r sefyllfa yn barhaus gan fod yn fyw i unrhyw gyfleon allasai godi i wireddu arbedion effeithlonrwydd pellach i'r dyfodol.

36. O fewn yr Aran Priffyrdd a Bwrdeistrefol a'r Adran Oedolion, mae yna enghreifftiau o hyd lle mae yna sefyllfa lle gwelir rheolwr yn adrodd i reolwr arall ac nid yw hyn yn gyson gydag egwyddorion Ffordd Gwynedd a'r swydd ddisgrifiad sydd yn Atodiad A. Rwyf yn trafod y sefyllfaoedd hynny gyda'r Penaethiaid dan sylw er mwyn eu datrys. Mater o sefydlu i bwy y dylent adrodd ydyw yn fwy na'r angen am reolwr yn y lle cyntaf.

**Addasrwydd y strwythur Rheolaethol Uwch Swyddogion**

**Gwybodaeth gymharol**

37. Nid gwybodaeth gymharol ddylai yrru strwythur ein uwch swyddogion o fewn y Cyngor. Mae ein hegwyddorion gweithredu yn wahanol i nifer o gynghorau oherwydd esblygiad Ffordd Gwynedd, ac oherwydd hynny mae gwneud cymariaethau ystyrlon yn gallu bod yn gamarweiniol.

38. Mae'r ffaith fod strwythurau a swyddogaethau swyddi mewn cynghorau eraill mor wahanol hefyd yn gwneud cymhariaeth synhwyrol yn anodd heb

wybodaeth fanwl, ac yn anffodus mae dod o hyd i'r wybodaeth fanwl hwnnw yn anodd dros ben.

39. Serch hynny, 'rwyf wedi derbyn rhestr arwynebol o strwythurau ar lefel Pennaeth neu uwch o fewn cynghorau ar draws Cymru.

40. Tra bod gennym 12 swydd Prif Weithredwr/ Cyfarwyddwr/ Pennaeth yng Ngwynedd, nodir fod yna ystod o rhwng 6 a 25 o swyddi o'r fath ymysg yr awdurdodau eraill yng Nghymru.

41. Dim ond 5 Cyngor arall sydd gyda llai o swyddi uwch swyddogion na 12 Gwynedd (6, 9 , 10 a 2 x11), gyda 3 Cyngor pellach gyda Gwynedd ar 12.

42. Wedi dweud hynny rhaid bod yn ofalus iawn gyda'r gymhariaeth. Er enghraifft, mae yna un cyngor gyda 25 swydd o'r fath, ond ai talu mwy i'w uwch reolwyr y maent ? Tybed os oes gan y Cyngor gyda 6 (honedig) o uwch swyddogion fwy o benaethiaid cynorthwyol na ni? Beth yw natur perfformiad y cynghorau hyn ?

43. Nid nifer Penaethiaid yw'r gwir fesur o uwch swyddogion wrth gwrs. Yn fy marn i mae angen ystyried cyfanswm yr uwch swyddogion, ond nid yw'r wybodaeth hwnnw ar gael ar lefel digon manwl i fedru gwneud cymariaethau. Fodd bynnag, gallwn olrhain hanes Cyngor Gwynedd.

44. Yn 1996 roedd gan y Cyngor 11 o swyddi ar lefel Pennaeth/ Cyfarwyddwr / Prif Weithredwr. Yn ad-drefnu 2004, fe dyfodd hyn i 18. Erbyn hyn rydym yn ôl i 12.

45. Fodd bynnag, os ydym yn cynnwys swyddi ar y lefel nesaf i lawr sef uwch Reolwyr, fe geir darlun ychydig yn wahanol.

46. Yn 1996 roedd gan y Cyngor 43 o swyddi ar lefel Uwch Reolwyr neu uwch.

47. Erbyn 2004 (er gwaethaf fod y nifer swyddi ar lefel Penaethiaid ag uwch wedi cynyddu) 'roedd y nifer yma wedi **gostwng** i 41. Yn y darluniau a luniwyd nawr mae'r nifer yma wedi lleihau ymhellach i 40.

48. O fewn y gostyngiad cyffredinol yma, yr hyn sy'n nodweddiadol yw bod yna gynnydd sylweddol wedi bod yn y nifer swyddi uwch o fewn maes gofal cymdeithasol, tra gwelwyd swyddi ar lefel uwch yn y gwasanaethau cefnogol a chorfforaethol yn gostwng o 14 i 10.

49. Mae yna ddadl fod y cynnydd ym maes Gofal Cymdeithasol wedi deillio o'r ffaith fod gwaith partneriaethol a phwysau deddfwriaethol o fewn y maes gofal wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd, ond y casgliad y gellir dod iddo yw nad yw ein hadnodd "swyddi uwch" i weld yn bell o'i le, a'i fod wedi bod yn gostwng yn raddol ers 1996 er gwaethaf y pwysau ychwanegol yma sydd wedi disgyn arnom.

**Casgliadau o ran addasrwydd y strwythur Penaethiaid / Penaethiaid Cynorthwyol**

50. Wrth edrych ar y darluniau a roddir yn Atodiadau 1 i 10, mae gennym 27 o swyddogion sy'n arddel rôl Pennaeth neu Bennaeth Cynorthwyol.

51. Mae'r rhesymeg dros gael Pennaeth Cynorthwyol yn amlwg wrth gwrs gan fod yr amrediad rheolwyr a meysydd cyfrifoldebau yn golygu'n aml na ellir arddel rôl Pennaeth yn gyfan gwbl gan un person.

52. Wrth gydnabod mai rheolwyr a'u timau sy'n "creu'r gwerth" drwy ddarparu'r hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd, rhaid nodi mai rôl "ychwanegu gwerth" sydd gan y Penaethiaid a Phenaethiaid Cynorthwyol, a dylem fod yn hollol gadarn fod y niferoedd sydd gennym yn briodol.

53. Rhaid gwylio rhag tanbrisio gwerth y swyddogaeth y mae'r Penaethiaid a'r Penaethiaid Cynorthwyol yn eu cyflawni fodd bynnag. Y swyddogion yma sy'n gosod cyfeiriad i'r holl reolwyr ac yn sicrhau eu bod yn arwain eu timau i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd. Hwy hefyd sy'n debygol o gamu i'r adwy os eith rhywbeth o'i le neu os oes angen newid mawr.

54. Maent yn hanfodol bwysig felly i lwyddiant y Cyngor ac am sicrhau fod egwyddorion Ffordd Gwynedd yn gwreiddio drwy'r sefydliad.

55. Yn anffodus, nid oes yna unrhyw fformiwla i ddweud faint ohonynt sydd eu hangen ac felly mater o farn fydd hynny.

56. Yn rhesymegol, mae'r nifer yr ydym eu hangen yn gyfuniad o dri ffactor gyffredinol sef –

- Nifer y rheolwyr;
- I ba raddau y mae rheolwyr eu hunain yn arddel eu rôl yn effeithiol; a
- Faint o "newid" sy'n taro'r meysydd dan sylw.

57. Gan dderbyn mai mater o farn ydyw, ac nad oes yna fformiwla i ddweud faint ydan ni eu hangen, mae'n amhosibl i mi ddweud yn bendant mai ein strwythur presennol yw'r lleiafswm sydd ei angen. Mae yna achos i ofyn felly a allem wneud gyda llai o Benaethiaid / Penaethiaid Cynorthwyol.

58. Yr unig ffordd i brofi hynny yw arbrofi er mwyn gweld beth fydd yr effaith. O edrych ar y darlun cyflawn rwyf o'r farn y dylai fod yn bosibl.

59. Wrth drafod gydag aelodau'r Fforwm Craffu roeddent i weld yn cytuno gyda'r asesiad yma ac yn derbyn fy asesiad mai'r unig ffordd o wybod os oes gennym ormod yw ceisio dygymod gyda llai a gweld beth fydd yr effaith, ond i beidio gwneud hynny'n fyrbwyll a'i wneud gam ar y tro.

60. Wrth edrych ar y darluniau, a chan ystyried y ffactorau a nodir yng nghymal 56 uchod, ymddengys i mi mai yn y mannau canlynol y gellid ystyried gwneud gyda llai.

61. **Adran Amgylchedd -** Mae 4 Pennaeth / Pennaeth Cynorthwyol i weld yn ormodol a chredaf y dylid ceisio dygymod gydag un yn llai.

62. **Adran Cefnogaeth Gorfforaethol -** Mae'r Pennaeth eisoes wedi nodi yn ystod y trefniadau herio, wrth i reolwyr ddod yn gyfforddus gydag arddel eu rôl yn unol â'r swydd ddisgrifiad newydd, mae'r mewnbwn sydd ei angen ganddo ef a'i benaethiaid cynorthwyol yn lleihau. Credaf felly fod yna le i ddweud y gellir arbrofi gydag un yn llai.

63. **Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd -** Yn wyneb y nifer rheolwyr sydd yma, a'r nifer cyfyngedig o feysydd sydd dan sylw, mae cael Pennaeth a Phennaeth Cynorthwyol i weld yn ormodol a dylid ceisio dygymod gydag un yn llai.

64. **Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol -** Gan mai dau brif swyddogaeth sydd yma – sef Priffyrdd a Bwrdeistrefol, mae cael 3 Pennaeth / Pennaeth Cynorthwyol i weld yn ormodol a dylid ceisio dygymod gydag un yn llai.

65. **Adran Economi a Chymuned -** Wrth i siâp a swyddogaethau'r adran hon newid, eto, mae yna ddadl fod 3 Pennaeth / Pennaeth Cynorthwyol yn ormodol. Wedi dweud hynny, rwyf yn ymwybodol mai un o flaenoriaethau'r Cabinet yw ceisio sicrhau fod mwy o bwyslais yn cael ei roddi ar y maes Adfywio, ac fe fydd angen adnodd i gefnogi'r grŵp o aelodau cabinet a sefydlwyd i geisio cydgordio'r ymdrechion yn y maes yma yn well. Ar y sail honno felly nid wyf yn awgrymu lleihad yma yn yr adolygiad hwn.

66. Byddai hyn yn golygu ceisio dygymod gyda 4 uwch swyddog yn llai.

67. Amser a ddengys a fyddwn yn gallu dygymod gyda'r gostyngiad uchod, ond wrth gymharu'r sefydliadau adrannol credaf y dalai hynny fod yn bosibl, ac mae angen i ni fod yn adolygu'n barhaus y niferoedd uwch swyddogion sydd eu hangen, hyd nes ein bod yn hyderus na allwn fynd ymhellach.

68. Un arwydd o lwyddiant Ffordd Gwynedd fyddai'r angen am lai o swyddi Uwch Reolaethol i arwain rheolwyr ac efallai ein bod yn dechrau gweld y buddion cyntaf.

69. Wrth gwrs pe byddem yn darganfod nad ydym yn gallu dygymod mewn unrhyw faes yna efallai y byddai'n rhaid i ni ail feddwl ond yn yr hinsawdd ariannol bresennol, mae'n ddyletswydd arnom i geisio gwneud gyda llai.

70. Mae yna un maes lle rwyf yn pryderu nad oes yna Bennaeth Cynorthwyol, er fy mod o'r farn fod angen un yno, a hynny yw ym maes Darparu Oedolion. Rwyf wedi trafod hyn gyda'r Pennaeth a'i fwriad yw datrys y sefyllfa wrth weithredu ar y prosiect gofal cartref.

**Cyfarwyddwyr**

71. Yn yr un ffordd ag y mae angen herio faint o benaethiaid / penaethiaid cynorthwyol sydd eu hangen, mae gofyn i ni hefyd ystyried a ydym angen dau gyfarwyddwr yn ogystal â Phrif Weithredwr.

72. Fel y nodir yng nghymal 16 uchod fy nghynorthwyo i i gyflawni fy rôl y mae'r ddau gyfarwyddwr gydag un Cyfarwyddwr hefyd yn cyflawni rôl swyddog statudol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

73. Unwaith eto byddwn yn nodi mai'r unig ffordd i weld a ellir gwneud gyda llai yw ceisio gwneud hynny ond efallai fod yna lai o dystiolaeth y byddem yn gallu gwneud gyda llai ar yr haen yma.

74. Byddai'r gost o ddiswyddo er mwyn arbrofi hefyd yn anferthol, a hynny heb unrhyw sicrwydd y gellid gwneud hefo un yn llai, gyda'r risg byddai angen ail lenwi'r swydd maes o law. Byddai hynny yn wastraff adnodd.

75. Awgrymaf felly na ddylid lleihau'r nifer Cyfarwyddwyr ar y pwynt yma gan ystyried y sefyllfa ymhellach pe cyfyd sefyllfa yn y dyfodol lle gellid arbrofi heb gostau diswyddo.

**Ystyriaethau ehangach**

76. Mae'r adolygiad rheolaethol wedi codi nifer o faterion eraill sydd hefyd angen eu hystyried ac fe ddylem gymryd y cyfle i roddi sylw iddynt.

77. Un ohonynt wrth gwrs yw a ddylid cymryd y cyfle, gan fod y swydd Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn wag, i leihau nifer yr adrannau.

78. Rwyf o'r farn nad nifer y Penaethiaid sy'n bwysig, ond nifer yr uwch swyddogion yn ei gyfanrwydd. Gan gymryd ein bod am leihau nifer yr uwch swyddogion o 4, a chan ei fod yn bwysig (fel y nodir yng nghymal 27 uchod) i sicrhau fod yna gyfleoedd digonol o fewn y Cyngor i gynnig cyfleoedd i'r staff gorau, nid wyf yn cynnig lleihau'r nifer adrannau.

79. Bwriadaf gadw'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol felly. Fodd bynnag, mae gen i bryderon am y rhesymeg sydd y tu ôl i'r strwythur fel ag y saif a chredaf ei fod wedi arwain at ddatblygu diwylliant anffodus mewn rhai corneli o fewn yr Adran. Byddaf yn dilyn hynny fyny gyda'r pennaeth newydd pan benodir ef neu hi.

80. Mae yna adolygiad Ffordd Gwynedd yn mynd ymlaen ar hyn o bryd o fewn meysydd Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu, ac er nad ydym wedi gweld canlyniadau'r ddau adolygiad, mae yna ymdeimlad yn dechrau dod drwodd y byddai yna fanteision i drigolion pe byddent yn agosach at ei gilydd o leiaf.

81. Mae gweddill y gwasanaethau o fewn Ymgynghoriaeth Gwynedd yn cynnwys 5 rheolwr sydd i bob pwrpas yn cyflawni swyddogaethau masnachol eu natur.

82. Tra bod yna ddadl gref iawn iddynt fod yn uned ar wahân oherwydd gogwydd masnachol gwahanol eu gwaith, o gofio fy mod eisoes wedi nodi fod cael Pennaeth a Phennaeth Cynorthwyol yn ormodol, awgrymaf fod yna ddadl hefyd i drosglwyddo holl swyddogaethau Ymgynghoriaeth Gwynedd i fod yn adain o fewn yr Adran Amgylchedd ac rwyf yn argymell y dylid gwneud hynny.

83. Ar y llaw arall, mae tai yn amlwg yn flaenoriaeth i'r Cyngor ac mae'r adnodd sydd yn dod i'n rhan yn sgil y premiwm ail gartrefi yn rhoi cyfle i ni roi mwy o ffocws i'r maes yma. Nid wyf yn credu fod modd gwneud hynny drwy ei leoli o fewn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant sydd yn barod yn ceisio rhoi sylw dyledus i'r materion enfawr sydd yn eu hwynebu ym maes Gofal Cymdeithasol.

84. Mae yna rai elfennau o'r gwasanaeth Tai sydyn perthyn yn glir i'r agenda cefnogi pobl o fewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ond mae'r agenda argaeledd tai ffisegol yn y sir a rhoi cymorth i'n bobl ifanc i gael tai yn fater sydd angen ffocws penodol.

85. Ar sail hynny felly rwyf yn argymell y dylid sefydlu Adran Tai ac Eiddo dan arweiniad Pennaeth Adran.

86. Cyfuniad o'r gwasanaethau sy'n dod o dan yr Uned Eiddo o fewn yr adran Amgylchedd ynghyd a'r elfennau ffisegol Tai sydd ar hyn o bryd o fewn yr Adran Oedolion Iechyd a Lles fyddai hon.

87. Mae yna faterion eraill o fewn yr Adran Amgylchedd sydd yn ymwneud â phriffyrdd lle 'rwyf o'r farn y byddai'n well iddynt orwedd gyda'r Gwasanaeth Priffyrdd o fewn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol.

88. Mae yna hefyd fan faterion eraill mewn adrannau amrywiol lle byddent efallai yn gorwedd yn well mewn adrannau gwahanol, a byddaf yn trafod y rhain a'r union ffiniau ar gyfer y rhai a nodir yng nghymal 85 ac 86 uchod gyda'r Penaethiaid Adran berthnasol cyn gweithredu.

**Amseriad ac effaith ariannol y cynigion**

89. Fel yr wyf yn nodi yng nghymal 47 uchod, mae'r Cyngor yma eisoes wedi lleihau swyddi "uwch" o 44 yn 1996 i 40 rŵan, er gwaethaf y faith nad yw'r gofynion sydd arnom wedi lleihau. Yn wir, fel y nodir yng nghymal 49 gellid dadlau fod y pwysau wedi cynyddu.

90. Mae'r adroddiad yma yn cynnig lleihau nifer uwch swyddi'r Cyngor ymhellach o 4, gan ddod a'r ffigwr i lawr i 36 er mwyn gweld a allwn ddygymod gyda hynny.

91. Gan na wyddom beth fydd effaith penodiadau i swyddi gwag ni ellir bod yn hollol bendant ynglyn a'r union arbediad, ond amcangyfrifir y byddwn yn arbed rhwng £297,000 a £313,000 yn flynyddol drwy weithredu holl gynigion yr adroddiad gydag o leiaf £223,500 ar gael yn 2019/20.

92. Bydd y swm yma ar gael i gyfrannu at y £315,500 sydd angen ei ddarganfod er mwyn darganfod y £500,000 arbedion effeithlonrwydd sy'n rhan o strategaeth ariannol y Cyngor ar gyfer 2019/20.

93. Bydd hyn yn golygu ein bod wedi arbed dros £1m mewn costau uwch reolaethol o fewn y Cyngor ers 2014.

94. Os yw'r Cabinet yn derbyn y cynigion, y bwriad yw eu gweithredu cyn gynted ag y bo modd ond gan orffen yr holl drosglwyddiadau/newidiadau erbyn 1 Medi 2019.

95. Mae gan rhai o'r argymhellion yma oblygiadau o ran trefniadau cyflogi Prif Swyddogion sydd yn ddarostyngedig i ofynion Rheoliadau Awdurdodau Lleol ( Rheolau Sefydlog)(Cymru) 2006 fel y'i diwigwyd a Rhan 11 o Gyfansoddiad y Cyngor. Bydd gweithredu penderfyniadau sydd yn ymwneud ag elfenau o'r newidiadau, yn benodol o amgylch taliadau a thal, yn golygu penderfyniadau hefyd gan y Pwylgor Penodi Prif Swyddogion a'r Cyngor.

96. Mae'r adroddiad yma yn ymwneud â strwythurau'r Cyngor, ond yn naturiol mae yna oblygiadau i unigolion sydd yn rhai o'r swyddi dan sylw. Nodir yr oblygiadau hynny mewn atodiad i'r adroddiad yma, sydd yn cynnwys gwybodaeth bersonol am unigolion penodol ac sydd felly'n eithriedig o dan ddarpariaethau paragraff 12 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

---

**Sylwadau'r Swyddogion Statudol**

**Swyddog Monitro**

Mae'r adroddiad yn ceisio cefnogaeth y Cabinet i newidiadau yn nhrrefniadau rheoli y Cyngor a'r strwythurau adrannol. Mae'n briodol nodi y bydd camau pellach i'w hystyried a'u dilyn wrth symud ymlaen i ddod a'r newidadau yn weithredol. Mae'r argymhellion yn gosod llwybr rhesymegol ar gyfer cyflawni y newid i'r Cabinet ystyried .

**Pennaeth Cyllid**

Nodaf fod yr argymhellion yn yr Adolygiad Rheolaethol gerbron y Cabinet yn golygu symud rhai gwasanaethau, a sefydlu atebolrwydd mewn adrannau gwahanol.

Mae'n amlwg bod yr arbedion sylweddol (cyfanswm net o rhwng £297,000 a £313,000) y gellid cynaeafu o'r Adolygiad Rheolaethol arfaethedig (yn unol â'r addewid wrth lunio a chymeradwyo cyllideb 2019/20) yn ddigonol i gyfiawnhau'r cost trosiannol (yn cynnwys cost diswyddo sy'n gymharol fychan, oherwydd cadwyd rhai swyddi'n wag yn barod am hyn). Cadarnhaf gywirdeb y ffigyrau yn rhan 91, 92 a 93 o'r adroddiad.

## ATODIAD A - Rheolwr – Swydd Ddisgrifiad generic

**A PRIF SWYDDOGAETH**

**Arwain y tîm(au) y mae'n gyfrifol amdano i gyflawni yn effeithiol ac effeithlon yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd drwy greu a chynnal yr amgylchedd o barch, ymddiriedaeth, grymuso, arfogi ac ysbrydoli'r staff.**

**B RÔL**

**ARWAIN**

- Bod yn atebol am y Gwasanaeth ** a'r defnydd mwyaf effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael
- Arwain staff y Gwasanaeth ** i berchnogi egwyddorion Ffordd Gwynedd a bod yn atebol am sicrhau fod hynny'n digwydd
- Cynorthwyo'r tîm i sefydlu egwyddorion gweithredu gan ystyried deddfau perthnasol (e.e. Iechyd a Diogelwch, Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant) a sicrhau eu bod yn cadw atynt
- Bod yn ymwybodol o sut y mae systemau'r tîm yn gweithio a hwyluso i'w herio ple bo'r angen
- Sicrhau fod y tîm yn cyfrannu at amcanion gwasanaethau neu sefydliadau eraill sy'n ceisio cyflawni'r hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd.
- Hyrwyddo'r angen i adnabod a gweithredu ar fygythiadau a chyfleoedd y dyfodol gan gynnwys camau ataliol
- Sicrhau ymwybyddiaeth o'r hinsawdd gyfreithiol a gwleidyddol sy'n effeithioo ar y gwasanaeth gan sicrhau fod aelodau'r tim yn ymwybodol o'r elfennau angenrheidiol.
- Bod yn fyw i ymarfer da o fewn y maes gwasanaeth a sicrhau fod y tîm yn ystyried priodoldeb yr ymarfer da hwnnw iddynt hwy.
- Arwain newid o fewn y maes gwasanaeth lle mae angen gwneud hynny
- Delio gyda phryderon a godir gan aelodau etholedig ynglŷn â'r gwasanaeth.

**GALLUOGI A GRYMUSO**

- Recriwtio a datblygu unigolion a thimau i sicrhau bod ganddynt y sgiliau angenrheidiol i gyflawni'r rolau sydd eu hangen rwan ac i'r dyfodol
- Arfogi'r tîm i sefydlu beth sy'n bwysig i bobl Gwynedd a thrwy hynny sefydlu pwrpas y tîm a'i gadw'n gyfredol
- Sicrhau fod penderfyniadau yn cael eu gwneud ar sail tystiolaeth.
- Helpu'r tîm i adolygu a herio ei berfformiad
- Creu a chynnal awyrgylch sy'n galluogi pob aelod o'r tîm i gyfrannu a chymryd penderfyniadau er mwyn darparu'r gwasanaethau gorau posib
- Sicrhau awyrgylch o ymddiriedaeth ac atebolrwydd o fewn y tîm gan sicrhau cyfathrebu priodol gyda ac o fewn y tîm.

**CYFLAWNI**

- Arfogi'r tîm i ystyried pa fesurau sy'n dangos perfformiad yn erbyn y pwrpas ac i berchnogi'r mesurau hynny
- Annog y tîm i arloesi, mentro a dysgu o brofiad er mwyn gwella perfformiad
- Cymell y tîm i adnabod a gweithredu'n amserol er mwyn dileu rhwystrau sy'n atal y gallu i gyflawni yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd
- Datrys unrhyw rwystrau na all y tîm eu datrys
- Sicrhau fod cwynion yn derbyn sylw priodol a bod y tîm yn ystyried unrhyw wersi sy'n codi.

## ATODIAD B - Pennaeth Adran - Swydd ddisgrifiad generic

**A PRIF SWYDDOGAETH**

Arwain yr Adran, drwy'r rheolwyr a'r gweithwyr sydd o dan eu gofalaeth i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd gan arwain a chreu amgylchedd o barch, ymddiriedaeth, atebolrwydd, grymuso ac arfogi sydd ei angen er mwyn gwireddu'r amcan honno.

**B. RÔL**

- Bod yn fyw i'r amgylchedd gwleidyddol y mae'r Adran yn gweithio ynddi a chynghori'r aelodau etholedig o'r hyn y dylent fod yn ei gomisiynu ar sail yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd gan sicrhau fod yr Adran yn cefnogi'r Cabinet i gyflawni yr hyn a gomisiynir.

- Arfogi rheolwyr i fedru cyflawni eu rôl i'r safon ddisgwyliedig gan gynnwys sicrhau bod ganddynt y sgiliau i wneud hynny

- Sicrhau atebolrwydd rheolwyr am gyflawni eu rôl i'r safon ddisgwyliedig gan herio'n briodol a sicrhau eu bod yn gweithredu'n briodol er mwyn cyflawni'r lefel perfformiad gorau posibl a chymryd camau priodol lle nad yw hynny'n digwydd.

- Arwain rheolwyr a staff yr Adran i berchnogi egwyddorion gweithredu Ffordd Gwynedd; gwella'r ffordd yr ydym yn cyflawni'r hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd ac i wneud penderfyniadau ar sail ffeithiau o fewn yr egwyddorion gweithredu a gytunir arnynt o fewn y tîm.

- Bod yn fyw i ymarfer da sy'n datblygu yn y meysydd y mae'n gyfrifol amdanynt a sicrhau fod Rheolwyr yn eu hasesu ac ystyried eu priodoldeb ar gyfer eu meysydd unigol.

- Hyrwyddo cyfraniad gwasanaethau'r Adran at wireddu amcanion y Cyngor a sefydliadau eraill sy'n ceisio cyflawni'r hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd gan sicrhau bod rheolwyr yn ymwybodol ac yn gweithredu ar yr amcanion hynny.

- Datrys problemau na all rheolwyr eu datrys gan gynnwys cwynion lle na fu modd i'r rheolwyr eu datrys.

- Arwain materion sydd angen mewnbwn mwy nag un Gwasanaeth neu lle mae'r newid mor sylweddol lle nad yw'n rhesymol disgwyl i Reolwr arwain arno.

- Sicrhau bod yr adnoddau priodol yn y lle priodol gan flaenoriaethu'r adnoddau a roddir i'r Adran

- Sicrhau bod deddfwriaeth neu ofynion eraill o du allan i'r Cyngor yn derbyn y sylw angenrheidiol.

- Delio a materion sydd mor wleidyddol gynhennus fel na fyddai disgwyl i reolwr ddelio ag ef.

- Sicrhau cyfathrebu mewnol ac allanol ar draws yr Adran.

# Atodiadau 1 i 10

# Atodiad 1 - Addysg

**Pennaeth Adran**

Cyflog ar lefel "Uwch Reolwr"

- Swyddog Addysg Ardal Arfon [P.C]
  - Penaethiaid Ysgolion Ardal Arfon (44)
- Swyddog Addysg Ardal Dwyfor/Meirion [P.C]
  - Penaethiaid Ysgolion Ardal Dwyfor / Meirion (56)
- Uwch Reolwr Ysgolion
- 1. Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg
  2. Rheolwr Uned Moderneiddio
  3. Rheolwr Gwasanaethau Ategol
- Pennaeth Cynorthwyol Addysg Arbennig a Chynhwysiad
  1. Rheolwr Busnes Cynhwysiad
  2. Rheolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol
  3. Rheolwr TRACC (d/d)

Rheolwr Prosiect (d/d)

# Atodiad 2 - Amgylchedd

**Pennaeth Adran**

Lefel "Uwch Reolwyr" presennol

**Pennaeth Cynorthwyol Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd**

1. Rheolwr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd
2. Rheolwr Cynllunio
3. Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (Lles)
4. Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (Amgylchedd)
5. Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (Safonau Masnach)

**Rheolwr Cefnogol**

**Pennaeth Cynorthwyol Trafnidiaeth a Chefn Gwlad**

1. Rheolwr Cludiant Integredig
2. Rheolwr Traffig, Prosiectau a Gwaith Stryd
3. Rheolwr Monitro Cyllid a Chontractau
4. Rheolwr Cefn Gwlad

**Pennaeth Cynorthwyol Eiddo Corfforaethol**

1. Rheolwr Cynnal a Chadw a Chadwraeth Ynni
2. Rheolwr Stadau
3. Rheolwr Diogelwch Eiddo a Gwaith Rhaglenedig
4. Rheolwr Datblygu Eiddo
5. Rheolwr Parcio
6. Rheolwr Cyfleusterau

Rheolwr Prosiect

# Atodiad 3 – Cefnogaeth Gorfforaethol.

## Pennaeth Adran

Cyflog ar lefel "Uwch Reolwr"

### Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol

1. Rheolwr Gwasanaethau Cefnogol
2. Rheolwr Caffael
3. Rheolwr Ymgynghorol Iechyd, Diogelwch a Llesiant
4. Rheolwr Ymgynghorol Adnoddau Dynol
5. Rheolwr Siopau Gwynedd, Galw Gwynedd a'r Gwasanaethau Cofrestru

### Pennaeth Adran

1. Rheolwr Aelodau - Gwasanaeth Democratiaeth a Iaith
2. Rheolwr Dysgu a Datblygu'r Sefydliad

### Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol

1. Rheolwr Ymchwil a Gwybodaeth
2. Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu
3. Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor

Rheolwr Prosiect x 2
Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

# Atodiad 4 -Cyllid

## Pennaeth Adran

Cyflog ar lefel “Uwch Reolwr”

### Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth

1. Rheolwr y Rhwydwaith
2. Rheolwr Gwasanaeth Cefnogol TG
3. Rheolwr Datblygu a GIS
4. Rheolwr Datblygu Systemau
5. Rheolwr Cyfrif TG

### Uwch Reolwr Cyllid

1. Rheolwr Pensiynau
2. Rheolwr Buddsoddi

### Pennaeth Cynorthwyol Refeniw a Risg

1. Rheolwr Incwm
2. Rheolwr Trethi
3. Rheolwr Budd-daliadau
4. Rheolwr Archwilio
5. Rheolwr Cyflogau
6. Rheolwr Cydlynu Risg ac Yswiriant

# Atodiad 5 - Economi a Chymuned

## Pennaeth

Cyflog ar lefel "Uwch Reolwr"

### Pennaeth Cynorthwyol Diwylliant

1. Prif Archifydd
2. Rheolwr Amgueddfeydd & Celfyddydau
3. Rheolwr Llyfrgelloedd
4. Rheolwr  Twristiaeth a Marchnata

### Pennaeth Cynorthwyol Economi ac Adfywio

1. Rheolwr  Rhaglenni Datblygu Economaidd
2. Rheolwr Cefnogi Busnes
3. Rheolwr Morwrol a Pharciau Gwledig
4. Rheolwr Cefnogi Cymunedau

Rheolwr Rhaglen Gwella Amgylchedd Busnes
Rheolwr Prosiect Menter Glannau Caernarfon (d/d)
Rheolwr prosiectau STEM a chydymdrechu yn erbyn tlodi (d/d)
Rheolwr Rhaglen Datblygu Gwynedd Wledig (d/d)

### Rheolwr Rhaglenni Chwaraeon a Byw'n Iach

# Atodiad 6 - Oedolion(1)

Cyflog ar lefel "Uwch Reolwr"

**Pennaeth Adran**

- Uwch Reolwr Oedolion
- Uwch Reolwr Anableddau Dysgu
  - 1.Rheolwr Frondeg
    2. Rheolwr Tan y Marian
- Uwch Reolwr Diogelu & Sicrwydd Ansawdd & IM
- Uwch Reolwr Busnes
  - Rheolwr Adnoddau Ariannol

Rheolwr Rhaglen Trawsffurfio d/d

Uwch Reolwr Rhaglen Trawsnewid

Rheolwyr Prosiect x 4

# Atodiad 6 - Oedolion (2)

Cyflog ar lefel "Uwch Reolwr"

**Pennaeth Adran**

- **Rheolwr Ardal Preswyl a Gofal Dydd y Gogledd**
  1. Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol
  2. Rheolwr Plas Gwilym
  3. Rheolwr Plas Hafan
  4. Rheolwr Plas Hedd
  5. Rheolwr Plas Pengwaith
  6. Rheolwr Plas Ogwen
  7. Rheolwr Plas Maesincla
- **Rheolwr Ardal Preswyl a Gofal Dydd y De**
  1. Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol
  2. Rheolwr Bryn Blodau
  3. Rheolwr Llys Cadfan
  4. Rheolwr Cefn Rodyn
  5. Rheolwr Hafod Mawddach
  6. Rheolwr Plas y Don

**Pennaeth Cynorthwyol Tai a Llesiant**

1. Rheolwr Digartrefedd a Thai Cefnogol
2. Rheolwr Tai Cyflenwad a Gorfodaeth
3. Rheolwr Cefnogi Pobl

# Atodiad 7 – Plant a Theuluoedd

Cyflog ar lefel "Uwch Reolwr"

**Pennaeth Adran**

- Uwch Reolwr Gweithredol
- Uwch Reolwr Gweithredol (Adnoddau Gofal)
- 1. Rheolwr Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid
  2. Rheolwr Hafan y Ser
- Uwch Reolwr Diogelwch ac Ansawdd

Pennaeth Cynorthwyol Cefnogi Teuluoedd

- 1.Rheolwr Gwasanaeth Ieuenctid
- 2. Rheolwr Dechrau'n Deg
- 3.Rheolwr Meithrinfa Plas Pawb

# Atodiad 8 – Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Cyflog ar lefel "Uwch Reolwr"

**Pennaeth Adran**

- **Pennaeth Cynorthwyol Bwrdeistrefol**
  1. Rheolwr Gweithredol Bwrdeistrefol
  2. Rheolwr Gweithredol Bwrdeistrefol
  3. Rheolwr Busnes
- **Uwch Reolwr Gwasanaeth Gwaith Priffyrdd**
  1. Rheolwr Fflyd
  2. Rheolwr Gwasanaeth Goleuo
  3. Rheolwr Cytundeb yr A55
  4. Rheolwr Busnes

  Rheolwr Prosiectau
- **Pennaeth Cynorthwyol Gwastraff a Chomisiynu**
  1. Rheolwr Gwasanaethau Stryd
  2. Peiriannydd Grŵp Bwrdeistrefol
  3. 3x Peiriannydd Ardal
  4. Rheolwr Amlosgfa

# Atodiad 9 - Ymgynghoriaeth Gwynedd

Cyflog ar lefel "Uwch Reolwr"

**Pennaeth**

Pennaeth Cynorthwyol Ymgynghoriaeth

1. Rheolwr Rheolaeth Adeiladu
2. Rheolwr Uned Dwr ac Amgylchedd
3. Rheolwr Uned Adeiladu

1. Rheolwr Uned Busnes
2. Rheolwr Uned Technegol
3. Rheolwr Uned Prosiect

Rheolwr Datblygu Busnes

# Atodiad 10 - Cyfreithiol

Cyflog ar lefel "Uwch Reolwr"

Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol

1. Uwch Gyfreithiwr (Gwasanaethau)
2. Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol)